# Cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim

## Dogfen Ymgynghori



sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

## Cynnwys


**1. Cyflwyniad** ... 3

**2. Cefndir** ... 3

**3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig** ... 5

**4. Y Cynnig – Cau Ysgol Gynradd Meidrim** ... 13

**5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion** ... 33

**6. Yr ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt** ... 37

**7. Yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg** ... 39

**8. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg** ... 46

**9. Cyllid** ... 47

**10. Tir, Adeiladau a Theithio** ... 49

**11. Y Broses Ymgynghori** ... 52

**12. Beth fydd yn digwydd nesaf?** ... 53

**13. Trefniadau Derbyn** ... 55

**14. Asesiadau Effaith** ... 56

**Atodiad A - Ffurflen Ymateb** ... 57

**Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned** ... 61

**Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** ... 68

## 1. Cyflwyniad

Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn amlinellu cynnig yr Awdurdod Lleol i newid y ddarpariaeth addysg gynradd yn ardal Meidrim, gan gynnwys y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026 ymlaen. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. Cymeradwyodd Cabinet y Cyngor Sir y penderfyniad i ymgynghori ar y cynnig hwn ar 17 Tachwedd 2025.

Mae'r ddogfen yn cynnig cyfle i rieni/gofalwyr, staff ysgol ac unrhyw un arall sydd â diddordeb gyflwyno unrhyw sylwadau neu opsiynau eraill yr hoffent iddynt gael eu hystyried. Ar ôl ymgynghori ar y newid arfaethedig, bydd y Cyngor yn ystyried a ddylid gweithredu'r cynigion hyn.

Bydd y Cyfnod Ymgynghori ar gyfer y cynnig yn cael ei gynnal rhwng 16 Ionawr 2026 a 2 Mawrth 2026. Ni fydd unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

Bydd y broses ymgynghori yn dilyn y canllawiau a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru fel y nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

## 2. Cefndir

Mae cyfrifoldeb cyfreithiol ar yr Awdurdod Lleol i adolygu nifer a math yr ysgolion sydd ganddo ac a yw'n llwyddo ai peidio i wneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleusterau sydd ar gael i ddarparu'r cyfleoedd y mae plant yn eu haeddu.

Ar 18 Tachwedd 2024 cymeradwyodd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin Strategaeth Moderneiddio Addysg wedi'i diweddaru gyda'r nod o gyflawni dyheadau'r Awdurdod Lleol o ran moderneiddio ac ad-drefnu ysgolion.

Mae'r strategaeth hon wedi'i datblygu i lywio'r gwaith o roi'r Rhaglen Moderneiddio Addysg newydd ar waith yn y dyfodol. Mae strategaeth y rhaglen yn cael ei harwain gan gyfres o amcanion strategol:

- Datblygu rhwydwaith o ysgolion sy'n effeithiol yn addysgol ac sy'n defnyddio adnoddau'n effeithlon ac yn gynaliadwy yn y tymor hir.
- Datblygu patrwm darpariaeth er mwyn i bob lleoliad dysgu hwyluso addysg o ansawdd uchel ar gyfer ei holl ddysgwyr cofrestredig, a hynny naill ai fel sefydliad unigol neu fel rhan o ffederasiwn neu drefniant cydweithredol gyda lleoliadau neu ddarparwyr eraill.
- Creu amgylchedd ysgol sy'n caniatáu i bob plentyn ym mhob ysgol gyrchu cwricwlwm a chael profiadau addysgu sy'n eu cymell i gyflawni eu llawn botensial, yn ogystal â hwyluso rhaglen o weithgareddau allgyrsiol sy'n hyrwyddo eu lles corfforol ac emosiynol.
- Datblygu seilwaith ym mhob ysgol sy'n eu galluogi i ddarparu addysg yn yr 21ain ganrif, gan hwyluso'r gwaith o wireddu'r amcanion craidd ar gyfer codi safonau addysgol a chynnal perfformiad o safon uchel.

- Gweithio'n strategol o ran darparu buddsoddiadau cyfalaf, ac integreiddio hynny â rhaglen i resymoli'r ddarpariaeth ledled y rhwydwaith ysgolion er mwyn cyflenwi'r galw yn effeithiol.
- Datblygu rhwydwaith ysgolion cynaliadwy ac integredig sy'n cyd-fynd â pholisïau trafnidiaeth lleol a chenedlaethol, gan sicrhau mynediad effeithlon i fyfyrwyr wrth gydbwyso gofynion statudol ag ystyriaethau fforddiadwyedd. Mae hyn yn cynnwys gwneud y defnydd gorau posibl o leoliadau ysgolion, cysylltiadau trafnidiaeth, a llwybrau teithio llesol i gefnogi hygyrchedd, cynaliadwyedd amgylcheddol, a bod yn gost effeithiol.
- Anelu at ailadeiladu, ailfodelu, adnewyddu neu foderneiddio'r holl ysgolion sydd i'w cadw yn y tymor hir, er mwyn iddynt gydymffurfio, i'r graddau y mae hynny'n ymarferol, â'r safonau dylunio a fabwysiadwyd.
- Cyfrannu at gyflawni amcanion polisi ehangach, er enghraifft, adnewyddu ac adfywio cymunedol, ffyrdd iach o fyw ac ati, trwy ddatblygu seilwaith galluogi priodol.
- Gwella effeithlonrwydd a dichonoldeb addysgol y sector ysgolion trwy leihau nifer y lleoedd gwag i lefel resymol, a hwyluso, lle bo hynny'n ymarferol, y dewisiadau a fynegir gan rieni ac ymateb yn effeithiol i newidiadau demograffig.
- Datblygu seilwaith ysgolion sy'n gwbl hygyrch i bawb ac sy'n galluogi pob dysgwr i gyrchu addysg o ansawdd uchel, beth bynnag yw'r anghenion unigol.
- Datblygu atebion unigol a chydweithredol ar gyfer ysgolion sy'n cyfrannu at y system addysg gyfun ledled y sir.

Mae pob ysgol yn Sir Gaerfyrddin yn cael ei gwerthuso drwy gyfrwng Asesiad Hyfywedd. Mae'r asesiad yn cael ei gynnal yn erbyn cyfres o feini prawf seiliedig ar dystiolaeth, sy'n caniatáu gwneud asesiad o hyfywedd gweithredol yr ysgol, a gwneud penderfyniadau ar sail angen buddsoddi cymharol pob ysgol. Mae hyn yn galluogi'r Awdurdod i bennu rhaglen yn wrthrychol ar gyfer yr adolygiad strategol o'r rhwydwaith ysgolion a buddsoddi mewn moderneiddio'r ystad ysgolion mewn modd sy'n dryloyw ac yn amlwg yn deg. O ganlyniad, mae pob ysgol yn cael ei rhoi mewn categori o fewn continwwm hyfywedd, i gadarnhau'r prognosis ar gyfer yr ysgol honno.

Mae Ysgol Meidrim wedi'i nodi fel ysgol sy'n wynebu problemau yn dilyn yr Asesiad Hyfywedd ac o ganlyniad fe'i dewiswyd ar gyfer adolygiad pellach.

### 2.1 Llunio Trafodaeth

Cynhaliwyd cyfarfod yn yr ysgol gyda'r Pennaeth, y Corff Llywodraethu ac Aelod Lleol Ysgol Gynradd Meidrim ar 13 Mawrth 2025 i drafod sefyllfa bresennol yr ysgol. Rhoddwyd cyfle i'r corff llywodraethu ddarparu opsiynau i fynd i'r afael â'r materion y mae'r ysgol yn eu hwynebu er mwyn eu cynnwys yn yr adroddiad a gyflwynwyd i Gabinet y Cyngor Sir i'w ystyried ymhellach.

Er i'r ysgol ddarparu papur gwybodaeth ar gyfer Ysgol Gynradd Meidrim, ni chafodd unrhyw opsiynau eu cynnwys yn y papur. Ers y cyfarfod Craffu a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2025, mae'r corff llywodraethu wedi darparu papur opsiynau, ond bydd angen ailgyflwyno hwn yn ystod y cyfnod ymgynghori i'w ystyried.

## 3. Yr Ysgol sy'n Destun Cynnig

Mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ysgol gynradd wledig Cyfrwng Cymraeg 4-11 ym mhentref Meidrim. Dangosodd data diweddaraf Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (2025) fod 31 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd.

Cafodd Ysgol Gynradd Meidrim ei nodi ar gyfer adolygiad yn dilyn Asesiad Hyfywedd o bob ysgol gynradd. Aseswyd yr ysgol yn erbyn y Meini Prawf Hyfywedd a nodir yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg sydd wedi'i diweddaru, fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024.

Mae Atodiad F o'r cod yn nodi Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol wledig. Mae'r Cod yn nodi trefniadau arbennig ar gyfer ysgolion gwledig gan sefydlu rhagdybiaeth drefniadol yn erbyn eu cau.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol ddilyn set fwy trylwyr o weithdrefnau a meini prawf wrth baratoi cynnig i gau ysgol wledig, yn ogystal ag yn ystod y broses ymgynghori ac wrth wneud penderfyniad terfynol ynghylch a ddylid bwrw ymlaen â'r cau.

Mae'r Cod yn ei gwneud yn ofynnol i Gabinet y Cyngor Sir gyflwyno papur cynnig, cyn penderfynu a ddylid symud ymlaen i ymgynghori. Cynhaliwyd y broses hon ar 17 Tachwedd 2025 a phenderfyniad y Cabinet oedd bwrw ymlaen â'r ymgynghoriad ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim.

## 3.1 Gwybodaeth am yr ysgol

| | | Ysgol Gynradd Meidrim |
|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Meidrim, Sir Gaerfyrddin, SA33 5QN |
| **Ystod Oedran** | | 4 – 11 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Cymunedol |
| **Categori Iaith** | | 3 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2025)** | **Oedran Meithrin** | 2 |
| | **Derbyn – B.6** | 29 |
| | **Cyfanswm** | 31 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)** | **Ionawr 2024** | 31 |
| | **Ionawr 2023** | 31 |
| | **Chwefror 2022** | 32 |
| | **Ebrill 2021** | 30 |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) (2025)** | **Ionawr 2026** | 34 |
| | **Ionawr 2027** | 37 |
| | **Ionawr 2028** | 37 |
| | **Ionawr 2029** | 38 |
| | **Ionawr 2030** | 34 |
| **Capasiti Meithrin 2024/2025** | | 6 |
| **Capasiti Derbyn - B.6 2024/2025** | | 48 |
| **Cyfanswm Capasiti 2024/2025** | | 54 |
| **Capasiti Meithrin 2025/2026** | | 6 |
| **Capasiti Derbyn - B.6 2025/2026** | | 48 |
| **Cyfanswm Capasiti 2025/2026** | | 54 |
| **Cost fesul disgybl (2024/25)** | | £6,349 |
| **Cyllideb Ysgol (2024/2025)** | | £196,808 |
| **Cost fesul disgybl (2025/2026)** | | £6,363 |
| **Cyllideb Ysgol (2025/2026)** | | £197,257 |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn (2024)** | | Mesurau Arbennig (*wedi'i dynnu o Fesurau Arbennig ers hynny) Adroddiad Arolygiad Ysgol Gynradd Gymunedol Meidrim 2024 |
| **Categori Cyflwr Adeilad (2024)** | | B |
| **Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol (2024)** | | C |

(CYBLD) - Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion

| **Graddau Categori Cyflwr Adeilad** | | **Addasrwydd** | |
|---|---|---|---|
| Gradd A | Fel newydd | Gradd A | Cyfleusterau da sy'n addas ar gyfer addysgu, dysgu a llesiant yn yr ysgol |
| Gradd B | Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig | Gradd B | Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd |
| Gradd C | Gweithredol ond angen gwaith atgyweirio neu amnewid mawr yn y tymor byr i'r tymor canolig | Gradd C | Gwael, mae dulliau addysgu yn rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol. |
| Gradd D | Anweithredol neu risg ddifrifol o fethiant mawr | Gradd D | Gwael, mae'r adeiladau'n rhwystro gallu'r staff i ddarparu'r cwricwlwm yn ddifrifol. |

## 3.2 Y Trefniadau Presennol – Status Quo yn Ysgol Gynradd Meidrim

Mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ysgol gynradd wledig Cyfrwng Cymraeg 4-11 ym mhentref Meidrim.

Mae'n ysgol dau athro, lle mae gan y pennaeth dros dro gyfrifoldeb addysgu o 0.7 ac ef yw CADY yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ddau ddosbarth.  Un dosbarth o ddisgyblion Meithrin i Flwyddyn 2 ac ail ddosbarth o Flynyddoedd 3-6.

Cafodd yr ysgol ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2024 ac yn unol â Deddf Addysg 2025, roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn bod angen Mesurau Arbennig mewn perthynas â'r ysgol. (*wedi'i dynnu o Fesurau Arbennig ers hynny).

Dangosodd data diweddaraf y Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) (2025) fod 31 o ddisgyblion ar y gofrestr, 2 ddisgybl o dan oedran ysgol statudol (Meithrin) a 29 o oedran ysgol statudol (Derbyn ac uwch).

O blith y 31 o ddisgyblion ar y gofrestr yn CYBLD 2025, roedd 22 o'r disgyblion yn dod o ddalgylch Ysgol Gynradd Meidrim tra bod y 9 disgybl arall yn dod o'r tu allan i ddalgylch Ysgol Gynradd Meidrim.  Yn ogystal, roedd 20 o ddisgyblion o ddalgylch Ysgol Gynradd Meidrim yn mynychu ysgolion eraill.

Capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2024-2025 oedd 54 o leoedd.  Nid yw capasiti'r ysgol ar gyfer blwyddyn academaidd 2025-2026 wedi newid ers y flwyddyn flaenorol ac mae'n parhau i fod yn 54 o leoedd.

Mae'r ysgol yn wynebu sawl her y mae angen mynd i'r afael â nhw er mwyn sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd ei ddarpariaeth ysgolion cynradd, gan gynnwys:

**Nifer isel o ddisgyblion sy'n gostwng**

Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf rhwng 30 o ddisgyblion yn CYBLD 2021 a 31 o ddisgyblion yn CYBLD 2025.

| Blwyddyn CYBLD | Meithrin Amser Llawn | Derbyn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 2025 | 2 | 2 | 3 | 10 | 4 | 6 | 3 | 1 | 31 |
| 2024 | 2 | 3 | 10 | 4 | 6 | 3 | 1 | 2 | 31 |
| 2023 | 1 | 8 | 4 | 6 | 4 | 1 | 3 | 4 | 31 |
| 2022 | 2 | 5 | 6 | 5 | 2 | 4 | 4 | 4 | 32 |
| 2021 | 6 | 5 | 4 | 2 | 4 | 3 | 4 | 2 | 30 |

**Data Dalgylchoedd**

Mae data CYBLD 2025 yn dangos bod mwyafrif y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dod o'r dalgylch, gyda dim ond nifer fach o ddisgyblion sy'n mynychu'r ysgol yn dod o'r tu allan i'r dalgylch. Mae nifer y disgyblion sy'n byw yn y dalgylch ond sy'n mynychu ysgolion eraill bron yr un fath â nifer y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol.

| Cyfanswm nifer y disgyblion | Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon | Disgyblion sy'n byw y tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol hon | Disgyblion sy'n byw yn y dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill |
|---|---|---|---|
| 31 | 22 | 9 | 20* |
| *Bancyfelin, Brynsaron, Griffith Jones, Hafodwenog, Tre Ioan, Model | | | |

**Nifer uchel o leoedd gwag**

Rhwng 2021 a 2025 mae lefel y lleoedd gwag yn yr ysgol wedi bod rhwng 43% a 44%.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) (Adran 1.5) yn nodi:

*"Os oes mwy na 10% o leoedd gwag mewn ardal yn gyffredinol, dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth ac ystyried os y dylent wneud cynigion ar gyfer cael gwared arnynt, os y bydd yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd darpariaeth. Diffinnir lefel sylweddol o ddarpariaeth dros ben fel 25% neu fwy o gapasiti ac o leiaf 30 o leoedd gwag."*

Ar hyn o bryd mae 23 o leoedd gwag yn yr ysgol sy'n cyfateb i 43% o'r capasiti lleoedd gwag.

| | CYBLD Hanesyddol | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2021** | **2022** | **2023** | **2024** | **2025** |
| Cyfanswm nifer y lleoedd | 54 | 54 | 54 | 54 | 54 |
| Cyfanswm Cyfrif Pennau | 30 | 32 | 31 | 31 | 31 |
| Lleoedd gwag | 24 | 22 | 23 | 23 | 23 |
| % y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf) | 44% | 41% | 43% | 43% | 43% |

**Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion a Chapasiti Lleoedd Gwag a Ragwelir**

Mae'r ffigurau o ran amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn rhagweld tuedd o welliant hyd at 2030 ond bydd lleoedd gwag yn yr ysgol o hyd, sef oddeutu 26% - 33% rhwng 2026 a 2030.

| Blwyddyn | Ionawr 2026 | Ionawr 2027 | Ionawr 2028 | Ionawr 2029 | Ionawr 2030 |
|---|---|---|---|---|---|
| Amcanestyniadau o nifer y disgyblion gan gynnwys disgyblion meithrin | 36 | 39 | 39 | 40 | 36 |
| Cyfanswm nifer y lleoedd | 54 | 54 | 54 | 54 | 54 |
| Lleoedd gwag | 18 | 15 | 15 | 14 | 18 |
| % y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf) | 33% | 28% | 28% | 26% | 33% |

*Mae'r fethodoleg o ran amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn defnyddio cyfartaledd treigl o ddisgyblion 5, 6, 7 ac 8 oed ar gyfer ysgolion cynradd. Felly, mae unrhyw newidiadau sydyn ym mhoblogaeth y disgyblion yn cymryd tua phedair blynedd cyn i'r anghysondebau hyn gael eu normaleiddio a bydd dewis rhieni yn penderfynu sut mae'r niferoedd gwirioneddol yn newid flwyddyn ar ôl blwyddyn. Bydd amrywiadau rhifiadol bach, boed yn gadarnhaol neu'n negyddol yn cael mwy o effaith gyfrannol mewn ysgolion gyda niferoedd isel o ddisgyblion.

### Materion ynghylch Cyllideb yr Ysgol

Mae nifer isel y disgyblion yn yr ysgol wedi cyfrannu at bwysau cyllidebol sylweddol sydd wedi arwain at ddiffyg ariannol yn yr ysgol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae pob ysgol yn cael ei chyllido'n unol â fformiwla gyllido'r Cyngor Sir. O dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010, mae'n rhaid i Gyllideb Ysgolion Unigol gael ei dyrannu ymhlith ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod ar ffurf rhannu cyllideb, gan ddefnyddio fformiwla gyllido a bennir yn lleol. Mae'n ofynnol yn ôl y rheoliadau fod 70% o'r cyllid yn cael ei ddosbarthu ar sail niferoedd disgyblion.

Mae'r tablau isod yn dangos sefyllfa ariannol hanesyddol a phresennol yr ysgol a'r hyn a ragwelir.

| Balans diwedd blwyddyn | (gwarged / diffyg) £ |
|---|---|
| 2020/21 | £6,033 |
| 2021/22 | £10,522 |
| 2022/23 | £3,223 |
| 2023/24 | £1,545 |
| 2024/25 | £27,704 |

**2025/26**

| | |
|---|---|
| Swm cyllid yr ysgol | £197,257 |
| Nifer y disgyblion (cyllid yn seiliedig ar CYBLD Ionawr 2024) | 31 |
| Cyllid fesul disgybl | £6,363 |
| Cyllid prif ffrwd cyfartalog (ysgol gynradd) fesul disgybl | £5,479 |
| **Gwarged** / diffyg a ragwelir Mawrth 2025 | £67,454 |

Mae gan yr ysgol ddiffyg ariannol, heb gymeradwyaeth diffyg ar waith. Mae'r holl ddangosyddion yn awgrymu y bydd y diffyg yn cynyddu ac nad oes posibilrwydd o wrthdroi'r duedd o ran diffyg.

## Cyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl

Yn seiliedig ar Ddatganiad dros dro Cyllideb Addysg Adran 52 y Cyngor ar gyfer 2025/26, cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn ystod 2025/26 yw £6,363. Mae hyn £880 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin o £5,479 ar gyfer 2025/26.

Oherwydd nifer isel y disgyblion, yn ystod 2025/26 bydd yr ysgol yn derbyn £46,000 o dâl atodol o ran nifer y disgyblion.

Mae'r tâl atodol o ran nifer y disgyblion yn seiliedig ar fformiwla sy'n nodi gwahanol feintiau ysgolion lle mae nifer y disgyblion yn eu rhoi dan anfantais o gymharu ag ysgolion eraill. Mae'r tâl atodol yn darparu canran deg o gyllid ar draws y costau allweddol a nodwyd.

## Ansawdd a Safonau mewn Addysg

Cafodd Ysgol Meidrim ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2024. Roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. (*wedi'i dynnu o Fesurau Arbennig ers hynny). Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Diffinio a datblygu cyfrifoldebau arweinwyr er mwyn gweithredu'n fwy strategol gan sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella

A3 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fwriadus ar draws y meysydd dysgu dros amser, gan osod her briodol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Sicrhau bod adborth athrawon a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb iddo yn cael ei weithredu'n fwriadus i'w cefnogi i wella eu gwaith a chodi safonau

## Heriau gyda darpariaeth addysgol oherwydd nifer o grwpiau blwyddyn yn yr un dosbarth

Mae niferoedd isel y disgyblion yn yr ysgol yn effeithio ar drefniadaeth dosbarthiadau. Ar hyn o bryd mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth oedran cymysg; mae disgyblion Meithrin i Flwyddyn 2 yn cael eu haddysgu mewn un dosbarth ac mae disgyblion Blwyddyn 3 - Blwyddyn 6 yn cael eu haddysgu mewn dosbarth arall.

Mae hyn yn gwneud cyflwyno'r cwricwlwm a sicrhau bod disgyblion yn cael eu herio'n sylweddol yn fwy cymhleth, yn enwedig pan fo ystafelloedd dosbarth yn cynnwys sawl grŵp blwyddyn. Mae gwahaniaethu cyfarwyddyd i ddiwallu anghenion amrywiol grŵp mor amrywiol yn golygu bod angen cynllunio'n ofalus ac mae'n creu set unigryw o heriau i athrawon.

Mae'r arolygiad diweddar gan Estyn yn nodi, at ei gilydd, bod athrawon yn darparu profiadau addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio’n ddigon bwriadus i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn adeiladol dros amser. O ganlyniad, mae bylchau amlwg yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Yn ogystal, mae hyn yn golygu nad yw athrawon yn datblygu’r ystod lawn o fedrau’r disgyblion nac yn eu herio’n bwrpasol ar draws yr ystod gallu.

Mae Egwyddorion Addysg Gynradd Sir Gaerfyrddin sydd wedi'u cynnwys yn Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 18 Tachwedd 2024 yn nodi bod yr Awdurdod Lleol yn anelu at gael dim mwy na 2 grŵp blwyddyn fesul dosbarth addysgu.

**Diffyg Arweinyddiaeth Sefydlog**

Dyhead yr Awdurdod Lleol ar gyfer arweinyddiaeth ysgol yw cael arweinyddiaeth gynaliadwy gydag arweinwyr sy'n meddu ar gymwysterau addas sy'n rhydd i arwain a rheoli'r ysgol, lle na fydd gan yr un pennaeth ymrwymiad addysgu parhaol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Ysgol Gynradd Meidrim arweinyddiaeth barhaol, ac mae pennaeth dros dro yn cyflawni'r rôl hon yn ogystal â bod â chyfrifoldebau addysgu am 3.5 diwrnod yr wythnos. Gall y trefniant hwn greu heriau wrth ddarparu cyfeiriad strategol cyson a ffocws rheoli pwrpasol, gan fod dyletswyddau arwain yn cael eu cydbwyso ochr yn ochr ag addysgu yn yr ystafell ddosbarth. Gall diffyg pennaeth amser llawn effeithio ar allu'r ysgol i yrru cynlluniau datblygu hirdymor, cefnogi staff yn effeithiol, ac ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg, gan effeithio ar amgylchedd cyffredinol yr ysgol a phrofiad disgyblion.

**Addasrwydd Adeiladau'r Ysgol**

Addasrwydd adeiladau'r ysgol yw priodoldeb adeiladau a safle'r ysgol i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r Cwricwlwm newydd i Gymru yn effeithiol. Y sgôr addasrwydd bresennol yw Gradd C sy'n cael ei diffinio fel "Gwael, mae dulliau addysgu yn rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol”.

### 3.3 Cryfderau a gwendidau o ran cynnal y status quo

Mae'r tabl canlynol yn cynnwys asesiad o gryfderau a gwendidau cynnal y status quo, gan gynnwys unrhyw fygythiadau a chyfleoedd posibl sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o sut y gall yr opsiwn hwn effeithio ar ansawdd a safonau addysg yr ysgol, effeithio ar y gymuned leol ac effeithio ar drefniadau teithio.

| Cryfderau | Gwendidau |
|---|---|
| Mae disgyblion a staff yn gallu parhau fel arfer heb darfu ar waith na dysgu. | Mae disgyblion yn parhau i fynychu adeilad ysgol sydd â sgôr addasrwydd wael. |
| Mae'r ysgol yn aros yn yr ardal heb unrhyw effaith ar y gymuned. | Bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau i fod yn broblem. |

| | |
|---|---|
| Dim newidiadau i drefniadau cludiant a dim costau ychwanegol. | Ni fydd pwysau ar y gyllideb yn cael sylw gan y bydd rhwymedigaethau a materion sy'n effeithio ar y gyllideb yn parhau i achosi problemau. |
| Bydd effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau teithio cyfredol yn aros yr un fath. | Mae staff addysgu yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a chyflwyno gwersi i ddwy ystafell ddosbarth sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau a galluoedd cymysg. |
| Mae disgyblion yn aros mewn ysgol Gymraeg sydd â darpariaeth cyfrwng Cymraeg lawn. | Mae amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn dangos sefyllfa ychydig yn well yn ystod y 5 mlynedd nesaf, ond rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau i fod yn isel. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Rhoi cynllun gwella wedi'i dargedu ar waith i fynd i'r afael â diffygion o ran yr arolygiad ac adfer unrhyw hyder a gollwyd yn yr ysgol. | Gallai canlyniadau arolygu cyfredol Estyn niweidio enw da'r ysgol ac atal ceisiadau am leoedd yn yr ysgol yn y dyfodol. |
| Y potensial i gynnwys y gymuned mewn codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau cyllidebau diffyg. | Mae heriau cyllidebol yn rhwystro cynllun gwella'r ysgol. |

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**

Mae disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim yn cael eu haddysgu ar draws dwy ystafell ddosbarth gyda phedwar grŵp blwyddyn yr un, ac yn cael mynediad at adnoddau sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae cyflawni ehangder llawn y cwricwlwm gyda dim ond dau aelod o staff addysgu yn heriol o'i gymharu ag ysgolion mwy. Mae adroddiad arolygiad Estyn yn nodi bod llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd cyfyngedig, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, gyda bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae staff addysgu yn darparu profiadau llythrennedd a rhifedd addas ond nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i herio pob disgybl yn ddigonol neu ddatblygu eu setiau sgiliau llawn.

Mae'r ysgol yn meithrin amgylchedd cyfeillgar a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn rhannu perthnasoedd cadarnhaol. Mae maint grwpiau blwyddyn bach yn cyfyngu ar gyfleoedd cymdeithasol, er bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i drafod pryderon. Mae addysgu yn cynnwys adborth llafar, ond mae gan ddisgyblion gyfleoedd cyfyngedig i wella gwaith yn seiliedig ar yr adborth hwn. Yn ogystal, nid oes gan ddisgyblion iau ddigon o gyfleoedd i ddysgu seiliedig ar chwarae, sy'n effeithio ar ymgysylltu a datblygu sgiliau. Mae cymorth i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn briodol, gyda phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol a defnyddio adnoddau fel 'Llecyn Lles' i gefnogi lles a chynhwysiant.

Trefniadau arweinyddiaeth dros dro sydd i'w cael yn Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd, gyda phennaeth dros dro yn rheoli'r rhan fwyaf o'r rôl. Er bod

| |
|---|
| gweledigaeth yr ysgol yn blaenoriaethu cydraddoldeb a diogelwch, nid yw hunanwerthuso a chynllunio gwella yn drylwyr nac yn gwbl gynhwysol o staff a llywodraethwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â meysydd gwella allweddol. Er gwaethaf hyn, mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio'n negyddol ar grwpiau agored i niwed fel y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd neu ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, o ystyried y cymorth addas sydd ar waith ar hyn o bryd. |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. |

### 3.4 Pam y bernir bod angen newid

O ystyried y ffactorau uchod, mae angen newid i sicrhau darpariaeth addysg o ansawdd uchel i blant lleol. Mae cynnal yr ysgol ar ei ffurf bresennol yn cael ei ystyried yn anghynaladwy ac nid yw'n darparu'r safonau addysg sydd eu hangen. Byddai'r newidiadau arfaethedig yn golygu bod modd ailddyrannu adnoddau i ysgolion sydd â'r gallu i sicrhau deilliannau addysgol gwell i ddisgyblion. Byddai hefyd yn mynd i'r afael â materion o ran lleoedd gwag ac yn cefnogi defnydd mwy effeithlon o arian cyhoeddus.

## 4. Y Cynnig – Cau Ysgol Gynradd Meidrim

Mae'r Awdurdod Lleol yn ymgynghori ar y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn mynd rhagddo, yr opsiwn a ffefrir yw i'r disgyblion drosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o 1 Ionawr 2027.

Mae Ysgol Griffith Jones yn Ysgol Gynradd Gymunedol 3-11 categori iaith 3,2 (Dwy Ffrwd) yn Heol yr Orsaf, Sanclêr, SA33 4BT. Er bod y cynnig yn cynnwys trosglwyddo disgyblion i ysgol categori iaith 3,2 (Dwy Ffrwd), bydd dewis rhieni yn caniatáu i'r disgyblion fynychu'r ffrwd Gymraeg yn yr ysgol amgen.

Mae Ysgol Hafodwenog yn Ysgol Gynradd Gymunedol 4-11 categori iaith 3 (Cyfrwng Cymraeg) yn Nhre-lech, Caerfyrddin, SA33 6RU sy'n golygu y byddai disgyblion yn cael eu trosglwyddo i ysgol yn yr un categori iaith, sef 3 (Cyfrwng Cymraeg).

Efallai y bydd rhai rhieni/gofalwyr disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim yn dymuno dewis ysgol amgen yn lle Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. Mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos fel Ysgol Bancyfelin, Ysgol Bro Brynach ac Ysgol Cynwyl Elfed. Nid yw mynegi dewis ar gyfer ysgol yn rhoi sicrwydd y caiff plentyn le yn yr ysgol honno. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Bydd penderfyniadau terfynol ar leoliadau ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis rhieni, yn amodol ar y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol amgen, ond pan fo'r dewis hwn ar gyfer ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch na'r ysgol addas agosaf at gyfeiriad cartref y plentyn, bydd unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r dewis hwnnw megis mynediad at wasanaethau, trefniadau cymorth, neu gludiant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y rhiant neu'r gwarcheidwad.

### 4.1 Y Rhesymau dros y Cynnig

Mae'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. Dyma'r rhesymau dros y cynnig:

**Manteision Addysgol i'r Disgyblion**

- Os bydd disgyblion yn dewis trosglwyddo i ysgol arall, gallant symud naill ai i ysgol fwy sydd â'r gallu i ddarparu'r cwricwlwm newydd, neu i ysgol wledig lai sydd ag ethos tebyg i'w lleoliad presennol.
- Byddai disgyblion yn cael mynediad at amrywiaeth ehangach o gyfleoedd addysgol ac allgyrsiol naill ai yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.
- Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau sy'n briodol i'w hoedran ochr yn ochr â phlant o oedran tebyg, a byddai'r rhai sy'n trosglwyddo i Ysgol Hafodwenog yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau tebyg o ran maint i'r rhai yn eu hysgol bresennol.
- Byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones yn mynychu ysgol sydd â chyfleusterau ac adeiladau/ystafelloedd mwy helaeth, a byddai'r rhai sy'n trosglwyddo i Ysgol Hafodwenog yn symud i ysgol sydd â strwythur ac ethos gwledig tebyg i'r un y maent yn ei mynychu ar hyn o bryd.

**Manteision Strategol a Gweithredol**

- Mae'r cynnig yn helpu i fynd i'r afael â'r broblem yn ymwneud â nifer isel y disgyblion sy'n gostwng yn Ysgol Gynradd Meidrim.
- Byddai'r cynnig yn helpu i leihau capasiti lleoedd gwag cyffredinol yr Awdurdod Lleol mewn ysgolion cynradd.
- Byddai cau'r ysgol yn golygu na fyddai angen i'r Awdurdod Lleol gynnal a chadw adeilad Ysgol Gynradd Meidrim.

**Manteision Ariannol**

- Byddai'n rhoi sylw i'r problemau o ran y diffyg yng nghyllideb Ysgol Gynradd Meidrim a'i atal rhag gwaethygu.
- Byddai'r cynnig, pe bai'n cael ei weithredu, yn arwain at arbedion refeniw parhaus i'r Awdurdod Lleol.
- Mae'r cynnig yn creu cyfle posibl i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r safle.

## 4.2 Amserlen a ragwelir ar gyfer gweithdrefnau statudol

Pe bai Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, dyma'r amserlen a ragwelir:

| Disgrifiad | Hyd |
|---|---|
| **Ymgynghori**<br>Dosbarthu'r Ddogfen Ymgynghori hon i bartïon penodol a phartïon eraill sydd â diddordeb. | **16 Ionawr 2026 – 2 Mawrth 2026** |
| **Adroddiad Ymgynghori**<br>Bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet er mwyn penderfynu a ddylid mynd ati i gyhoeddi hysbysiad statudol ai peidio.<br>NEU fel arall, daw'r cynnig i ben. | **Mehefin 2026**<br>Bydd yr Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol |
| Pe bai'r Cabinet yn penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig: | |
| **Hysbysiad Statudol**<br>Os gwneir y penderfyniad i fwrw ymlaen yna cyhoeddir hysbysiad statudol. | **Mehefin - Gorffennaf 2026**<br>O leiaf 28 diwrnod (gan gynnwys o leiaf 15 diwrnod ysgol a heb gynnwys y diwrnod cyhoeddi) |
| **Adroddiad Gwrthwynebu**<br>Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. | **Hydref 2026**<br>Cyn pen 7 diwrnod gan ddechrau ar ddyddiad y penderfyniad. |
| **Penderfynu**<br>Y Cyngor Sir fydd yn penderfynu ar y cynnig. | **Hydref 2026**<br>Bydd penderfyniad yn cael ei wneud cyn pen 16 wythnos ar ôl diwedd y cyfnod gwrthwynebu |
| Os bydd y Cyngor Sir yn cymeradwyo'r cynnig, bydd Ysgol Gynradd Meidrim yn cau. | **31 Rhagfyr 2026** |

### 4.3 Manteision ac Anfanteision y cynnig

Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, dyma fanteision ac anfanteision posibl y cynnig o'i gymharu â'r status quo:

| Manteision | Anfanteision |
|---|---|
| Byddai'n mynd i'r afael â'r heriau presennol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Meidrim sydd wedi'u nodi'n flaenorol. | Newid sylweddol i'r disgyblion pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu. |
| Byddai'n lleihau nifer y lleoedd gwag yn yr ardal. | Newid sylweddol i staff a gyflogir yn Ysgol Gynradd Meidrim a'r posibilrwydd o ddileu swyddi. |
| Byddai o bosibl yn cynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol(ion) sy'n derbyn. | Amser teithio hwy i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd fel yr ysgol agosaf. |
| Byddai'n cynyddu mynediad at gyfleoedd dysgu a chyfleoedd cymdeithasol i ddisgyblion pe byddent yn dewis mynychu'r ysgol(ion) sy'n derbyn, gyda charfan fwy o ddisgyblion a chyfleusterau gwell. | Costau cludiant i'r Awdurdod Lleol pe bai disgyblion sy'n gymwys i gael cludiant yn dewis trosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn. |
| Bydd disgyblion yn symud i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog sydd ill dwy â gwell sgôr addasrwydd adeiladau'r ysgol o Radd B sy'n cael ei diffinio fel adeilad a safle sy'n "Foddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nad yw'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd". | Colli darpariaeth addysg ym mhentref Meidrim. |
| Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig greu arbedion refeniw blynyddol ac atal y diffyg yn y gyllideb rhag cynyddu ymhellach yn Ysgol Gynradd Meidrim. | Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a bod yr ysgol yn cau, gallai gael effaith ar wasanaethau lleol, yn enwedig y Cylch Ti a Fi sy'n defnyddio Ysgol Gynradd Meidrim bob bore dydd Iau ac a fyddai angen symud i safle arall o bosib. Byddai cau'r ysgol hefyd yn arwain at golli cysylltiadau â nifer o sefydliadau a grwpiau cymunedol. |
| Bydd disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg yn yr ysgol(ion) sy'n derbyn. | Byddai'n rhaid cynnal a chwblhau Proses Statudol ar gyfer y newidiadau arfaethedig. Gallai hyn greu ansicrwydd i staff a disgyblion ynghylch dyfodol yr ysgol wrth i'r broses Trefniadaeth Ysgolion fynd rhagddi dros gyfnod o amser. |
| Mae gwasanaethau cymorth gofal plant yn wahanol ym mhob ysgol sy'n derbyn. Mae Ysgol Griffith Jones yn cynnig lleoedd i blant 3–11 oed, ac mae Ysgol Hafodwenog yn cynnig Clwb Brecwast. | Bydd pellter teithio yn cynyddu ac yn cael effaith negyddol ar yr amgylchedd. |

### 4.4 Rheoli Risg

Mae'r risgiau disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r cynnig hwn, a'r ffactorau rheoli, wedi'u nodi yn y tabl canlynol:

| | Risg | Rheoli Risg |
|---|---|---|
| 1. | Ansicrwydd i staff, disgyblion a theuluoedd ynghylch dyfodol yr ysgol yn ystod y broses ymgynghori a gwneud penderfyniadau. | Sicrhau cyfathrebu rheolaidd a thryloyw â staff, disgyblion, rhieni, a rhanddeiliaid ynghylch datblygiadau a phenderfyniadau allweddol drwy gydol y broses. Darparu cyfleoedd ar gyfer adborth ac ymgysylltu. |
| 2. | Methu â chael cymeradwyaeth statudol i fwrw ymlaen â'r cynnig. | Cydymffurfio'n llwyr â'r gofynion a'r gweithdrefnau a nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), gan gynnwys ymgynghoriad cynhwysfawr ac asesiadau effaith trylwyr. |
| 3. | Tarfu ac effaith emosiynol newid amgylchedd ysgol, yn enwedig i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu'r rhai sydd ar adegau pontio pwysig. | Ystyried yr angen am gynlluniau pontio ar gyfer yr holl ddisgyblion yr effeithir arnynt. Mae Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog wedi'u nodi fel yr ysgolion sy'n derbyn. Sicrhau cydweithrediad agos rhwng staff a theuluoedd i hwyluso proses drosglwyddo gefnogol. Darparu cymorth bugeiliol neu arbenigol ychwanegol lle bo angen. |
| 4. | Cyfyngiadau capasiti yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog yn effeithio o bosibl ar faint dosbarthiadau, adnoddau, neu ansawdd yr addysg. | Asesu gofynion capasiti ac adnoddau yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog yn gynnar. Cynllunio ar gyfer mân addasiadau neu adnoddau ychwanegol yn ôl yr angen i gefnogi proses integreiddio effeithiol heb effeithio ar safonau. |
| 5. | Pellteroedd teithio hwy i rai disgyblion, gan godi pryderon am amser teithio, diogelwch a chost. | Adolygu ac addasu trefniadau cludiant i gydymffurfio â pholisïau cludiant ysgol yr awdurdod lleol. Darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion cymwys a sicrhau bod mesurau diogelwch teithio ar waith. |
| 6. | Ansicrwydd staff ynghylch cyflogaeth yn y dyfodol a'r risg o ddileu swyddi. | Cefnogi staff trwy ymgynghoriad ffurfiol yn unol â pholisïau Adnoddau Dynol. |
| 7. | Effaith negyddol bosibl ar gydlyniant cymunedol a hunaniaeth leol oherwydd y cynnig i gau'r ysgol. | Edrych ar gyfleoedd i gadw defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol lle bo hynny'n bosibl. |
| 8. | Risg o wasgaru disgyblion yn fwy eang gan arwain at golli rhwydweithiau cyfoedion a chymorth cymdeithasol. | Y cynnig yw symud y disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog er mwyn ceisio atal y disgyblion rhag cael eu gwasgaru. Annog grwpiau cymorth gan gyfoedion a chynnal sianeli cyfathrebu rhwng y rheiny a arferai fod yn gyd-ddisgyblion lle bo hynny'n bosibl. |

### 4.5 Asesiad o'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r cryfderau, y gwendidau, y cyfleoedd a'r bygythiadau sy'n gysylltiedig â'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog:

| **Cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion a fyddai'n cael eu trosglwyddo i ysgol sydd â chyfleusterau gwell a llai o broblemau gydag addasrwydd yr adeilad. | Tarfu a chyfnod ansefydlog i ddisgyblion a'u teuluoedd. |
| Byddai materion megis lefelau uchel o leoedd gwag a nifer isel o ddisgyblion yn cael eu datrys. | Cau'r ysgol a cholli darpariaeth addysg yn y gymuned. |
| Byddai materion o ran y gyllideb yn cael sylw. | Tarfu ar staff a'r posibilrwydd o ddileu swyddi. |
| Byddai disgyblion yn elwa ar fynychu ysgol fwy gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg. Mae hyn yn darparu'r cyfle a'r manteision sy'n gysylltiedig â chael eu haddysgu mewn dosbarthiadau o oedrannau tebyg. | Colli ased cymunedol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol. |
| Gwell cyfleoedd i ddisgyblion drwy weithgareddau allgyrsiol. | Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i'r disgyblion yr effeithir arnynt a fydd yn cynyddu costau cludiant. |
| Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno. | Gallai pellter teithio gynyddu a chael effaith negyddol ar yr amgylchedd. |
| Byddai disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim i gyd yn mynd i'r ysgol newydd gyda'i gilydd. Byddai hyn yn gwneud y broses o symud i'r ysgol newydd yn haws iddynt. | Bydd y disgyblion o Ysgol Gynradd Meidrim yn symud o ysgol categori iaith 3 (Cyfrwng Cymraeg) i ysgol categori iaith 3,2 (Dwy Ffrwd) os bydd rhieni'n penderfynu symud eu plant i Ysgol Griffith Jones. |
| Bydd disgyblion yn symud i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog sydd ill dwy â gwell sgôr addasrwydd adeiladau'r ysgol o Radd B sy'n cael ei diffinio fel adeilad sy'n "Foddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nad yw'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r | |

| | |
|---|---|
| cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai ffyrdd” | |
| Mae Ysgol Griffith Jones yn cynnig gwell cymorth gofal plant ac yn derbyn plant rhwng 3 ac 11 oed, tra bod Ysgol Meidrim ac Ysgol Hafodwenog yn derbyn plant rhwng 4 ac 11 oed. | |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Potensial i wella hyfywedd addysg ar draws y sir. | Gwrthwynebiad gan rieni i'r cynnig. |
| Potensial i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r adeilad ysgol presennol. | Gwrthwynebiad gan y gymuned i'r cynigion. |

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**

Byddai'r disgyblion sydd ar hyn o bryd yn mynychu Ysgol Gynradd Meidrim yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones, lle byddent yn cael eu haddysgu mewn dosbarthiadau grwpiau blwyddyn o fewn carfan fwy. Byddai hyn yn debygol o wella mynediad at adnoddau a darparu Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol, gan fod mwy o staff ac arbenigedd gan ysgol fwy. Mae'r Awdurdod Lleol yn credu bod yr addysg yn Ysgol Griffith Jones o leiaf o ansawdd cystal, os nad gwell, nag yn Ysgol Gynradd Meidrim, felly ni ddisgwylir unrhyw effaith negyddol ar safonau na chynnydd.

Er y gallai fod rhai heriau tymor byr i ddisgyblion sy'n symud ysgolion, byddai'r niferoedd mwy o ddisgyblion yn Ysgol Griffith Jones yn cynnig gwell cyfleoedd cymdeithasol a chyfeillgarwch, gan gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant yn y tymor hir. Mae amgylchedd cynhwysol yr ysgol, ymddygiad da, a gofal bugeiliol cryf yn gryfderau nodedig. Mae'r addysgu wedi'i gynllunio'n dda ac yn ddifyr, gyda chwricwlwm eang a gwell cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol fel chwaraeon a chôr, gan gefnogi cynnydd cadarn i'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig.

Mae arweinyddiaeth yn Ysgol Griffith Jones yn barhaol ac yn gadarn, gan ganolbwyntio ar lesiant disgyblion, datblygiad y Gymraeg, a chodi safonau. Mewn cyferbyniad, mae Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd yn gweithredu heb arweinyddiaeth barhaol. Byddai'r cynnig hefyd yn cynyddu nifer y disgyblion yn Ysgol Griffith Jones, gan helpu i wneud gwell defnydd o adnoddau a chefnogi darpariaeth gynaliadwy. Disgwylir i ddisgyblion agored i niwed, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig, gael cefnogaeth dda trwy staff ac adnoddau ychwanegol, gyda chynlluniau pontio a chymorth asiantaeth allanol ar waith.

Disgwylir i'r cynnig i drosglwyddo disgyblion o Ysgol Meidrim i Ysgol Hafodwenog gael effaith gadarnhaol gyffredinol ar ansawdd yr addysgu, cynnydd disgyblion ac effeithlonrwydd yr ysgol. Mae Ysgol Hafodwenog yn debyg o ran strwythur a maint i Ysgol Meidrim ond mae'n elwa ar ei ffederasiwn llac ag Ysgol Penboyr, sy'n darparu cyfleoedd rhannu arweinyddiaeth a chydweithio. Byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth oedran cymysg, ond byddai maint dosbarthiadau yn dyblu, gan alluogi rhyngweithio cymdeithasol ehangach a defnydd mwy effeithiol o adnoddau. Er bod rheoli ehangder llawn y cwricwlwm â dau athro yn parhau i fod yn heriol,

mae'r awdurdod lleol yn credu y gall Ysgol Hafodwenog ddarparu addysg sydd o leiaf gystal neu'n well na'r hyn a gynigir ar hyn o bryd yn Ysgol Meidrim.

Yn ôl adroddiad Estyn ar Ysgol Hafodwenog, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn, a gefnogir gan addysgu cryf ac amgylcheddau dysgu diogel. Mae'r ysgol yn cael ei disgrifio fel un hapus, gynhwysol a meithringar, lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn mwynhau dysgu. Mae disgyblion hŷn yn dangos gofal a chyfrifoldeb tuag at blant iau, gan helpu i gynnal cymuned ysgol barchus a chefnogol. Er y gallai disgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Meidrim wynebu rhywfaint o darfu a phryder i ddechrau, yn y tymor hir maent yn debygol o elwa ar well cyfleoedd cymdeithasol, grŵp cyfoedion mwy, ac ethos croesawgar sy'n hyrwyddo llesiant a hyder.

Byddai hefyd yn fanteisiol o ran y cwricwlwm, gan fod gan Ysgol Hafodwenog ymagwedd fwy effeithiol a chydlynol at addysgu a dysgu o'i chymharu ag Ysgol Meidrim. Mae adroddiad Estyn yn nodi bod yr athrawon yn Ysgol Meidrim wedi cael trafferth cynllunio'n ddigon pwrpasol i sicrhau cynnydd cyson ar draws galluoedd, gan arwain at fylchau yng ngwybodaeth a sgiliau disgyblion. Mewn cyferbyniad, mae arweinyddiaeth Ysgol Hafodwenog wedi canolbwyntio ar ddysgu proffesiynol a chydweithio, gan sicrhau bod staff yn rhannu arferion gorau ac yn cynllunio gweithgareddau ysgogol, heriol. Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd rheolaidd i athrawon ledled y ffederasiwn weithio gyda'i gilydd, gan gryfhau cysondeb ac ansawdd addysgu ar draws pynciau.

O ran arweinyddiaeth a rheolaeth, nid oes gan Ysgol Meidrim arweinyddiaeth barhaol ar hyn o bryd ac mae'n dibynnu ar bennaeth dros dro sydd hefyd yn addysgu'n rhan-amser. Mewn cyferbyniad, mae gan Ysgol Hafodwenog bennaeth nad yw'n addysgu sydd wedi datblygu tîm arwain cryf, sy'n seiliedig ar werthoedd. Mae staff yn cael rolau clir a datblygiad proffesiynol parhaus, ac maent yn cymryd rhan mewn prosesau hunanwerthuso. Mae'r strwythur hwn yn cefnogi gwaith cadarn o ran cynllunio gwella ac yn sicrhau bod blaenoriaethau addysgol cenedlaethol a lleol yn cael eu hystyried yn effeithiol. Felly, byddai'r cynnig yn gwella sefydlogrwydd a chapasiti arwain, gan ddarparu model mwy strategol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Disgwylir i'r cynnig hefyd sicrhau manteision gweithredol ac o ran adnoddau. Byddai cynnydd yn nifer y disgyblion yn galluogi Ysgol Hafodwenog i weithredu'n fwy effeithlon, gan wneud gwell defnydd o adnoddau a chefnogi dau ddosbarth llawn. Mae staff Ysgol Hafodwenog eisoes yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth effeithiol sy'n codi safonau ac yn magu hyder disgyblion. Mae gan ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol dargedau penodol a mesuradwy ac maent yn cael budd o gydweithio ag asiantaethau allanol. Byddai'r broses bontio yn cael ei chefnogi gan gyfathrebu a chynllunio cryf, gan sicrhau parhad dysgu a gofal i bob disgybl, yn enwedig y rhai sy'n agored i niwed.

Ar y cyfan, ni ragwelir y bydd y cynnig i symud disgyblion yn cael unrhyw effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys disgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Yn hytrach, byddai'n cryfhau'r ddarpariaeth trwy arbenigedd a rennir, gwell arweinyddiaeth, a gwell mynediad at wasanaethau cymorth. Gyda'i hethos

| |
|---|
| gofalgar, staff medrus, a systemau sefydledig ar gyfer twf proffesiynol a chymorth i ddisgyblion, mae Ysgol Hafodwenog mewn sefyllfa dda i ddarparu profiad addysgol o ansawdd uchel a phroses bontio hwylus i ddisgyblion o Ysgol Meidrim. |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned**<br>Os bydd y cynnig i gau'r ysgol yn mynd rhagddo, gallai gael effaith sylweddol ar y gymuned leol oherwydd cysylltiadau cryf a sefydledig yr ysgol â sefydliadau lleol amrywiol.<br><br>Byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ased cymunedol sydd ar hyn o bryd yn hwyluso gweithgareddau fel sesiynau canu i breswylwyr oedrannus mewn cartrefi gofal a digwyddiadau cymunedol. Yn ogystal, byddai'r gymuned yn colli cyfranogiad y ficer lleol, sy'n arwain addoli ar y cyd ac ymweliadau dosbarth yn rheolaidd, yn ogystal â chyfleoedd i ddisgyblion ymweld â'r eglwys leol i ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a dyfnhau eu dealltwriaeth o draddodiadau crefyddol a chymunedol. Ar ben hynny, ni fyddai disgyblion bellach yn gallu trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer parc y pentref, menter sydd wedi'i chynllunio a'i harwain gan y disgyblion ar hyn o bryd. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br>Mae'r cynigion yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio disgyblion. Bydd disgyblion yn wynebu teithiau hirach i'r ysgol. Darperir cludiant am ddim yn unol â pholisi trafnidiaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Gallai'r cynnig effeithio ar rieni sy'n gorfod teithio ymhellach i fynd i ddigwyddiadau yn yr ysgol. |
| **Y rheswm dros ffafrio'r opsiwn hwn**<br><br>• Byddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol.<br>• Byddai'n mynd i'r afael â lefel uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.<br>• Byddai'n mynd i'r afael â'r materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.<br>• Byddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Byddai'n mynd i'r afael ag arweinyddiaeth barhaol yn yr ysgol.<br>• Byddai'n mynd i'r afael â'r materion mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ddarparu'r cwricwlwm.<br>• Byddai'n sicrhau bod y garfan bresennol o ddisgyblion yn aros gyda'i gilydd a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol wrth drosglwyddo i'r ysgol sy'n derbyn. |

Mae'r tabl isod yn crynhoi sut y bydd yr heriau allweddol sy'n wynebu Ysgol Gynradd Meidrim yn cael sylw pe bai'r opsiwn a ffefrir yn mynd rhagddo:

| Yr Her Allweddol | Sut fyddai'r opsiwn a ffefrir yn mynd i'r afael â'r her allweddol |
|---|---|
| **Nifer isel o ddisgyblion**<br>Mae ffigyrau CYBLD yn dangos bod 31 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol ar hyn o bryd. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo'r disgyblion sydd ar ôl i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. |

| | |
|---|---|
| **Data Dalgylchoedd**<br>Mae nifer fawr o ddisgyblion sy'n dod o'r dalgylch yn mynychu ysgolion eraill yn yr ardal. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, gan gynyddu nifer y disgyblion yn yr ysgol pe bai pob un neu rai yn dewis trosglwyddo. |
| **Nifer uchel o leoedd gwag**<br>Ar hyn o bryd mae 23 o leoedd gwag yn yr ysgol sy'n cyfateb i 43% o'r capasiti lleoedd gwag. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo'r disgyblion sydd ar ôl i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. |
| **Materion ynghylch Cyllideb yr Ysgol**<br>Ar hyn o bryd, o ran y gyllideb, mae gan yr ysgol ddiffyg o £27,704 ar gyfer 2024/25 a diffyg a ragwelir ar gyfer 2025/26 o £67,454. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai cau'r ysgol yn atal y diffyg yn y gyllideb rhag gwaethygu ymhellach. Mae Ysgol Griffith Jones mewn sefyllfa ariannol llawer mwy cynaliadwy gyda gwarged yn y gyllideb a ragwelir o £46,570 ar ddiwedd mis Mawrth 2026. Rhagwelir y bydd gan Ysgol Hafodwenog ddiffyg yn y gyllideb o £37,337 ar gyfer 2025/26. Byddai trosglwyddo'r disgyblion o Ysgol Meidrim i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn helpu o ran y diffyg yn eu cyllideb. |
| **Cyfran uchel o'r gyllideb fesul disgybl**<br>Cyfran cyllideb yr ysgol fesul disgybl yn ystod 2024/25 oedd £6,292. Mae hyn £1,258 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin. Ar gyfer 2025/26, cyfran o gyllideb yr ysgol fesul disgybl yw £6,363 sydd £880 yn uwch na chyfartaledd ysgolion cynradd Cyngor Sir Caerfyrddin. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones sydd â chost is fesul disgybl, sef £5,286, sy'n is na'r cyfartaledd yn y sir ar gyfer ysgol gynradd neu Ysgol Hafodwenog sydd â chost is fesul disgybl, sef £5,464, sy'n is na'r cyfartaledd yn y sir ar gyfer ysgol gynradd. |
| **Ansawdd a Safonau mewn Addysg**<br>Cafodd Ysgol Gynradd Meidrim ei harolygu gan Estyn ym mis Ebrill 2024 ac roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol. (*wedi'i dynnu o Fesurau Arbennig ers hynny). | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog lle nad oes unrhyw faterion mewn perthynas ag ansawdd a safonau mewn addysg gan fod Ysgol Hafodwenog wedi cael ei thynnu o Adolygiad Estyn yn 2021. |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth**<br>Roedd arolygiad diweddar Estyn wedi tynnu sylw at broblemau gyda rhai meysydd arweinyddiaeth a rheolaeth penodol yn yr ysgol. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog lle nad oes unrhyw faterion mewn perthynas ag arweinyddiaeth a rheolaeth. |

| | |
|---|---|
| **Amcanestyniadau isel o nifer y disgyblion yn y dyfodol**<br>Mae'r ffigurau o ran amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn rhagweld tuedd o welliant hyd at 2030, ond bydd nifer y lleoedd gwag yn parhau i fod yn uchel, a rhagwelir y bydd rhwng 14-18 o leoedd gwag rhwng 2026-2030. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn drwy drosglwyddo disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog a gwella amcanestyniadau disgyblion yn yr ysgol honno pe bai pob un neu rai yn dewis trosglwyddo. |
| **Heriau o ran y ddarpariaeth addysgol oherwydd nifer isel y disgyblion**<br>Oherwydd nifer isel y ddisgyblion yn yr ysgol, mae staff addysgu yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a chyflwyno gwersi i ddwy ystafell ddosbarth sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau a galluoedd cymysg, ar draws yr ysgol gyfan. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones sydd â charfan fwy o ddisgyblion a mwy o amrywiaeth mewn dosbarthiadau grwpiau blwyddyn lle mae cynllunio a darparu'r cwricwlwm yn llawer llai heriol i athrawon ac mae disgyblion yn gallu cymysgu, rhyngweithio a chael eu herio o fewn eu grŵp oedran eu hunain.<br><br>Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Hafodwenog sy'n ysgol debyg, o ran strwythur a nifer y disgyblion. Mae'n debygol y byddai disgyblion yn parhau i gael eu haddysgu mewn dau ddosbarth o bedwar grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, byddai nifer y disgyblion ym mhob dosbarth yn dyblu. Byddai addysg y disgyblion o ansawdd cystal, man lleiaf, neu o ansawdd gwell na'r hyn a ddarperir ar hyn o bryd yn Ysgol Meidrim. |
| **Adeiladau Anaddas**<br>Gradd C yw'r addasrwydd ar hyn o bryd ac mae hyn yn cael ei diffinio fel "gwael" ac ystyrir ei fod yn cael effaith ataliol neu andwyol ar drefniadaeth gyffredinol yr ysgol. | Byddai'r cynnig yn mynd i'r afael â'r mater hwn gan y byddai disgyblion yn trosglwyddo i adeiladau sydd â gwell sgôr o ran addasrwydd sef Gradd B sy'n cael ei diffinio fel "Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nad yw'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r cwricwlwm yn effeithiol mewn rhai meysydd". |

Er bod Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog wedi'u nodi fel yr ysgolion sy'n derbyn a ffefrir yn y cynnig hwn, mae'n bwysig pwysleisio bod rhieni'n cadw'r hawl i fynegi eu dewis ar gyfer unrhyw ysgol y maent yn dymuno i'w plentyn ei mynychu, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos fel Ysgol Bancyfelin, Ysgol Bro Brynach ac Ysgol Cynwyl Elfed. Bwriad cynnwys ysgol a ffefrir yn y ddogfen hon yw cefnogi cynllunio mewn perthynas â chapasiti, cludiant a pharhad addysg, ond nid yw'n cyfyngu ar ddewis rhieni. Bydd penderfyniadau

terfynol ar leoliadau ysgol yn cael eu gwneud yn unol â pholisi derbyn yr awdurdod lleol a dewis rhieni, yn amodol ar y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol a ddewiswyd. Mae'r awdurdod lleol yn cydnabod ac yn parchu hawl rhieni i ddewis ysgol amgen, ond pan fo'r dewis hwn ar gyfer ysgol nad yw'n ysgol ddynodedig y dalgylch na'r ysgol addas agosaf at gyfeiriad cartref y plentyn, bydd unrhyw oblygiadau sy'n deillio o'r dewis hwnnw megis mynediad at wasanaethau, trefniadau cymorth, neu gludiant yn parhau i fod yn gyfrifoldeb y rhiant neu'r gwarcheidwad.

### 4.6 Opsiynau Amgen a ystyriwyd

Mae ystod o opsiynau amgen i'r cynnig wedi'u hystyried yn ofalus. Mae'r rhesymau dros ddiystyru neu ffafrio pob opsiwn wedi'u hamlinellu yn y tabl isod.

Cynhaliwyd dadansoddiad SWOT ar wahân (gan edrych ar gryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau) ar gyfer pob opsiwn i helpu i nodi'r ffordd fwyaf addas ymlaen. Mae'r asesiad hwn wedi'i gynnwys yn y tablau canlynol.

| **Opsiwn Amgen 1 - Cadw'r trefniadau presennol (Status Quo) yn Ysgol Gynradd Meidrim** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Mae disgyblion a staff yn gallu parhau fel arfer heb darfu ar waith na dysgu. | Mae disgyblion yn parhau i fynychu adeilad ysgol sydd â sgôr addasrwydd wael. |
| Mae'r ysgol yn aros yn yr ardal heb unrhyw effaith ar y gymuned. | Bydd lefelau uchel o leoedd gwag yn parhau i fod yn broblem |
| Dim newidiadau i drefniadau cludiant a dim costau ychwanegol. | Ni fydd pwysau ar y gyllideb yn cael sylw gan y bydd rhwymedigaethau a materion sy'n effeithio ar y gyllideb yn parhau i achosi problemau. |
| Bydd effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'r trefniadau teithio cyfredol yn aros yr un fath. | Mae staff addysgu yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a chyflwyno gwersi i ddwy ystafell ddosbarth sy'n cynnwys disgyblion o oedrannau a galluoedd cymysg. |
| | Mae amcanestyniadau o nifer y disgyblion yn dangos sefyllfa ychydig yn well ond rhagwelir y bydd y niferoedd yn parhau i fod yn isel. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Rhoi cynllun gwella wedi'i dargedu ar waith i fynd i'r afael â diffygion o ran yr arolygiad ac adfer unrhyw hyder a gollwyd yn yr ysgol. | Gallai canlyniadau arolygu cyfredol Estyn niweidio enw da'r ysgol ac atal ceisiadau am leoedd yn yr ysgol yn y dyfodol. |
| Y potensial i gynnwys y gymuned o ran codi arian a gwirfoddoli i gryfhau gweithrediadau'r ysgol a lleihau cyllidebau diffyg. | Mae heriau cyllidebol yn rhwystro cynllun gwella'r ysgol. |

| |
|---|
| **Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**<br><br>Mae disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim yn cael eu haddysgu ar draws dwy ystafell ddosbarth gyda phedwar grŵp blwyddyn yr un, gyda mynediad at adnoddau sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm i Gymru. Fodd bynnag, mae cyflawni'r ehangder cwricwlwm llawn gyda dim ond dau aelod o staff addysgu yn heriol o'i gymharu ag ysgolion mwy. Mae adroddiad arolygu Estyn yn tynnu sylw at y ffaith bod llawer o ddisgyblion yn dangos cynnydd cyfyngedig, yn enwedig mewn llythrennedd a rhifedd, gyda bylchau mewn gwybodaeth a dealltwriaeth. Mae staff addysgu yn darparu profiadau llythrennedd a rhifedd addas ond nid ydynt yn cynllunio'n ddigon bwriadus i herio pob disgybl yn ddigonol neu ddatblygu eu setiau sgiliau llawn.<br><br>Mae'r ysgol yn meithrin amgylchedd cyfeillgar a chynhwysol lle mae disgyblion a staff yn rhannu perthnasoedd cadarnhaol. Mae maint grwpiau blwyddyn bach yn cyfyngu ar gyfleoedd cymdeithasol, er bod disgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cefnogi i drafod pryderon. Mae addysgu yn cynnwys adborth llafar, ond mae gan ddisgyblion gyfleoedd cyfyngedig i wella gwaith yn seiliedig ar yr adborth hwn. Yn ogystal, nid oes gan ddisgyblion iau ddigon o gyfleoedd i ddysgu seiliedig ar chwarae, sy'n effeithio ar ymgysylltu a datblygu sgiliau. Mae cymorth i ddisgyblion ag anghenion ychwanegol yn briodol, gyda phartneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol a defnyddio adnoddau fel 'Llecyn Lles' i gefnogi lles a chynhwysiant.<br><br>Trefniadau arweinyddiaeth dros dro sydd i'w cael yn Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd, gyda phennaeth dros dro yn rheoli'r rhan fwyaf o'r rôl. Er bod gweledigaeth yr ysgol yn blaenoriaethu cydraddoldeb a diogelwch, nid yw hunanwerthuso a chynllunio gwella yn drylwyr nac yn gwbl gynhwysol o staff a llywodraethwyr. Mae hyn yn cyfyngu ar gynnydd wrth fynd i'r afael â meysydd gwella allweddol. Er gwaethaf hyn, mae'r cynnig yn annhebygol o effeithio'n negyddol ar grwpiau agored i niwed fel y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd neu ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, o ystyried y cymorth addas sydd ar waith ar hyn o bryd. |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar y gymuned gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau a byddai'r ddarpariaeth addysg yn cael ei chadw. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio gan y byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau. |
| **Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn**<br><br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad. |

<table>
<tr><td colspan="2">Opsiwn Amgen 2 - Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Meidrim o 4-11 i 3-11</td></tr>
<tr><td>Cryfderau</td><td>Gwendidau</td></tr>
<tr><td>Gallai ddenu mwy o ddisgyblion i'r ysgol</td><td>Mae disgyblion yn parhau i fynychu adeilad ysgol sydd â sgôr addasrwydd wael.</td></tr>
<tr><td>Mae'r ysgol yn aros yn yr ardal heb unrhyw effaith ar y gymuned.</td><td>Os yw'r galw lleol am leoedd y blynyddoedd cynnar eisoes yn cael ei ddiwallu mewn mannau eraill, efallai na fydd llawer yn derbyn y lleoedd.</td></tr>
<tr><td>Gallai cynnig darpariaeth y blynyddoedd cynnar ar y safle wneud yr ysgol yn fwy deniadol i rieni.</td><td>Yn dibynnu ar y nifer sy'n derbyn y lleoedd, byddai staff addysgu o bosibl yn wynebu'r her barhaus o gynllunio a chyflwyno gwersi i ddwy ystafell ddosbarth sy'n cynnwys disgyblion o oedran a galluoedd cymysg, ar draws yr ysgol gyfan.</td></tr>
<tr><td>Byddai carfan ychwanegol yn derbyn addysg drwy'r Gymraeg.</td><td>Gallai effeithio ar fusnesau lleol sy'n darparu addysg y blynyddoedd cynnar.</td></tr>
<tr><td>Cyfleoedd</td><td>Bygythiadau</td></tr>
<tr><td>Gallai'r opsiwn hwn ddiwallu anghenion cymunedol a rhoi mwy o opsiynau i rieni ar gyfer addysg y Blynyddoedd Cynnar.</td><td>Cystadleuaeth leol mewn lleoliadau preifat presennol</td></tr>
<tr><td></td><td>Os na fydd llawer yn derbyn y lleoedd, efallai na fydd yn cael effaith gadarnhaol ar leoedd gwag neu'r gyllideb.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg<br><br>Byddai ansawdd a safonau mewn addysg yn parhau fel uchod. Yr unig wahaniaeth fyddai y byddai carfan ychwanegol o ddisgyblion yn cael eu haddysgu o fewn y dosbarth dysgu sylfaen.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Yr effaith debygol ar y gymuned<br><br>Byddai cynnig darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar yn rhoi mynediad haws at addysg gynnar i deuluoedd lleol. Gallai ychwanegu'r dosbarthiadau hynny ddenu rhagor o deuluoedd i'r ardal, a allai arwain at fwy o gystadleuaeth am leoedd ysgol gynradd.<br><br>Gall cyflwyno plant yn gynnar i'r lleoliad ysgol helpu i feithrin cysylltiadau cryfach rhwng teuluoedd a'r ysgol, gan hyrwyddo undod cymunedol a chefnogi prosiectau lleol.<br><br>Mae ehangu addysg cyfrwng Cymraeg y Blynyddoedd Cynnar yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth Cymru o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Gallai darparu dosbarthiadau meithrin greu taith addysgol lyfn i blant, gan wella parhad a chryfhau cysylltiadau cymunedol.</td></tr>
</table>

| |
|---|
| Fodd bynnag, gall cynnydd mewn plant oedran ysgol roi pwysau ychwanegol ar seilwaith lleol, gyda mwy o deuluoedd o bosibl yn achosi mwy o draffig ac anawsterau parcio yn ystod amseroedd prysur. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br><br>Ni ddisgwylir unrhyw effaith ar drefniadau teithio. Gan fod y ddarpariaeth o addysg y blynyddoedd cynnar ar gyfer disgyblion o dan oedran ysgol gorfodol, ni fyddai cludiant am ddim ar gael i ddisgyblion. |
| **Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn**<br><br>• Mae'n annhebygol o gael effaith sylweddol ar nifer isel y disgyblion yn yr ysgol<br>• Mae'n annhebygol o leihau'r lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol yn sylweddol<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r diffyg yn y gyllideb yn yr ysgol<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad<br>• Mae Cylch Meithrin Ti a Fi ar hyn o bryd yn yr ysgol bob bore Iau |

| **Opsiwn Amgen 3 - Ffedereiddio Ysgol Meidrim ag Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Bydd ffedereiddio yn gwella'r cyfleoedd addysgol trwy alluogi'r ysgolion i rannu adnoddau, megis staff, cyfleusterau a deunyddiau, a allai leihau costau a gwella effeithlonrwydd.  Bydd yn darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gydweithio, fel digwyddiadau a rennir, teithiau a chlybiau. | Mae disgyblion yn parhau i fynychu adeilad ysgol sydd â sgôr addasrwydd wael. |
| Mae'r ysgol yn aros yn yr ardal heb unrhyw effaith ar y gymuned. | Os nad yw'r ffederasiwn yn llwyddo i fynd i'r afael â'r heriau allweddol, gallai arwain at broblemau parhaus yn yr ysgol a risg o ddirywiad pellach. |
| Dim newidiadau i drefniadau cludiant a dim costau ychwanegol. | Ni fyddai'n mynd i'r afael â materion o ran niferoedd isel o ddisgyblion, lefelau uchel o leoedd gwag a chost fesul disgybl |
| Gallai'r ffederasiwn ganiatáu trefniadau llywodraethu ac arweinyddiaeth cryfach, gyda thîm arwain mwy profiadol ar draws y ddwy ysgol a allai arwain at ganlyniadau gwell o ran arolygiad.  Bydd hefyd yn gwella datblygiad staff trwy roi cyfleoedd i staff gydweithio, megis DPP staff a mentora. | Ni fyddai'n mynd i'r afael â materion o ran y gyllideb yn yr ysgol gan y byddai rhwymedigaethau ar hyn o bryd ac yn y dyfodol yn parhau. |

| Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|
| Cyfleoedd i gydweithio, rhannu staff, rhannu arferion gorau, rhannu adnoddau o'r ysgol gyfagos | Efallai na fydd yn gwella niferoedd disgyblion yn yr ysgol na nifer y lleoedd gwag |
| Gallai ffederasiwn gynnig mwy o gyfleoedd i ddisgyblion, gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol | Efallai y bydd rhieni, staff a'r corff llywodraethu yn gwrthwynebu'r cynnig i newid |
| Mae ysgolion sy'n rhan o ffederasiynau ffurfiol neu anffurfiol yn derbyn tâl atodol ffederasiwn o £12,000 neu £6,000 yn y drefn honno, a allai helpu i leddfu rhai o'r pwysau cyllidebol mae'r ysgol yn eu hwynebu. | Mae'n rhaid cynnal ymgynghoriad yn unol â'r Broses Ffedereiddio Ysgolion a Gynhelir yng Nghymru i ffedereiddio ysgol. |

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**

Disgwylir i'r cynnig gael effaith gadarnhaol oherwydd y cynnydd yng nghapasiti staff Ysgol Griffith Jones, gan gynnwys penodi pennaeth parhaol nad yw'n addysgu ac uwch aelodau arweinyddiaeth ychwanegol. Rhagwelir y bydd y gwelliant arweinyddiaeth hwn yn gwella safonau ac yn datblygu sgiliau trwy gryfhau goruchwyliaeth a gyrru prosesau gwella ysgolion.

Gallai profiadau addysgu a dysgu hefyd elwa, gan y byddai staff o'r ddwy ysgol yn cael mwy o gyfleoedd i gydweithio a rhannu arbenigedd mewn cynllunio, gan gyfoethogi'r cwricwlwm o bosibl. Fodd bynnag, byddai'r staff addysgu o ddydd i ddydd a'r trefniadau gofal a chymorth yn aros yn ddigyfnewid i raddau helaeth, gan gynnal parhad yn y meysydd hyn.

Mae arweinyddiaeth yn debygol o wella gyda phresenoldeb arweinydd strategol parhaol, er bod presenoldeb cyfyngedig y pennaeth ar y safle yn golygu y bydd rheolaeth ddyddiol yn dal i gael ei thrin gan staff presennol. Mae'r dull arwain yn Ysgol Griffith Jones yn pwysleisio llesiant disgyblion, datblygu'r Gymraeg, a chodi safonau. Ni ddisgwylir i'r cynnig effeithio'n negyddol ar ddysgwyr agored i niwed, gan fod cymorth a darpariaethau priodol eisoes ar waith.
Disgwylir i'r newidiadau arfaethedig gael effaith gadarnhaol ar Ysgol Meidrim, yn bennaf oherwydd y capasiti staff ychwanegol a fyddai'n dod o Ysgol Hafodwenog. Byddai'r cydweithio hwn yn golygu bod modd rhannu cyfrifoldebau'n fwy effeithlon ac yn creu cyfleoedd ar gyfer cynllunio ar y cyd a deialog broffesiynol rhwng y ddwy ysgol. Drwy gyfuno arbenigedd ac adnoddau, byddai athrawon mewn sefyllfa well i wella ansawdd addysgu a dysgu, a fyddai o fudd o ran cynnydd a datblygiad sgiliau disgyblion yn y pen draw.

Un gwelliant allweddol fyddai penodi pennaeth nad yw'n addysgu a fyddai'n goruchwylio tair ysgol. Byddai'r rôl hon yn cryfhau arweinyddiaeth a chyfeiriad strategol, gan sicrhau bod prosesau gwella yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol ac yn gyson. Er mai dim ond am gyfran fach o'r wythnos y byddai'r pennaeth ar y safle, byddai'r gwaith o reoli'r ysgol o ddydd i ddydd yn parhau i gael ei arwain gan y staff presennol, gan gynnal sefydlogrwydd a pharhad i ddisgyblion a theuluoedd.

| |
|---|
| Mae pennaeth Ysgol Hafodwenog yn cael ei chydnabod am ddarparu arweinyddiaeth gadarn ac am sefydlu gweledigaeth glir a strategol yn seiliedig ar ddealltwriaeth gref o anghenion disgyblion. Byddai'r arbenigedd hwn yn helpu Ysgol Meidrim i sefydlu arferion gwella ysgolion effeithiol a hyrwyddo safonau uwch. Byddai'r bartneriaeth hefyd yn helpu i sicrhau bod staff ar draws y ddwy ysgol yn rhannu arferion gorau, gan gyfrannu at ymagwedd fwy cydlynol a phwrpasol at addysgu a dysgu.<br><br>Yn bwysig ddigon, ni ddisgwylir i'r cynnig gael effaith negyddol ar ddysgwyr agored i niwed, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd neu'r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r ddarpariaeth a'r systemau cymorth presennol eisoes yn addas, ac mae'r capasiti arweinyddiaeth ychwanegol a'r arbenigedd a rennir yn debygol o gryfhau gallu yr ysgol i ddiwallu anghenion pob disgybl ymhellach. Ar y cyfan, mae'r newidiadau yn gam cadarnhaol tuag at wella arweinyddiaeth, ansawdd addysgu, a deilliannau disgyblion. |
| **Yr effaith debygol ar y gymuned**<br>Byddai'r ddarpariaeth addysg yn parhau yn y gymuned ac ni fyddai fawr o effaith ar bobl pentref Meidrim a'r ardal gyfagos. |
| **Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**<br>Efallai y bydd angen teithio ychwanegol ad-hoc os oes cydweithrediad da rhwng yr ysgolion yn y ffederasiwn fel arall rhagwelir y byddai'r trefniadau teithio yn parhau fel y maent ar hyn o bryd. |
| **Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn**<br><br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â nifer isel y disgyblion yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â lefelau uchel o leoedd gwag yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â materion yn ymwneud â'r gyllideb yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r gost uchel fesul disgybl yn yr ysgol.<br>• Ni fyddai'n mynd i'r afael â'r materion mewn perthynas ag addasrwydd yr adeilad. |

| **Opsiwn Amgen 4 - Cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i'r ysgol agosaf** | |
|---|---|
| **Cryfderau** | **Gwendidau** |
| Effeithiau cadarnhaol ar ddisgyblion a fyddai'n cael eu trosglwyddo i ysgol gyda chyfleusterau gwell a llai o broblemau gydag addasrwydd yr adeilad. | Tarfu a chyfnod ansefydlog i ddisgyblion a'u teuluoedd. |
| Byddai hyn yn mynd i'r afael â'r lefelau uchel o leoedd gwag a nifer isel y disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim. | Cau'r ysgol a cholli darpariaeth addysg yn y gymuned. |
| Byddai materion o ran y gyllideb yn cael sylw. | Tarfu ar staff a'r posibilrwydd o ddileu swyddi |
| Efallai y bydd disgyblion yn elwa ar fynychu ysgol fwy gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg yn dibynnu ar ba ysgol maen nhw'n ei mynychu. | Colli ased cymunedol sy'n cael ei werthfawrogi'n fawr gan bobl leol. |

| | |
|---|---|
| Efallai y bydd disgyblion yn elwa ar well cyfleoedd i ddisgyblion drwy weithgareddau allgyrsiol mewn ysgolion newydd | Bydd angen i'r Awdurdod Lleol ddarparu cludiant i'r disgyblion yr effeithir arnynt a fydd yn cynyddu costau cludiant. |
| Byddai'r arbedion refeniw sy'n gysylltiedig â chau'r ysgol yn helpu i leddfu'r pwysau cyllidebol cyffredinol y mae'r Awdurdod Lleol yn eu hwynebu. Byddai cyllid nifer y disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol newydd gyda'r disgybl a thrwy hynny wella cyllideb yr ysgol honno. | Gall pellteroedd teithio gynyddu gan gael effaith negyddol ar rieni a'r amgylchedd. |
| **Cyfleoedd** | **Bygythiadau** |
| Potensial i wella hyfywedd addysg ar draws y sir. | Gwrthwynebiad gan rieni a rhanddeiliaid i'r cynnig. |
| Potensial i sicrhau derbyniad cyfalaf drwy werthu'r adeilad ysgol presennol. | Gwrthwynebiad gan y gymuned i'r cynigion. |

**Yr effaith debygol ar ansawdd a safonau mewn addysg**

Mae gwerthuso ansawdd a safonau mewn addysg ar gyfer yr opsiwn hwn yn heriol oherwydd gall disgyblion fynychu gwahanol ysgolion yn seiliedig ar eu cod post cartref, gan arwain at amrywiadau mewn ansawdd addysgol yn dibynnu ar gyd-destun pob ysgol.

Cafodd Ysgol Gynradd Meidrim ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Ebrill 2024 ac ar hyn o bryd mae'n destun Mesurau Arbennig oherwydd pryderon sydd angen sylw brys. (*wedi'i dynnu o Fesurau Arbennig ers hynny).

Mae argymhellion Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Meidrim yn cynnwys mynd i'r afael â materion diogelu, datblygu arweinyddiaeth strategol gyda chyfrifoldebau clir, gwella hunanwerthuso a chynllunio gwella, creu cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd, a sicrhau prosesau adborth effeithiol i gefnogi cynnydd disgyblion a chodi safonau.

**Yr effaith debygol ar y gymuned**

Os bydd y cynnig i gau'r ysgol yn mynd rhagddo, gallai gael effaith sylweddol ar y gymuned leol oherwydd cysylltiadau cryf a sefydledig yr ysgol â sefydliadau lleol amrywiol.

Byddai cau'r ysgol yn arwain at golli ased cymunedol gwerthfawr sydd ar hyn o bryd yn hwyluso gweithgareddau fel sesiynau canu i breswylwyr oedrannus mewn cartrefi gofal a digwyddiadau cymunedol. Yn ogystal, byddai'r gymuned yn colli cyfranogiad y ficer lleol, sy'n arwain addoli ar y cyd ac ymweliadau dosbarth yn rheolaidd, yn ogystal â chyfleoedd i ddisgyblion ymweld â'r eglwys leol i ymgysylltu â threftadaeth ddiwylliannol a dyfnhau eu dealltwriaeth o draddodiadau crefyddol a chymunedol. Ar ben hynny, ni fyddai disgyblion bellach yn gallu trefnu gweithgareddau codi arian ar gyfer parc y pentref, menter sydd wedi'i chynllunio a'i harwain gan y disgyblion ar hyn o bryd.

**Yr effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio**

Mae'r cynigion yn debygol o effeithio ar drefniadau teithio disgyblion. Gallai disgyblion wynebu teithiau hirach i'r ysgol. Darperir cludiant am ddim yn unol â

| |
|---|
| pholisi trafnidiaeth Cyngor Sir Caerfyrddin. Gallai'r cynnig effeithio ar rieni sy'n gorfod teithio ymhellach i fynd i ddigwyddiadau yn yr ysgol. |
| **Y rheswm dros ddiystyru'r opsiwn hwn**<br><br>Mae gan yr opsiwn hwn fanteision tebyg iawn i'r opsiwn a ffefrir, ond ni fyddai'n sicrhau bod y garfan bresennol o ddisgyblion yn aros gyda'i gilydd i leihau effaith pontio. Er bod yr opsiwn i drosglwyddo i'r ysgol agosaf wedi'i ystyried yn ofalus, mae wedi'i ddiystyru. Ystyrir na fyddai'n cynnig yr un lefel o ddarpariaeth â'r ysgolion derbyn arfaethedig, sy'n darparu darpariaeth feithrin ochr yn ochr ag amrywiaeth eang o weithgareddau allgyrsiol, brecwast a chlybiau ar ôl ysgol sy'n cyfrannu at les disgyblion, cyfoethogi a chymorth i deuluoedd. Dylid nodi, fodd bynnag, bod dewis rhieni yn parhau i fod yn ffactor allweddol wrth benderfynu pa ysgolion y mae disgyblion yn eu mynychu yn y pen draw. |

## 4.7 Dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol, megis sefydlu ysgolion â mwy nag un safle

Mae'r ystod o opsiynau a ystyriwyd ynglŷn â dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim wedi'u hystyried ac fe'u hamlinellir yn y ddogfen gynnig. Mae pob opsiwn wedi'i asesu, gyda chrynodeb o'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a rhesymau dros ffafrio neu beidio yr opsiynau sydd wedi'u cynnwys. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim yn isel ar hyn o bryd a disgwylir i'r nifer aros yn isel yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r tabl canlynol yn dangos bod lleoedd gwag ar gael yn yr ysgolion cynradd o amgylch Ysgol Gynradd Meidrim sy'n dangos na fyddai cadw adeilad Ysgol Gynradd Meidrim fel ysgol â mwy nag un safle yn gost-effeithiol. Ni fyddai trefniant ysgol â mwy nag un safle yn cael ei ystyried yn briodol yn yr ardal hon gan na fyddai nifer y disgyblion yn cyfiawnhau'r cymhlethdod a'r gost ychwanegol, felly byddai'r dull hwn yn aneffeithlon ac ni fyddai'n sicrhau manteision addysgol neu ariannol. Ni fyddai creu ysgol ar fwy nag un safle yn datrys y materion sylfaenol y mae Ysgol Gynradd Meidrim yn eu hwynebu, gan gynnwys diffyg anghynaliadwy yn y gyllideb a materion yn ymwneud ag ansawdd a safonau mewn addysg a nodwyd yn ddiweddar mewn arolygiad gan Estyn.

| **Ysgol** | **Ysgol Gynradd Meidrim** | **Hafodwenog** | **Ysgol Griffith Jones** | **Ysgol Bancyfelin** | **Ysgol Bro Brynach** | **Cynwyl Elfed** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Capasiti 24/25** | 54 | 86 | 337 | 64 | 120 | 94 | 755 |
| **Nifer ar y gofrestr CYBLD 2025** | 31 | 42 | 297 | 65 | 90 | 42 | 567 |
| **Nifer y lleoedd gwag** | 23 | 44 | 40 | 0 | 30 | 52 | 189 |
| **% y lleoedd gwag (wedi'i thalgrynnu i'r 1% agosaf)** | 43% | 51% | 12% | 0% | 25% | 55% | 25% |

### 4.8 Dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol, megis clystyru, cydweithredu neu ffedereiddio ag ysgolion eraill

Mae'r ystod o opsiynau ynglŷn â dyfodol Ysgol Gynradd Meidrim wedi'u hystyried yn ofalus sy'n cynnwys ffedereiddio ag Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. Mae'r opsiwn hwn wedi'i asesu, gyda chrynodeb o'r dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (SWOT) a rhesymau dros beidio â ffafrio'r opsiwn hwn wedi'u cynnwys. Mae nifer y disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim yn isel ar hyn o bryd a disgwylir i'r nifer aros yn isel yn y blynyddoedd i ddod. Ni fyddai dewisiadau eraill fel clystyru, cydweithredu, neu ffedereiddio yn datrys yr heriau sylfaenol y mae'r ysgol yn eu hwynebu. Byddai'r diffyg sylweddol a pharhaus yn y gyllideb yn parhau hyd yn oed o dan drefniant ffederal neu gydweithredol. Mae pryderon ynghylch ansawdd a safonau, gyda'r ysgol ar hyn o bryd yn destun Mesurau Arbennig (*wedi'i dynnu o Fesurau Arbennig ers hynny), yn golygu bod angen gwelliant na ellir ei gyflawni trwy bartneriaethau strwythurol yn unig. Adeilad â sgôr addasrwydd wael, a fyddai'n parhau i beri heriau gweithredol a heriau o ran cydymffurfiaeth. Nifer isel o ddisgyblion a nifer uchel o leoedd gwag yn gyson, sy'n effeithio ar gynaliadwyedd ariannol a'r gallu i gyflwyno cwricwlwm eang a chytbwys.

### 4.9 Dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol megis y posibiliad o wneud defnydd llawnach o'r adeiladau presennol fel adnodd cymunedol neu addysgol

Mae'r Awdurdod Lleol yn annog defnyddio adeiladau ysgol fel adnoddau cymunedol neu addysgol, lle bo hynny'n briodol, i helpu i greu incwm. Fodd bynnag, ni ystyrir bod defnyddio adeilad presennol Ysgol Gynradd Meidrim yn amlach at ddibenion o'r fath yn ymarferol. Ni fyddai gwneud defnydd llawnach o adeilad yr ysgol yn mynd i'r afael â nifer isel o ddisgyblion, nifer uchel o leoedd gwag a chyfran uchel y gyllideb fesul disgybl. Hefyd, mae gan y pentref eisoes gyfleuster cymunedol, sef y Neuadd Ieuenctid, sydd ar gael ar gyfer digwyddiadau a gweithgareddau lleol. O ganlyniad, mae'r opsiwn hwn ar ei ben ei hun yn annhebygol o ddarparu ateb cynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu Ysgol Gynradd Meidrim, yn enwedig mewn perthynas â chynnal darpariaeth addysgol a sicrhau dyfodol yr ysgol.

### 4.10. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig

Os bydd y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn mynd rhagddo, bydd yr Awdurdod Lleol yn sicrhau bod trefniadau ar waith i gefnogi rhieni a disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen i sicrhau proses bontio hwylus. Bydd anghenion unigol yn cael eu rheoli drwy gydweithio â'r pennaeth a'r Ymgynghorydd Cymorth Addysg yn yr ysgol sy'n derbyn gan sicrhau bod y trefniadau mwyaf priodol ar waith i sicrhau bod rhieni a disgyblion yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r ysgolion amgen. Pe bai rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, byddai angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

## 5. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir ystyried y pwyntiau canlynol mewn perthynas â'r angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion:

### 5.1 Gwybodaeth am unrhyw newidiadau i drefniadau teithio gan ddysgwyr pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu a'r effaith ar hygyrchedd y ddarpariaeth

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones sydd tua 3.1 milltir o Feidrim neu Ysgol Hafodwenog sydd tua 6.8 milltir o Feidrim. Yr amser teithio o Ysgol Griffith Jones yw tua 7 munud a'r amser teithio o Ysgol Hafodwenog yw tua 12 munud.

### 5.2 A fydd gan ddarpariaeth ysgol arall ddigon o gapasiti ac a fydd yn darparu adeiladau ac ystafelloedd o ansawdd cystal, man lleiaf, ar gyfer niferoedd disgyblion presennol yr ysgol a'r niferoedd a ragwelir?

Yr opsiwn a ffefrir, os caiff ei gymeradwyo, yw i'r disgyblion drosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o 31 Rhagfyr 2026.

Cyfanswm capasiti Ysgol Griffith Jones ar gyfer blwyddyn academaidd 2026/27 yw 320 gyda nifer derbyn o 40 a chyfanswm capasiti Ysgol Hafodwenog yw 86 gyda nifer derbyn o 10.

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd cyfunol y disgyblion yn seiliedig ar amcanestyniadau pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu a bod yr holl ddisgyblion presennol yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

| | CYBLD 2025 | Amcanestyniad 2026* | Amcanestyniad 2027* | Amcanestyniad 2028* | Amcanestyniad 2029* | Amcanestyniad 2030* |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | 31 | 36 | 39 | 39 | 40 | 36 |
| **Ysgol Hafodwenog** | 42 | 40 | 40 | 43 | 43 | 44 |
| **Cyfanswm** | **73** | **76** | **79** | **82** | **83** | **80** |
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | 31 | 36 | 39 | 39 | 40 | 36 |
| **Ysgol Griffith Jones** | 297 | 291 | 290 | 292 | 288 | 292 |
| **Cyfanswm** | **328** | **327** | **329** | **331** | **328** | **328** |

*gan gynnwys disgyblion meithrin

Mae'r tabl blaenorol yn dangos na fyddai gan Ysgol Griffith Jones ddigon o gapasiti ar gyfer nifer y disgyblion presennol a'r nifer a ragwelir ar gyfer y ddwy ysgol gyda'i gilydd.

Mae'r tabl blaenorol yn dangos y byddai gan Ysgol Hafodwenog ddigon o gapasiti ar gyfer nifer y disgyblion presennol a'r nifer a ragwelir ar gyfer y ddwy ysgol gyda'i gilydd.

Mae'r tabl canlynol yn dangos effaith y cynnig ar grwpiau blwyddyn yn yr ysgol sy'n derbyn pe bai pob disgybl sydd ar gofrestr Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones yn seiliedig ar ffigurau CYBLD 2025.

| **CYBLD 2025** | **Meithrin** | **Derbyn** | **B1** | **B2** | **B3** | **B4** | **B5** | **B6** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | 2 | 2 | 3 | 10 | 4 | 6 | 3 | 1 | **31** |
| **Ysgol Hafodwenog** | 1 | 8 | 6 | 5 | 6 | 3 | 6 | 7 | **42** |
| **Cyfanswm** | **3** | **10** | **9** | **15** | **10** | **9** | **9** | **8** | **73** |
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | 2 | 2 | 3 | 10 | 4 | 6 | 3 | 1 | **31** |
| **Ysgol Griffith Jones** | 40 | 26 | 38 | 34 | 42 | 35 | 39 | 43 | **297** |
| **Cyfanswm** | **42** | **28** | **41** | **44** | **44** | **41** | **42** | **44** | **326** |

Mae'r wybodaeth hon yn dangos, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod pob disgybl yn dewis trosglwyddo o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Griffith Jones, y byddai'n creu problemau yn yr ysgol sy'n derbyn lle byddai nifer y disgyblion yn uwch na'r nifer derbyn, sef 40, mewn sawl grŵp blwyddyn. Pe bai hyn yn digwydd, byddai'r Awdurdod Lleol yn prosesu ceisiadau yn unol â'i Bolisi Derbyn i Ysgolion a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Mae'r wybodaeth yn y tabl uchod yn dangos, pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod pob disgybl yn dewis trosglwyddo o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Hafodwenog, y byddai'n creu problemau yn yr ysgol sy'n derbyn lle byddai nifer y disgyblion yn uwch na'r nifer derbyn, sef 10, mewn sawl grŵp blwyddyn. Pe bai hyn yn digwydd, byddai'r Awdurdod Lleol yn prosesu ceisiadau yn unol â'i Bolisi Derbyn i Ysgolion a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Gan fod Ysgol Griffith Jones yn ysgol categori iaith 3,2 (Dwy Ffrwd), pe bai'r broses yn mynd rhagddi, efallai y byddai angen i'r ysgol adolygu strwythur ei dosbarthiadau i ddarparu ar gyfer rhai neu bob un o ddisgyblion Ysgol Gynradd Meidrim.

Mae'r tabl isod yn dangos niferoedd cyfunol y disgyblion yn Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Hafodwenog a hefyd Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Griffith Jones ym mis Ionawr 2026 a 2027 yn seiliedig ar amcanestyniadau CYBLD 2025 sy'n tynnu sylw at ble y byddai nifer y disgyblion yn uwch o bosibl na'r nifer derbyn, sef 10 a 40, mewn sawl grŵp blwyddyn, yn amodol ar i bob disgybl o Ysgol Meidrim ddewis trosglwyddo i'r ysgolion sy'n derbyn, sef Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

| Amcanestyniadau CYBLD 2025 | | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | **2026** | 2 | 2 | 6 | 3 | 10 | 4 | 6 | 3 | **36** |
| **Ysgol Hafodwenog** | **2026** | 1 | 8 | 5 | 6 | 5 | 6 | 3 | 6 | **40** |
| **Cyfanswm** | | **3** | **10** | **11** | **9** | **15** | **10** | **9** | **9** | **76** |
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | **2026** | 2 | 2 | 6 | 3 | 10 | 4 | 6 | 3 | **36** |
| **Ysgol Griffith Jones** | **2026** | 33 | 26 | 37 | 38 | 34 | 42 | 35 | 39 | **284** |
| **Cyfanswm** | | **35** | **28** | **43** | **41** | **44** | **44** | **41** | **42** | **320** |
| | | | | | | | | | | |
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | **2027** | 2 | 2 | 6 | 6 | 3 | 10 | 4 | 6 | **39** |
| **Ysgol Hafodwenog** | **2027** | 1 | 8 | 6 | 5 | 6 | 5 | 6 | 3 | **40** |
| **Cyfanswm** | | **3** | **10** | **12** | **11** | **9** | **15** | **10** | **9** | **79** |
| **Ysgol Gynradd Meidrim** | **2027** | 2 | 2 | 6 | 6 | 3 | 10 | 4 | 6 | **39** |
| **Ysgol Griffith Jones** | **2027** | 33 | 26 | 38 | 37 | 38 | 34 | 42 | 35 | **283** |
| **Cyfanswm** | | **35** | **28** | **44** | **43** | **41** | **44** | **44** | **41** | **322** |

Os cymeradwyir y cynnig i gau'r ysgol, bydd yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'r Corff Llywodraethu i gefnogi cyfnod pontio hwylus i bob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo. Cydnabyddir os bydd pob disgybl, neu'r mwyafrif, yn dewis symud i'r ysgol dderbyn arfaethedig, y gallai nifer y disgyblion fod yn fwy na nifer derbyn a chapasiti presennol yr ysgol dros dro.

Os bydd hyn yn digwydd, bydd yr Awdurdod Lleol yn prosesu unrhyw geisiadau yn unol â'i Bolisi Derbyn i Ysgolion a Chôd Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael i bob disgybl a bydd yn buddsoddi mewn adeiladau neu adnoddau ychwanegol os oes angen. Byddai unrhyw gyfleusterau newydd a ddarperir yn bodloni neu'n rhagori ar ansawdd amgylchedd presennol yr ysgol.

Er bod ysgol amgen benodol yn cael ei chynnig fel rhan o'r ymgynghoriad hwn, mae teuluoedd yn cadw'r hawl i fynegi dewis ar gyfer unrhyw ysgol. Gall rhieni ddewis

ysgol wahanol ar gyfer eu plentyn, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i ysgolion mewn dalgylchoedd cyfagos fel Ysgol Bancyfelin, Ysgol Bro Brynach ac Ysgol Cynwyl Elfed a gallai hyn effeithio ar y niferoedd disgyblion a ragwelir yn y ddogfen hon. O ganlyniad, gall argaeledd cyffredinol lleoedd ar draws ysgolion fod yn wahanol i'r hyn a ddisgwylir ar hyn o bryd.

Mae'n bwysig nodi hefyd bod y dull a ddefnyddir i ragweld nifer y disgyblion yn seiliedig ar gyfartaledd treigl o ddisgyblion rhwng 5 ac 8 oed mewn ysgolion cynradd. Mae hyn yn golygu y gall unrhyw newidiadau sydyn yn nifer y disgyblion gymryd sawl blwyddyn i gael eu hadlewyrchu'n llawn yn y data. Mewn ysgolion gyda nifer llai o ddisgyblion, gall hyd yn oed mân newidiadau gael effaith gymharol fwy ar amcanestyniadau. Felly, dylid ystyried yr amcanestyniadau o nifer y disgyblion a gyflwynir yma fel amcangyfrif yn hytrach na'r union ffigurau.

### 5.3 Natur siwrneiau i ddarpariaeth arall ac amseroedd teithio i ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion ADY

Yn ôl data CYBLD 2025 mae 3.2% o ddisgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd Meidrim ag ADY ar hyn o bryd.

Mae Ysgol Griffith Jones tua 3.1 milltir o Ysgol Gynradd Meidrim. Amcangyfrifir y byddai'r amser teithio yn 7 munud. Felly, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ni ragwelir y byddai amseroedd teithio posibl disgyblion yn ormodol.

Mae Ysgol Hafodwenog tua 6.8 milltir o Feidrim. Amcangyfrifir y byddai'r amser teithio yn 12 munud. Felly, pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, ni ragwelir y byddai amseroedd teithio posibl disgyblion yn ormodol.

### 5.4 A fydd y cynigion yn gwella mynediad i bobl anabl yn unol â'r gofynion o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Y bwriad yw trosglwyddo disgyblion o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog sydd â chynllun hygyrchedd. Fodd bynnag, os bydd angen gwneud unrhyw addasiadau i'r ysgol ar gyfer disgybl, bydd addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud yn unol â phrosesau sefydledig trefniadaeth ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin.

### 5.5 A yw'r ddarpariaeth ysgol amgen yn ddigonol i ateb y galw presennol a'r galw a ragwelir am ysgolion o'r un iaith ac (os yn berthnasol) cymeriad crefyddol dynodedig

Pe bai angen capasiti ychwanegol, mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo'n llwyr i weithio mewn partneriaeth agos â Phennaeth a Chorff Llywodraethu Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog i sicrhau bod y seilwaith angenrheidiol ar waith.

## 6. Yr ysgolion y mae'r cynnig yn debygol o effeithio arnynt

Yn unol â gofynion y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018), ceir manylion isod am yr ysgolion cyfagos y gellid ystyried yn rhesymol y byddai disgyblion am drosglwyddo iddynt o bosibl, ynghyd â manylion yr ysgolion derbyn arfaethedig.

| **Enw'r Ysgol** | | **Ysgol Hafodwenog** | **Ysgol Griffith Jones** | **Ysgol Bancyfelin** | **Ysgol Bro Brynach** | **Ysgol Cynwyl Elfed** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad yr Ysgol** | | Tre-lech, SA33 6RU | Heol yr Orsaf, Sanclêr, SA33 4BT | Bancyfelin, SA33 5ND | Llanboidy, SA34 0EL | Cynwyl Elfed, SA33 6TR |
| **Ystod Oedran** | | 4-11 | 3-11 | 4-11 | 3-11 | 4-11 |
| **Categori'r Ysgol** (Cymunedol, Gwirfoddol a Gynorthwyir, Gwirfoddol a Reolir) | | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol | Cymunedol |
| **Categori Iaith** | | 3 – Cyfrwng Cymraeg | 3,2 – Dwy Ffrwd | 3 – Cyfrwng Cymraeg | 3 – Cyfrwng Cymraeg | 3 – Cyfrwng Cymraeg |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr (CYBLD 2025)** | **Meithrin** | 1 | 40 | 3 | 14 | 0 |
| | **Derbyn – B.6** | 41 | 257 | 62 | 76 | 42 |
| | **Cyfanswm** | 42 | 297 | 65 | 90 | 42 |
| **Nifer y disgyblion ar y gofrestr yn flaenorol (gan gynnwys Meithrin) (CYBLD)** | **Ionawr 2024** | 44 | 310 | 59 | 92 | 51 |
| | **Ionawr 2023** | 50 | 305 | 56 | 95 | 60 |
| | **Chwefror 2022** | 47 | 320 | 54 | 84 | 62 |
| | **Ebrill 2021** | 48 | 332 | 49 | 89 | 76 |
| **Amcanestyniadau o Nifer y Disgyblion (ac eithrio Meithrin) (ar sail data CYBLD 2025)** | **Ionawr 2026** | 40 | 291 | 69 | 91 | 43 |
| | **Ionawr 2027** | 40 | 290 | 69 | 91 | 41 |
| | **Ionawr 2028** | 43 | 292 | 71 | 92 | 42 |
| | **Ionawr 2029** | 43 | 288 | 70 | 97 | 42 |
| | **Ionawr 2030** | 44 | 292 | 66 | 98 | 41 |
| **Capasiti Meithrin 25/26** | | 10 | 34 | 8 | 15 | 13 |
| **Capasiti Derbyn - B.6 25/26** | | 76 | 286 | 59 | 111 | 97 |
| **Cyfanswm Capasiti 25/26** | | 86 | 320 | 67 | 126 | 110 |
| **Cyfran o'r gyllideb fesul disgybl (2025/26)** | | £5,464 | £5,286 | £5,010 | £5,342 | £5,662 |
| **Cyllideb Ysgol (2025/26)** | | £229,467 | £1,514,364 | £325,624 | £459,384 | £237,816 |
| **Canlyniad Arolygiad Estyn** | | Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2019) | Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2020) | Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2024) | Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2023) | Nid mewn categori gweithgarwch dilynol (2019) |
| **Categori Cyflwr Adeilad (2024)** | | B | B | B | A | B |
| **Addasrwydd Adeiladau** | | B | B | B | B | B |

## 6.1 Effaith y cynnig ar ysgolion y byddai hyn yn debygol o effeithio arnynt

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, disgwylir i'r effaith fwyaf sylweddol fod ar Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, a nodwyd fel yr ysgolion amgen yn lle Ysgol Gynradd Meidrim. Byddai hyn yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, sy'n cael ei ystyried yn gadarnhaol gan y bydd yn helpu i wella cynaliadwyedd yr ysgolion.

Mae gan rieni'r hawl i fynegi dewis ar gyfer yr ysgol y mae eu plentyn yn ei mynychu. Fodd bynnag, nid yw mynegi dewis yn rhoi sicrwydd y caiff plentyn le yn yr ysgol honno. Efallai y bydd rhai rhieni disgyblion Ysgol Gynradd Meidrim yn dewis gwneud cais am ysgolion eraill heblaw Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog fel yr ysgolion sy'n derbyn a enwir. O ganlyniad, efallai y bydd ysgolion cyfagos eraill fel Ysgol Bancyfelin, Ysgol Bro Brynach, Ysgol Cynwyl Elfed ac o bosibl ysgolion ymhellach i ffwrdd, hefyd yn gweld rhywfaint o effaith yn dibynnu ar amgylchiadau unigol.

Yn gyffredinol, nid yw'r cynnydd disgwyliedig yn nifer y disgyblion yn yr ysgolion y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt yn cael ei ystyried yn negyddol, gan fod gan yr ysgolion hyn rywfaint o gapasiti lleoedd gwag ar hyn o bryd i ddarparu ar gyfer disgyblion ychwanegol.

## 6.2 Effaith y cynnig ar y staff

Nid yw'r penderfyniad i gynnig cau ysgol byth yn cael ei wneud ar chwarae bach, ac mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod yn llawn yr effaith sylweddol y gall cynigion o'r fath ei chael ar y staff sy'n gweithio yn Ysgol Gynradd Meidrim a'r ysgolion derbyn arfaethedig.

Un o brif flaenoriaethau'r Awdurdod Lleol yw lleihau tarfu a chefnogi staff ysgol drwy unrhyw gyfnod o newid pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu. Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i wneud popeth o fewn ei allu i osgoi dileu swyddi yn orfodol yn unol â'r Polisi Dileu Swyddi / Staff Gormodol Enghreifftiol ar gyfer Ysgolion Mae hyn yn cynnwys ystyried yr holl gyfleoedd adleoli posibl o fewn y rhwydwaith ysgolion ehangach a'r awdurdod lleol, cynnig dileu swyddi yn wirfoddol neu ymddeoliad cynnar lle bo hynny'n briodol, a gweithio'n agos gydag undebau llafur drwy gydol y broses.

Fodd bynnag, er y bydd pob ymdrech yn cael ei gwneud i adleoli staff yr effeithir arnynt, ni ellir diystyru'r posibilrwydd o ddileu swyddi. Lle nad yw adleoli ym ymarferol, bydd proses deg a thryloyw yn cael ei dilyn, a rhoddir cefnogaeth i'r rheiny yr effeithir arnynt.

Mae'r Awdurdod Lleol yn deall y gallai hyn greu ansicrwydd i staff a'u teuluoedd, ac mae wedi ymrwymo i gyfathrebu'n glir, a darparu diweddariadau amserol a mynediad at wasanaethau cymorth drwy gydol y broses. Bydd tîm Adnoddau Dynol yr Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda Phenaethiaid a Chyrff Llywodraethu i sicrhau bod yr holl staff yn cael eu trin ag urddas a pharch drwy gydol y broses.

Byddai unrhyw newidiadau yn yr ysgol sy'n derbyn yn cael eu rheoli trwy ei gorff llywodraethu, yn unol â rheoliadau staffio ysgolion a pholisïau Adnoddau Dynol, a byddent hefyd yn destun ymgynghoriad priodol â staff yr effeithir arnynt ac undebau.

### 6.3 Effaith y cynnig ar gymuned leol Meidrim

Mae asesiad o'r effaith ar y gymuned wedi'i gynnal, gan ddefnyddio adborth a roddwyd gan yr ysgol. Mae'r asesiad wedi'i gynnwys yn Atodiad B a bydd yn cael ei ddiweddaru yn dilyn y broses ymgynghori i adlewyrchu unrhyw adborth sy'n dod i law.

Mae Ysgol Gynradd Meidrim yn falch o'i chysylltiadau lleol cryf â'r gymuned, gan gynnwys y bartneriaeth â'r eglwys a'r grŵp Cylch Ti a Fi lleol. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai angen i'r Cylch Ti a Fi sy'n cael ei gynnal yn yr ysgol bob bore Iau symud i'r Neuadd Ieuenctid yn y pentref o bosib.

Byddai cau'r ysgol yn effeithio ar allu disgyblion i gerdded neu feicio oherwydd mwy o bellter a phryderon diogelwch ffyrdd, gan leihau cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol bob dydd. Fodd bynnag, mae'r ysgolion derbyn yn cynnig amrywiaeth o glybiau chwaraeon a chlybiau ar ôl ysgol i liniaru hyn. Byddai angen cludiant ysgol ar ddisgyblion cymwys. Ni ragwelir unrhyw effeithiau ar wasanaethau cludiant disgyblion os yw'r cynigion yn cael eu gweithredu.

## 7. Yr effaith ar ansawdd a safonau mewn addysg

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn gofyn am ddadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar ansawdd a safonau addysg yr ysgol, gan ystyried meysydd arolygu perthnasol Estyn. Nodir y rhain yn yr adran ganlynol.

Cafodd Ysgol Gynradd Meidrim ei harolygu gan Estyn ym mis Ebrill 2024. Roedd Prif Arolygydd Ei Fawrhydi o'r farn bod angen mesurau arbennig mewn perthynas â'r ysgol hon. (*wedi'i dynnu o Fesurau Arbennig ers hynny). Roedd yr argymhellion fel a ganlyn:

A1 Mynd i'r afael â'r mater diogelu a godwyd yn ystod yr arolygiad

A2 Diffinio a datblygu cyfrifoldebau arweinwyr er mwyn gweithredu'n fwy strategol gan sicrhau bod prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i'r afael â'r meysydd i'w gwella

A3 Cynllunio cyfleoedd pwrpasol i ddisgyblion ddatblygu a chymhwyso eu medrau llythrennedd a rhifedd yn fwriadus ar draws y meysydd dysgu dros amser, gan osod her briodol i sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni hyd eithaf eu gallu

A4 Sicrhau bod adborth athrawon a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion ymateb iddo yn cael ei weithredu'n fwriadus i'w cefnogi i wella eu gwaith a chodi safonau

Cafodd Ysgol Griffith Jones ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Mawrth 2020 ac ar hyn o bryd nid yw mewn categori 'gweithgarwch dilynol'. Mae hyn yn golygu bod yr ysgol wedi bodloni'r safonau gofynnol yn ystod yr arolygiad ac nid oes angen unrhyw waith monitro neu ymyrraeth ychwanegol gan Estyn.

Argymhellion Estyn o 2020:

A1 Sicrhau bod egwyddorion y cyfnod sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn ym Mlwyddyn 1
A2 Sicrhau bod cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau ynglŷn â'u dysgu er mwyn datblygu fel dysgwyr annibynnol
A3 Codi safon gwaith disgyblion sy'n fwy abl eu gallu
A4 Gwella presenoldeb disgyblion

Cafodd Ysgol Hafodwenog ei harolygu ddiwethaf gan Estyn ym mis Chwefror 2019 a barnwyd bod angen adolygiad gan Estyn. Cafodd yr ysgol ei thynnu o Adolygiad Estyn yn 2021.

Argymhellion Estyn:

A1 Gwella gweithdrefnau monitro a chynlluniau gwella'r ysgol i sicrhau eu bod yn canolbwyntio'n gadarn ar godi safonau
A2 Codi safonau cyfathrebu Cymraeg y disgyblion
A3 Sicrhau bod yr addysgu'n darparu her briodol i'r holl ddisgyblion gyflawni hyd eithaf eu gallu a datblygu'n ddysgwyr annibynnol ac uchelgeisiol
A4 Sicrhau bod athrawon yn darparu cwricwlwm sy'n gytbwys ac yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ym mhob maes dysgu
A5 Cryfhau rôl y llywodraethwyr wrth fonitro ansawdd y ddarpariaeth a safonau i'w galluogi i herio perfformiad yr ysgol yn effeithiol

## 7.1 Yr effaith debygol ar safonau a chynnydd cyffredinol grwpiau penodol ac o ran sgiliau (yn yr ysgol neu'r ysgolion sy'n destun y cynigion)

Pe bai'r Cyngor Sir yn bwrw ymlaen â gweithredu'r opsiwn a ffefrir, byddai Ysgol Gynradd Meidrim yn cau, a byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

Mae effaith gadarnhaol debygol ar safonau a datblygiad sgiliau gan fod addysgu disgyblion mewn dosbarthiadau un grŵp blwyddyn yn annog gwell cydweithio ymhlith disgyblion. Mae'r amgylchedd hwn yn meithrin profiad dysgu mwy penodol a chydlynol, sydd yn ei dro yn cefnogi cynnydd pellach a safonau uwch ar draws y cwricwlwm.

Yn ogystal, gallai'r cynnydd yn nifer y disgyblion ym mhob grŵp blwyddyn hwyluso ehangu cyfleoedd allgyrsiol. Mae gweithgareddau fel chwaraeon tîm, côr, a digwyddiadau cystadleuol yn fwy ymarferol a bywiog pan fydd corff mwy o fyfyrwyr yn cymryd rhan, gan gyfoethogi profiad cyffredinol yr ysgol a hyrwyddo datblygiad personol ehangach.

Mae adroddiad arolygiad Ysgol Griffith Jones yn nodi bod y rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion addysgol arbennig, yn gwneud cynnydd cadarn drwy gydol eu hamser yn yr ysgol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad yr ysgol i addysg gynhwysol a chefnogaeth gyson, gan sicrhau bod pob dysgwr yn cael y cyfle i ddatblygu'n effeithiol wrth iddynt symud ymlaen.

Mae adroddiad arolygu Estyn ar gyfer Ysgol Hafodwenog yn nodi bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da a chyson o'u mannau cychwyn unigol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r cynnydd hwn yn amlwg ar draws amrywiaeth eang o bynciau, gyda chryfderau penodol mewn sgiliau llythrennedd, rhifedd a chyfathrebu disgyblion. Mae disgyblion yn gallu adeiladu'n effeithiol ar eu dysgu blaenorol oherwydd bod staff addysgu yn cynllunio dilyniannau dysgu sy'n gynyddol ac yn cyd-fynd â galluoedd disgyblion. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos annibyniaeth, chwilfrydedd a hyder cynyddol yn eu dysgu. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i adborth, ac o ganlyniad, mae eu cyrhaeddiad a'u datblygiad sgiliau yn gwella'n raddol dros amser. Mae ethos cynhwysol ac amgylchedd cefnogol yr ysgol yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd hwn, gan sicrhau bod pob dysgwr—waeth beth fo'i gefndir neu ei allu—yn gallu cyrraedd ei botensial.

Hefyd, mae'n debygol y bydd effaith gadarnhaol ar safonau cyffredinol a datblygiad sgiliau allweddol, gan fod ansawdd addysgu a dysgu Ysgol Hafodwenog yn gadarn ac yn sefydledig. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u disgyblion ac maent yn defnyddio amrywiaeth eang o strategaethau effeithiol i ennyn diddordeb dysgwyr a'u hysgogi. Mae'r gwersi wedi'u strwythuro'n dda, gan ddarparu amcanion dysgu clir a gweithgareddau pwrpasol sy'n hyrwyddo meddwl yn feirniadol a chreadigrwydd. Mae'r staff yn gwneud defnydd effeithiol o wybodaeth asesu i addasu tasgau i anghenion disgyblion a sicrhau bod dysgu yn adeiladu'n systematig dros amser. Mae'r sylfaen gref hon o ran ansawdd yr addysgu yn cefnogi datblygiad cyson llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm. Gyda'i gilydd, mae'r elfennau hyn yn cyfrannu at ddiwylliant dysgu cadarnhaol ac uchelgeisiol sy'n hyrwyddo safonau uchel ac yn galluogi disgyblion i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i lwyddo yng nghyfnodau nesaf eu haddysg.

### 7.2 Yr effaith debygol ar lesiant ac agweddau at ddysgu

Yn y tymor byr, gallai'r disgyblion brofi rhywfaint o effaith ar eu llesiant yn sgil symud o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Griffith Jones. Gall addasu i amgylchedd newydd greu heriau. Fodd bynnag, dros y tymor hir, mae'r cynnydd yn nifer y disgyblion o oedran a chyfnod tebyg yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar lesiant. Bydd y grŵp cyfoedion mwy hwn yn cynnig mwy o gyfleoedd ar gyfer cyfeillgarwch a rhyngweithio cymdeithasol, gan wella cydweithredu o fewn dosbarthiadau ac ar draws cymuned yr ysgol.

Mae adroddiad arolygiad Ysgol Griffith Jones yn nodi bod y rhan fwyaf o'r disgyblion yn falch o'u hysgol ac yn teimlo'n ddiogel yn ei hamgylchedd cynhwysol. Mae disgyblion yn mynegi hyder wrth drafod unrhyw bryderon gyda staff ac yn elwa ar holiadur digidol dyddiol sy'n eu galluogi i rannu eu teimladau. Mae'r system hon yn eu sicrhau bod oedolion yn gwrando'n ofalus ac yn ymateb yn briodol, gan gyfrannu at awyrgylch cefnogol. Hefyd, mae llawer o'r disgyblion yn gwerthfawrogi'r amrywiaeth eang o gyfleoedd a ddarperir gan eu hathrawon, sy'n cyfoethogi eu profiad ysgol cyffredinol.

Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod bron pob disgybl yn dangos ymddygiad cwrtais a pharchus tuag at eu cyfoedion, staff ac ymwelwyr. Mae'r mwyafrif helaeth yn ymddwyn yn rhagorol, gan feithrin amgylchedd cadarnhaol a threfnus sy'n ffafriol i

ddysgu a datblygiad personol. Mae'r diwylliant cryf hwn o barch ac ymddygiad cadarnhaol yn un o gryfderau allweddol cymuned yr ysgol.

Yn y tymor byr, gallai trosglwyddo disgyblion o Ysgol Meidrim i Ysgol Hafodwenog gael effaith ar lesiant rhai disgyblion. Gall newid ysgolion fod yn heriol, yn enwedig i ddisgyblion iau neu'r rhai sy'n fwy agored i niwed, wrth iddynt addasu i amgylchedd, staff a grŵp cyfoedion newydd. Efallai y bydd cyfnod ansicr neu bryderus i ddechrau wrth i ddisgyblion ymgyfarwyddo â threfniadau a disgwyliadau newydd. Fodd bynnag, yn y tymor hir, mae newid ysgol yn debygol o gael effaith gadarnhaol ar lesiant disgyblion. Mae'r boblogaeth disgyblion ehangach yn Ysgol Hafodwenog yn golygu y bydd gan blant fwy o gyfoedion o oedran a chyfnod datblygiad tebyg, gan ddarparu mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio, cyfeillgarwch a rhyngweithio cymdeithasol ym mhob dosbarth ac ar draws cymuned yr ysgol. Gall yr amgylchedd cymdeithasol estynedig hwn gyfrannu at fwy o hyder, ymdeimlad cryfach o berthyn, a chymryd mwy o ran mewn bywyd ysgol.

Mae adroddiad arolygiad Estyn ar gyfer Ysgol Hafodwenog yn nodi bod bron pob disgybl yn mwynhau dod i'r ysgol. Mae disgyblion yn dweud eu bod yn teimlo'n hapus ac yn ddiogel a'u bod yn derbyn gofal da, ac maent yn gwerthfawrogi'r amgylchedd cyfeillgar a chefnogol y mae'r staff yn ei greu. Mae'r awyrgylch cadarnhaol hwn yn annog disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ysgol a dysgu, gan feithrin datblygiad academaidd a phersonol. Mae'r pwyslais cryf ar ofal a llesiant yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cefnogi'n emosiynol yn ogystal ag yn academaidd, gan eu helpu i ffynnu mewn lleoliad diogel a chynhwysol.

Un o gryfderau eraill yr ysgol yw'r ffordd y mae'r disgyblion hŷn yn cefnogi'r plant iau, gan ddangos cyfrifoldeb ac empathi. Er enghraifft, mae disgyblion hŷn yn cynorthwyo plant cyfnod sylfaen yn ystod amser cinio ac yn eu helpu i ddewis llyfrau o lyfrgell yr ysgol bob wythnos. Mae hyn nid yn unig o fudd i ddisgyblion iau trwy ddarparu arweiniad a chymorth ond hefyd yn helpu disgyblion hŷn i ddatblygu sgiliau arweinyddiaeth a chymdeithasol. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrtais, yn barchus ac yn ystyriol tuag at staff a'i gilydd. Mae'r diwylliant cadarnhaol hwn o gyd-barch yn cyfrannu at amgylchedd dysgu cytûn, gan atgyfnerthu ethos yr ysgol o ofal, cydweithio a chymuned.

### 7.3 Yr effaith debygol ar brofiadau addysgu a dysgu (ansawdd yr addysgu; ystod, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm, a'r ddarpariaeth sgiliau)

Mae potensial ar gyfer effaith gadarnhaol ar y cwricwlwm yn Ysgol Gynradd Meidrim, lle mae'r ystod, y cydbwysedd a'r priodoldeb presennol wedi'u barnu i fod yn aneffeithiol. Mae arolygiad diweddar Estyn yn nodi, er bod athrawon yn gyffredinol yn darparu cyfleoedd addas i ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd disgyblion, nad yw'r gwaith cynllunio'n ddigon bwrpasol i sicrhau cynnydd cyson dros amser. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos bylchau clir mewn gwybodaeth a dealltwriaeth, ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Mae'r sefyllfa hon hefyd yn cyfyngu datblygu ystod lawn o sgiliau ac yn methu â darparu heriau priodol ar draws gwahanol lefelau gallu.

Mewn cyferbyniad, mae adroddiad arolygiad Ysgol Griffith Jones yn nodi bod athrawon yn cydweithio'n effeithiol i gyflwyno cwricwlwm eang a diddorol. Mae

themâu trawsgwricwlaidd yn ehangu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion yn gyson, ac mae llawer o wersi yn cael eu nodweddu gan gyflymder da, amcanion dysgu clir, a defnyddio adnoddau amrywiol sy'n ennyn diddordeb y disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, mae athrawon yn gosod tasgau heriol sy’n annog disgyblion i defnyddio’u gwybodaeth flaenorol a datblygu eu medrau meddwl, gan wella deilliannau dysgu.

Mae athrawon yn Ysgol Gynradd Meidrim yn wynebu'r her arbennig o reoli dau ddosbarth o alluoedd cymysg ac oedrannau cymysg ar draws yr ysgol gyfan, a all effeithio ar ddarparu addysgu wedi'i deilwra. Fodd bynnag, nid yw'r Awdurdod Lleol wedi mynegi unrhyw bryderon ynglŷn ag ansawdd yr addysgu yn Ysgol Griffith Jones. Felly, pe bai'r opsiwn arfaethedig yn cael ei weithredu, ni ragwelir y byddai'n effeithio ar ansawdd yr addysgu a brofir gan ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Gynradd Meidrim ar hyn o bryd. I'r gwrthwyneb, gall y newid hwn ddarparu mynediad at ddulliau addysgu mwy penodol a strwythuredig.

Mae effaith gadarnhaol bosibl gan fod ystod, cydbwysedd a phriodoldeb y cwricwlwm yn Ysgol Meidrim yn aneffeithiol ar hyn o bryd. Mae'r arolygiad diweddar gan Estyn yn nodi, ar y cyfan, bod athrawon yn darparu profiadau addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd a rhifedd y disgyblion. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynllunio’n ddigon bwriadus i gefnogi disgyblion i wneud cynnydd yn adeiladol dros amser. O ganlyniad, mae bylchau amlwg yng ngwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion ar draws yr ysgol ac nid ydynt yn gwneud y cynnydd disgwyliedig. Yn ogystal, mae hyn yn golygu nad yw athrawon yn datblygu’r ystod lawn o fedrau’r disgyblion nac yn eu herio’n bwrpasol ar draws yr ystod gallu.

Nodir yn adroddiad arolygiad interim Ysgol Hafodwenog fod y pennaeth wedi darparu profiadau dysgu proffesiynol gwerthfawr i’r athrawon er mwyn sicrhau eu bod yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o elfennau addysgu effeithiol. Maent yn rhannu arferion gyda’r ysgol arall mae’r pennaeth yn gyfrifol amdani, gan ddod at ei gilydd yn rheolaidd i rannu arfer da. Maent yn rhannu arferion o ran cynllunio, ac wrth ddarparu gweithgareddau ysgogol sy’n herio’r disgyblion i ddatblygu eu gwahanol fedrau ar draws y cwricwlwm.

Mae'r athrawon yn Ysgol Meidrim yn wynebu'r her o baratoi ac addysgu dau ddosbarth oedran a gallu cymysg ar draws yr ysgol gyfan. Byddai hyn yr un peth yn Ysgol Hafodwenog. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddai gweithredu'r opsiwn hwn, pe bai'n cael ei fabwysiadu, yn cael effaith negyddol ar ansawdd yr addysgu y mae disgyblion sy'n mynychu Ysgol Meidrim ar hyn o bryd yn ei gael.

### 7.4 Yr effaith debygol ar arweiniad a chymorth gofal (tracio, monitro a darparu cymorth dysgu, datblygiad personol a gwarchod disgyblion)

Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, yn y tymor byr, gallai'r disgyblion, gan gynnwys grwpiau agored i niwed, weld rhywfaint o effaith ar eu llesiant yn sgil symud o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Griffith Jones. Er gwaethaf hyn, mae'r ddwy ysgol ar hyn o bryd yn darparu cefnogaeth dda mewn dysgu, datblygiad personol, a diogelu. O ystyried y darpariaethau cryf sy'n bodoli eisoes, mae pob rheswm i gredu y bydd Ysgol Griffith Jones yn gymwys iawn i ddiwallu anghenion yr holl ddisgyblion yn dilyn y broses bontio.

Mae adroddiad arolygiad Ysgol Griffith Jones yn tynnu sylw at ethos hapus, gofalgar a chynhwysol yr ysgol, lle mae parch a gwerthfawrogiad yn werthoedd canolog. Disgrifir cymuned yr ysgol fel un gyfeillgar a theuluol, sy'n hyrwyddo ymddygiad da, cwrteisi ac ymrwymiad disgyblion yn effeithiol. Mae'r rhinweddau hyn yn cyfrannu at amgylchedd dysgu cadarnhaol lle mae disgyblion yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi.

Mae'r trefniadau i fynd i'r afael ag anghenion emosiynol a chymdeithasol disgyblion yn gadarn ac yn cael effaith ystyrlon ar eu llesiant. Darperir cymorth wedi'i dargedu i ddisgyblion unigol a grwpiau penodol i'w helpu i fagu hyder a chymryd rhan lawn mewn gweithgareddau ysgol. Enghraifft dda o hyn yw ymyrraeth lwyddiannus ‘chwarae teg’ sy’n sicrhau bod disgyblion bregus yn datblygu eu hyder i allu ymuno â’u cyfoedion amser chwarae a chinio.
Yn y tymor byr, mae'n bosibl y byddai effaith ar lesiant disgyblion, gan gynnwys grwpiau agored i niwed, gan y byddai angen iddynt drosglwyddo o Ysgol Meidrim i Ysgol Hafodwenog. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth o gymorth dysgu, datblygiad personol a diogelu yn dda ar draws y ddwy ysgol ar hyn o bryd, ac nid oes unrhyw reswm i gredu na fyddai Ysgol Hafodwenog yn gallu diwallu anghenion pob disgybl.

Nodir yn adroddiad arolygiad Ysgol Hafodwenog bod yr ysgol yn gymuned hapus, gynhwysol a chartrefol. Mae’r staff yn creu ymdeimlad gofalgar sy’n cael ei adlewyrchu yn lles da’r disgyblion.

Mae’r athrawon a’r staff cymorth yn cyfrannu’n effeithiol at gefnogi disgyblion unigol ac yn gweithredu rhaglenni ymyrraeth yn llwyddiannus. Mae hyn yn cyfrannu’n dda at godi safonau a datblygu hyder disgyblion.

Mae gan yr ychydig iawn o ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynlluniau dysgu unigol addas ac mae eu targedau’n benodol ac yn fesuradwy. Mae’r ysgol yn gweithio’n agos gydag asiantaethau eraill er mwyn derbyn cyngor i’w galluogi i roi cymorth effeithiol i’r disgyblion mewn meysydd arbenigol.

### 7.5 Yr effaith debygol ar arweinyddiaeth a rheolaeth (ansawdd ac effeithiolrwydd arweinwyr a rheolwyr, prosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, dysgu proffesiynol, a defnyddio adnoddau)

Ar hyn o bryd, nid oes gan Ysgol Gynradd Meidrim arweinyddiaeth barhaol; mae ganddi bennaeth dros dro sydd â chyfrifoldebau addysgu am 3.5 diwrnod yr wythnos. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones, sy'n elwa ar strwythur arweinyddiaeth sefydlog a pharhaol. Yn ôl adroddiad arolygiad Ysgol Griffith Jones, mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth a rheolaeth gadarn, sy'n seiliedig ar weledigaeth glir sy'n canolbwyntio ar lesiant disgyblion, datblygu'r Gymraeg, a gwella safonau.

Os bydd yn cael ei weithredu, ni ddisgwylir i'r cynnig hwn gael effaith negyddol ar ddatblygiad blaenoriaethau cenedlaethol na chyfleoedd dysgu proffesiynol i staff. Mae Ysgol Griffith Jones wedi rhoi trefniadau datblygu perfformiad cryf ar waith sy'n cefnogi twf sgiliau athrawon ac yn sicrhau dysgu proffesiynol pwrpasol wedi'i deilwra

i anghenion unigol ac anghenion yr ysgol gyfan. Mae'r dull strwythuredig hwn yn meithrin datblygiad proffesiynol parhaus wrth gynnal safonau addysgu uchel.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Griffith Jones, a fyddai'n effeithio'n gadarnhaol ar y defnydd effeithlon o adnoddau. Byddai'r cynnydd hwn yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor yr ysgol trwy optimeiddio staffio, cyfleusterau a chyllid, a thrwy hynny gefnogi dyfodol cynaliadwy ac effeithiol i gymuned yr ysgol.

Ar hyn o bryd, nid oes gan Ysgol Meidrim arweinyddiaeth barhaol, gan ddibynnu yn hytrach ar bennaeth dros dro sydd â chyfrifoldebau addysgu sylweddol am 3.5 diwrnod yr wythnos. Mae'r trefniant hwn yn cyfyngu ar y capasiti ar gyfer goruchwylio strategol, datblygiad ysgol gyfan, a chynllunio hirdymor. Mae cydbwyso dyletswyddau addysgu â chyfrifoldebau arwain yn cyfyngu'r amser sydd ar gael ar gyfer monitro safonau, cefnogi datblygiad staff, a chyflawni gwelliannau, sy'n gallu effeithio ar effeithiolrwydd cyffredinol yr ysgol. Mae diffyg arweinydd amser llawn, nad yw'n addysgu, hefyd yn lleihau cyfleoedd ar gyfer cydlynu mentrau cwricwlwm, llesiant a rheoli perfformiad yn benodol.

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Hafodwenog, ysgol sydd eisoes yn rhan o ffederasiwn llac ag ysgol gynradd arall. Mae'r strwythur ffederasiwn hwn wedi caniatáu i Ysgol Hafodwenog gael budd o bennaeth nad yw'n addysgu, y mae ei phrif rôl yn ymwneud ag arweinyddiaeth strategol ar draws y ffederasiwn. Mae presenoldeb arweinydd ymroddedig yn sicrhau nad yw cyfrifoldebau addysgu o ddydd i ddydd yn peryglu ansawdd gwaith rheoli'r ysgol ac yn galluogi ymagwedd â ffocws at wella ysgolion, cynllunio'r cwricwlwm, a deilliannau disgyblion. Felly byddai disgyblion yn symud i amgylchedd arweinyddiaeth â strwythur da, sy'n darparu mwy o sefydlogrwydd a chysondeb o'i gymharu â sefyllfa bresennol Ysgol Meidrim.

Mae adroddiad arolygu interim Ysgol Hafodwenog yn tynnu sylw at effeithiolrwydd ei thîm arwain. Mae'r pennaeth yn dangos disgwyliadau uchel ohoni hi ei hun, y disgyblion a'r staff, gan feithrin diwylliant o ragoriaeth ac atebolrwydd. Mae arweinwyr wedi datblygu tîm ymroddedig a galluog sy'n rhannu gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol. Mae cyfrifoldebau wedi'u dosbarthu'n strategol ymhlith staff, gan sicrhau eglurder ac effeithlonrwydd mewn gweithrediadau bob dydd. Hefyd, mae staff yn cael cyfleoedd datblygiad proffesiynol wedi'u targedu, gan eu galluogi i gymryd rhan weithredol mewn prosesau hunanwerthuso a gwella ysgol. Mae'r dull strwythuredig hwn yn sicrhau bod staff yn datblygu eu sgiliau yn barhaus wrth gyfrannu'n ystyrlon at gynnydd parhaus yr ysgol.

Os bydd yn cael ei weithredu, ni ddisgwylir i'r cynnig hwn gael effaith negyddol ar ddatblygiad blaenoriaethau cenedlaethol na chyfleoedd dysgu proffesiynol i staff. Mae gan Ysgol Hafodwenog systemau datblygu perfformiad cadarn ar waith, wedi'u cynllunio i gefnogi twf proffesiynol unigol ac ysgol gyfan. Mae athrawon yn cael budd o gyfleoedd dysgu strwythuredig a phwrpasol sy'n cyd-fynd ag anghenion disgyblion a nodau strategol yr ysgol. Mae hyn yn sicrhau nad yw trosglwyddo disgyblion yn peryglu datblygiad proffesiynol ond yn hytrach yn gwella cyfleoedd ar gyfer ymarfer cydweithredol a dysgu a rennir ar draws y ffederasiwn.

Yn olaf, byddai cymeradwyo'r cynnig yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion yn Ysgol Hafodwenog, a fyddai'n cryfhau effeithlonrwydd a'r defnydd o adnoddau. Gyda charfan fwy, gall yr ysgol weithredu dau ddosbarth llawn, gan ganiatáu grwpiau addysgu mwy cytbwys a gwell defnydd o staff. Mae cynnydd yn nifer y disgyblion hefyd yn helpu i ddyrannu adnoddau'n well, gan gynnwys deunyddiau dysgu, lle o ran ystafelloedd dosbarth, a staff cymorth, gan sicrhau bod pob disgybl yn elwa ar gyfleoedd addysgu, dysgu a chymdeithasol gwell. Ar y cyfan, mae'r trefniadau arweinyddiaeth a strwythurol yn Ysgol Hafodwenog yn darparu sylfaen gadarn ar gyfer gwell deilliannau addysgol ac effeithlonrwydd ysgol o'i gymharu â'r sefyllfa bresennol yn Ysgol Meidrim.

### 7.6 Effaith y cynigion ar grwpiau agored i niwed, gan gynnwys plant ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Ar ôl CYBLD 2025, nid oedd unrhyw ddisgyblion yn mynychu Ysgol Meidrim yn gymwys i gael Prydau Ysgol Am Ddim. Yn ogystal, yn ôl CYBLD 2025 roedd gan 3.2% o ddisgyblion ar y gofrestr Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n cael effaith ar ddysgwyr ag ADY gan y byddai'n ofynnol iddynt drosglwyddo i ysgol arall.

Ni fyddai'r cynnig uchod yn debygol o gael effaith negyddol ar grwpiau agored i niwed o ddysgwyr, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd difreintiedig yn economaidd neu ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan y byddai tîm mwy o staff a mwy o adnoddau i gefnogi dysgwyr ar draws ffederasiwn o ysgolion. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd cyfarfodydd pontio a chyfathrebu cryf yn digwydd cyn y newid. Bydd gan unrhyw ddysgwyr agored i niwed sydd angen cymorth ychwanegol fynediad at asiantaethau allanol a chyngor gan swyddog Awdurdod Lleol.

### 7.7 Gallu'r ysgol i ddarparu'r cwricwlwm llawn yn y cyfnod sylfaen ac ym mhob cyfnod allweddol addysgol

Yr opsiwn a ffefrir yw trosglwyddo'r disgyblion o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog sydd yn y pentrefi nesaf. Mae gan yr ysgolion derbyn adeilad mwy modern, gwell cyfleusterau a phoblogaeth disgyblion fwy, gan ddarparu gwell mynediad at adnoddau a chyfleusterau sy'n hwyluso darparu'r Cwricwlwm i Gymru yn effeithiol.

Mae cyflawni ehangder llawn y cwricwlwm mewn ysgol fach yn cyflwyno heriau, yn enwedig oherwydd capasiti cyfyngedig o ran staff a diffyg arbenigedd pwnc penodol. I'r gwrthwyneb, gall ysgol fwy ddefnyddio ystod ehangach o staff addysgu a gwybodaeth arbenigol. Ar ben hynny, byddai disgyblion yn elwa ar fod yn rhan o grŵp cyfoedion mwy o fewn eu blwyddyn, sy'n cefnogi eu cynnydd academaidd a'u datblygiad cymdeithasol.

## 8. Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi bod yn rhaid cynnal dadansoddiad o effaith debygol y cynigion ar Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Gan fod yr ysgolion sy'n gysylltiedig â'r cynnig neu yr effeithir arnynt yn darparu addysgu drwy

gyfrwng y Gymraeg, cynhaliwyd Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg ac mae'r asesiad hwnnw wedi'i gynnwys yn Atodiad C. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth penodol sy'n dod i law.

### 8.1 Sut mae'r cynnig yn rhan o Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac i ba raddau y byddai'r cynnig yn cefnogi'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a gymeradwywyd

Mae Ysgol Gynradd Meidrim ac Ysgol Hafodwenog yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol dwy ffrwd. Nid yw'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael.

### 8.2 Sut y byddai'r cynnig yn ehangu neu'n lleihau'r ddarpariaeth Gymraeg. Os mai lleihau'r ddarpariaeth y bydd, nodwch pam y bydd y ddarpariaeth yn cael ei lleihau

Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael. Ni ragwelir y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei lleihau os caiff y cynigion eu gweithredu. Mae Asesiad cychwynnol o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal ac mae wedi'i atodi i'r ddogfen hon yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

## 9. Cyllid

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018) yn nodi bod yn rhaid cynnal dadansoddiad o effaith ariannol debygol y cynigion os cânt eu gweithredu.

### 9.1 Costau rheolaidd cynigion dros gyfnod o 3 blynedd, man lleiaf, ac a yw'r cyllid rheolaidd angenrheidiol ar gael;

Costau rheolaidd y cynnig hwn fyddai'r costau cludiant uwch, a amcangyfrifir ar hyn o bryd i fod yn £50,000 ychwanegol y flwyddyn.

### 9.2 Costau cyfalaf cynigion ac a yw'r cyllid cyfalaf angenrheidiol ar gael

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni ddisgwylir y bydd angen unrhyw gyllid cyfalaf ar gyfer y cynnig ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd cyfalaf ar gael os bydd angen.

### 9.3 A yw cynigion yn rhan o Raglen Fuddsoddi'r awdurdod lleol o dan y fenter Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac felly'n cyfrannu at ddarpariaeth ysgolion cynaliadwy ar gyfer yr 21ain Ganrif, ac at well rheolaeth strategol ar ystad yr ysgolion

Nid yw'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog yn rhan o raglen buddsoddi strategol yr Awdurdod Lleol ar gyfer yr 21ain ganrif. Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu byddai'n arwain at ostyngiad yn ystad yr ysgolion ac yn gwella ei rheolaeth strategol. Mae adolygu maint a hyfywedd ystad yr ysgolion wedi'i nodi fel blaenoriaeth

gorfforaethol i'r Cyngor fel rhan o Strategaeth y Rhaglen Moderneiddio Addysg fel y'i cymeradwywyd gan y Cabinet ym mis Tachwedd 2024.

### 9.4 Costau cludiant ychwanegol sy’n codi o ganlyniad i gynigion, os cânt eu gweithredu

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, amcangyfrifir bod y costau cludiant sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig yn £50,000 y flwyddyn, yn seiliedig ar brisiau cyfredol a lleoliad presennol y disgyblion ac wrth dybio y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

### 9.5 Maint unrhyw arbedion net arfaethedig pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu (gan ystyried costau refeniw, cludiant a chyfalaf ysgolion);

Amcangyfrifir y bydd yr arbedion refeniw blynyddol i'r Cyngor oddeutu £63,229. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys arbedion o gyllideb ddirprwyedig yr ysgol yn 2025/26 a ddarperir ar ffurf tâl atodol ar gyfer ardrethi annomestig, costau safle a thâl atodol o ran nifer y disgyblion i gefnogi ysgolion â niferoedd isel. Mewn gwirionedd, bydd cyfanswm yr arbedion refeniw blynyddol amcangyfrifedig oddeutu £13,229 oherwydd y costau cludiant disgwyliedig o £50,000.

Gan fod y mwyafrif o'r cyllid ar gyfer ysgolion yn cael ei gyfrifo yn ôl nifer y disgyblion, mae'r holl gyllid ar sail nifer y disgyblion yn mynd gyda phob plentyn i'w ysgol amgen, gan gefnogi cyllidebau ysgolion eraill. Ar gyfer Ysgol Gynradd Meidrim, byddai cyfanswm y ffigur wrth symud i ysgolion eraill yn 2025-26 yn £134,028.

Yn ogystal, mae arbedion eraill i'r Cyngor o'r gostyngiad mewn gwasanaethau cymorth canolog a ddarperir i ysgolion fel Adnoddau Dynol, Addysg a Chymorth ADY, TG, Gwasanaeth Cerdd, glanhau, cynnal a chadw eiddo, cynnal a chadw tiroedd ac arlwyo. Roedd y cynigion arbedion a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 24 Chwefror 2025 yn cynnwys argymhelliad i'r Gwasanaeth Ysgolion adolygu hyfywedd ystad yr ysgolion yn y dyfodol.

### 9.6 A fyddai'r ysgolion yr effeithir arnynt yn wynebu diffyg cyllidebol heb y cynigion

Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan dîm cyllid y Cyngor Sir yn dangos bod Ysgol Meidrim wedi bod â diffyg o ran y gyllideb ers 2020/2021. Mae'r diffyg wedi cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn ac roedd y balans diffyg terfynol ar ddiwedd blwyddyn 2024/25 yn £27,704. Mae'r amcanestyniadau cyfredol yn rhagweld diffyg o £67,454 yn 2025/26. Byddai hyn yn awgrymu bod y diffyg yn anghynaliadwy ac o ystyried nifer presennol y disgyblion a'r nifer a ragwelir mae'r ysgol yn annhebygol o fod mewn sefyllfa i adfer y diffyg o fewn amserlen resymol.

Roedd gan Ysgol Griffith Jones £157,621 yn weddill yn y gyllideb ar ddiwedd blwyddyn 2024/25 ac ar hyn o bryd mae ganddi £46,570 yn weddill yn y gyllideb ar gyfer diwedd blwyddyn 2025/26. Byddai hyn yn cynyddu gyda chyllid ychwanegol ar sail nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo.

Roedd gan Ysgol Hafodwenog £6,002 yn weddill yn y gyllideb ar ddiwedd blwyddyn 2024/25 ac ar hyn o bryd rhagwelir bod ganddi ddiffyg o £37,337 yn y gyllideb ar gyfer diwedd blwyddyn 2025/26. Byddai derbyn disgyblion o Ysgol Meidrim o gymorth o ran y diffyg yn y gyllideb.

### 9.7 A gaiff unrhyw arbedion mewn costau rheolaidd eu cadw yng nghyllideb ysgolion lleol yr awdurdod lleol?

Bydd unrhyw arbedion ar gael i'w hailfuddsoddi yn unol â phroses gyllideb gorfforaethol y Cyngor Sir, gydag unrhyw ddyraniad tuag at y system ysgol yn amodol ar gymeradwyaeth fel rhan o gylch cynllunio'r gyllideb flynyddol.

### 9.8 A fyddai'r enillion (derbyniadau cyfalaf) o werthu safleoedd diangen ar gael i dalu costau’r cynnig neu’n cyfrannu at gostau cynigion yn y dyfodol a fydd yn hybu'r broses o reoli lleoedd ysgolion yn effeithiol.

Fel rheol, o ganlyniad i Raglen Moderneiddio Addysg y Cyngor ac yn dilyn proses statudol ofynnol Llywodraeth Cymru, (gan gynnwys yr holl asesiadau effaith priodol: y gymuned, cludiant, y Gymraeg ac ati), bydd ysgolion y nodwyd nad ydynt bellach yn ofynnol at ddibenion addysgol, yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored oni bai bod angen yr adeilad/safle diangen a'i gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned.

Ar ôl i benderfyniad gael ei wneud ar gau unrhyw ysgol, bydd pob pennaeth gwasanaeth yn cael gwybod bod yr ysgol yn cau a'i bod ar gael yn y lle cyntaf. Os nodir angen corfforaethol yna bydd yr ysgol ddiangen yn cael ei throsglwyddo i'r adran berthnasol trwy'r broses feddiannu. Pan nad yw'n ofynnol cadw'r ysgolion / safleoedd diangen yn gorfforaethol, mewn rhai amgylchiadau efallai y byddai'n briodol ystyried defnydd cymunedol parhaus i gynnwys grwpiau gwirfoddol, elusennol a mentrau cymdeithasol.

Byddai defnydd o'r fath yn cael ei gymeradwyo dim ond os oes angen clir am y defnydd arfaethedig yn yr ardal a lle bo hynny'n briodol dylid paratoi cynllun busnes i ddangos hyfywedd y defnydd amgen a fyddai'n cefnogi adferiad economaidd gwledig yr ardal.

Byddai unrhyw elw o werthu safleoedd diangen yn cael ei neilltuo i'w defnyddio yn y dyfodol o fewn y Rhaglen Moderneiddio Addysg er mwyn gwella'r ddarpariaeth addysgol yn y sir.

## 10 Tir, Adeiladau a Theithio

### 10.1 Manylion am unrhyw waith trosglwyddo neu waredu tir neu adeiladau a allai fod angen o ganlyniad i'r cynigion

Mae Ysgol Gynradd Meidrim, Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog yn eiddo i Gyngor Sir Caerfyrddin. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt, byddai Ysgol Gynradd Meidrim yn mynd yn ddiangen. Fel rheol, bydd ysgolion y nodwyd nad ydynt bellach yn ofynnol at ddibenion addysgol yn cael eu gwerthu ar y farchnad agored oni bai

bod angen yr adeilad/safle diangen a'i gadw at ddefnydd corfforaethol mewnol neu fel arall ei drosglwyddo i'r gymuned os yw'n briodol.

### 10.2 A yw'r ysgol neu'r ysgolion dan sylw yn destun unrhyw ymddiriedolaeth neu fuddiannau elusennol y gallai'r cynigion effeithio arnynt

Mae Adran Gyfreithiol yr Awdurdod Lleol wedi adolygu dogfennau'r Gofrestrfa Tir a'r gweithredoedd swyddogol ac, ar sail y dogfennau sydd wedi'u hadolygu ar hyn o bryd, nid ydynt yn credu y bydd y cynigion yn effeithio ar unrhyw ymddiriedolaethau na buddiannau elusennol.

### 10.3 Ansawdd yr adeiladau yn yr ysgol y byddai'r disgyblion yn trosglwyddo ohoni

Mae ansawdd yr adeiladau a'r cyfleusterau yn Ysgol Griffith Jones ac Ysgol Hafodwenog o safon uwch na'r rhai yn Ysgol Gynradd Meidrim o ran cyflwr, addasrwydd a'r cyfleusterau sydd ar gael. Mae manylion y sgoriau cyflwr ac addasrwydd ar gyfer pob adeilad ysgol yn cael eu dangos yn y tabl canlynol.

| | **Ysgol Gynradd Meidrim** | **Ysgol Griffith Jones** | **Ysgol Hafodwenog** |
|---|---|---|---|
| **Cyflwr yr Adeilad** | Gradd B - Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig | Gradd B - Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig | Gradd B - Yn weithredol ddiogel, ac yn dangos mân ddirywiad yn unig |
| **Addasrwydd Adeiladau** | Gradd C - Gwael, mae dulliau addysgu yn rhwystro/cael effaith andwyol ar drefniadaeth yr ysgol | Gradd B - Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd | Gradd B - Boddhaol, yn perfformio fel y bwriadwyd, ond nid yw'n cefnogi darparu'r cwricwlwm mewn rhai meysydd |

### 10.4 Gwybodaeth am unrhyw waith adeiladu sy'n angenrheidiol i sicrhau y gellir darparu lle i'r plant sy'n cael eu trosglwyddo yn y ddarpariaeth amgen

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos gyda'r ysgol sy'n derbyn a'i Chorff Llywodraethu i sicrhau ei bod yn gallu darparu ar gyfer pob disgybl sy'n dymuno trosglwyddo. Cydnabyddir, pe bai'r holl ddisgyblion presennol neu rai o'r disgyblion yn dewis trosglwyddo, y byddai'r ysgol sy'n derbyn ychydig dros ei chapasiti presennol a'i nifer derbyn mewn rhai grwpiau blwyddyn. Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, ni ragwelir y bydd angen unrhyw waith adeiladu ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd cyllid cyfalaf ar gael os bydd angen.

### 10.5 Yr effaith ar amseroedd teithio disgyblion i'r ysgol ac ar gostau cludiant i'r ysgol;

Mae Ysgol Gynradd Meidrim tua 3.1 milltir o Ysgol Griffith Jones a 6.8 milltir o Ysgol Hafodwenog.

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn mynd rhagddo, ni fyddai'n ddiogel i ddisgyblion sy'n mynychu Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o ddalgylch Ysgol Gynradd Meidrim gerdded i'r ysgol.

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, amcangyfrifir bod y costau cludiant sy'n gysylltiedig â gweithredu'r cynnig yn £50,000 y flwyddyn.

### 10.6 Gwybodaeth am lwybrau cerdded sydd ar gael i'r ddarpariaeth amgen

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

Mae Ysgol Griffith Jones tua 3.1 milltir o Ysgol Gynradd Meidrim ar hyd y B4298 cyn troi i'r chwith i Heol Meidrim a'r B4299. Er bod cerdded yn ddymunol ac y byddai'n cynnig manteision iechyd mewn egwyddor, ni fyddai'n ddiogel nac yn ymarferol disgwyl i ddisgyblion gerdded yn rheolaidd o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Griffith Jones. Nid oes llwybr cerdded di-dor, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw ac wedi'i oleuo'n dda rhwng y ddwy ysgol sy'n addas i blant ysgol.

Mae Ysgol Hafodwenog tua 6.8 milltir o Ysgol Gynradd Meidrim ar hyd y B4299. Er bod cerdded yn ddymunol ac y byddai'n cynnig manteision iechyd mewn egwyddor, ni fyddai'n ddiogel nac yn ymarferol disgwyl i ddisgyblion gerdded yn rheolaidd o Ysgol Gynradd Meidrim i Ysgol Hafodwenog. Nid oes llwybr cerdded di-dor, diogel, wedi'i gynnal a'i gadw ac wedi'i oleuo'n dda rhwng y ddwy ysgol sy'n addas i blant ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o'r llwybr ar gyfer pob un o'r 3 ysgol yn cynnwys ffyrdd heb balmentydd, croesi traffig, a ffyrdd gwledig serth heb oleuadau da neu heb oleuadau o gwbl. Byddai tywydd garw yn gwneud y llwybrau yn llai diogel, yn enwedig yn y bore a'r nos.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried lle bo'n bosibl a ellid cytuno ar bwynt casglu dynodedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael cludiant, er mwyn galluogi disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd i barhau i gerdded rhan o'u taith ysgol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

### 10.7 Os caiff y cynigion eu gweithredu, beth yw'r effaith debygol ar wahanol drefniadau teithio

Er y byddai cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgyblion cymwys yn unol â Pholisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol y Cyngor, byddai'n rhaid i rieni deithio ar gyfer gweithgareddau a digwyddiadau ysgol hefyd.

Pe bai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim yn mynd rhagddo, mae'n debygol y byddai disgyblion sy'n mynychu'r ysgol o'r dalgylch yn llai tebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried lle bo'n bosibl a ellid cytuno ar bwynt casglu dynodedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael cludiant, er mwyn galluogi disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd i barhau i gerdded rhan o'u taith ysgol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

## 11 Y Broses Ymgynghori

Bydd yr ymgynghori ynghylch y cynnig hwn yn dilyn y canllawiau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru yn unol â'r hyn a nodwyd yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

**Â phwy yr ymgynghorir?**

Bydd dolen i'r Ddogfen Ymgynghori yn cael ei darparu i'r rhanddeiliaid canlynol (fel y pennir gan y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018)):

**Rhieni, gofalwyr a gwarcheidwaid:**
- Disgyblion sy'n mynychu'r ysgolion y mae'r cynigion yn effeithio arnynt
- Darpar ddisgyblion, lle bo'n bosibl

**Staff ac arweinyddiaeth yr ysgol:**
- Aelodau staff a chyrff llywodraethu ysgolion sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r cynigion
- Cyrff llywodraethu ysgolion eraill y mae'r cynigion yn debygol o effeithio arnynt

**Awdurdodau lleol a'r llywodraeth:**
- Gweinidogion Llywodraeth Cymru
- Aelodau Etholaethol a Rhanbarthol y Senedd ac Aelodau Seneddol (ASau)
- Estyn
- Partneriaeth
- Comisiynydd Heddlu a Throseddu yr ardal
- Comisiynydd y Gymraeg (yn achos cynigion sy’n effeithio ar ddarpariaeth Gymraeg)
- Awdurdodau Lleol cyfagos

**Grwpiau cymunedol a chynrychiolwyr:**
- Undebau’r athrawon ac undebau staff
- Cynghorau cymuned neu dref ar gyfer yr ardal a wasanaethir gan yr ysgolion
- Awdurdod Esgobaethol yr Eglwys yng Nghymru a’r Eglwys Gatholig ar gyfer yr ardal lle mae unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni
- Unrhyw gorff crefyddol priodol arall ar gyfer unrhyw ysgol y mae’r cynigion yn debygol o effeithio arni

**Y Blynyddoedd Cynnar a darpariaeth AAA:**

- Darparwyr annibynnol neu wirfoddol y gall y cynigion effeithio arnynt, gan gynnwys Mudiad Meithrin
- Y Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc a/neu Bartneriaethau Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant
- Cyrff iechyd neu sefydliadau trydydd sector perthnasol (yn achos cynigion sy'n effeithio ar ddarpariaeth AAA)

**Ymgynghori â Disgyblion**

Bydd disgyblion yn cael copi o Ddogfen Ymgynghori i Blant a Phobl Ifanc.

Hefyd, bydd cyfle i ddisgyblion (y Cyngor Ysgol o leiaf) yr ysgolion sy'n destun y cynigion gymryd rhan yn y broses ymgynghori yn ystod sesiwn a gynhelir gan Ymgynghorydd Cymorth Addysg.

Bydd y wybodaeth a gesglir o'r sesiynau ymgynghori â'r disgyblion yn rhan o'r Adroddiad Ymgynghori a gyflwynir i'r Cabinet i'w ystyried yn dilyn y cyfnod ymgynghori.

## 12 Beth fydd yn digwydd nesaf?

**Cam 1. Cyfnod Ymgynghori**

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion yn dechrau ar 16 Ionawr 2026 ac yn dod i ben ar 2 Mawrth 2026.

Gallwch gyflwyno'ch sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig neu ddarparu awgrymiadau eraill. Gallwch hefyd:

- Gwneud sylwadau ynglŷn â'r dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol sydd wedi'u nodi yn ogystal â'r prif gynnig, ac
- Awgrymu dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros ei chau (h.y. yr heriau allweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu).

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymunwch wrthwynebu, bydd angen i chi wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol. Ni fydd unrhyw ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad cau yn cael eu hystyried fel rhan o'r broses ymgynghori.

**Ystyried eich sylwadau**

Yn ystod y cyfnod ymgynghori gallwch ofyn cwestiynau, mynegi eich barn neu ddarparu opsiynau eraill i'w hystyried erbyn 24 Chwefror 2026 fan bellaf drwy un o'r dulliau canlynol:

- Llenwi arolwg ar-lein gan ddefnyddio'r ddolen ganlynol: **AROLWG SNAP**

- Anfon neges e-bost i: RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

- Ysgrifennu llythyr i'r cyfeiriad canlynol: Mr Owain Lloyd, Y Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP

- Neu lenwi copi papur o'r ffurflen ymateb (Atodiad A) a'i dychwelyd at Mr Owain Lloyd, Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden, Neuadd y Sir, Caerfyrddin, SA31 1JP neu anfon copi wedi'i sganio drwy e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Nodwch mai dim ond drwy un dull cyfathrebu y mae angen i chi gyflwyno'ch ymateb.

Bydd sylwadau a gyflwynir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu cofnodi a'u crynhoi mewn Adroddiad Ymgynghori.

Ar ôl y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi Hysbysiad Statudol. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi trwy lenwi a chyflwyno'r ffurflen ymateb yn Atodiad A.

Bydd Cabinet Cyngor Sir Caerfyrddin yn ystyried yr Adroddiad Ymgynghori ac yn penderfynu a yw am fynd ymlaen â'r cynnig ai peidio.

**Cam 2. Cyfnod Gwrthwynebu o ran yr Hysbysiad Statudol**

Os bydd Cabinet y Cyngor Sir yn penderfynu parhau â'r cynnig, rhaid cyhoeddi "Hysbysiad Statudol".

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn cael ei gyhoeddi ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin a'i osod yn yr ysgolion sy'n destun cynigion. Bydd copïau o'r hysbysiad hefyd ar gael i'r ysgolion eu dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd ddosbarthu'r hysbysiad drwy e-bost).

Bydd yr Hysbysiad Statudol yn amlinellu manylion y cynnig ac yn gwahodd unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu neu gefnogi i wneud hynny'n ysgrifenedig cyn pen 28 o ddiwrnodau.

Os bydd gwrthwynebiadau yn dod i law cyhoeddir Adroddiad Gwrthwynebu ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin. Hefyd bydd copïau papur o'r adroddiad ar gael drwy wneud cais. Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r materion neu'r sylwadau cefnogol a godwyd ac yn rhoi ymateb Cyngor Sir Caerfyrddin. Gall ymgyngoreion gofrestru eu bod yn dymuno cael gwybod pan gaiff yr adroddiad ymgynghori ei gyhoeddi trwy anfon e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk.

Os na fydd unrhyw wrthwynebiadau yn dod i law, mae'r cynnig yn symud yn syth i benderfyniad.

**Cam 3. Penderfyniad**

Cyngor Sir Caerfyrddin fydd yn penderfynu ar y cynnig. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newid arfaethedig yn mynd yn ei flaen. Gall y Cyngor Sir benderfynu cymeradwyo'r cynnig, gwrthod y cynnig neu gymeradwyo'r cynnig â newidiadau. Wrth wneud hynny, bydd y Cyngor Sir yn ystyried unrhyw wrthwynebiadau statudol a ddaeth i law.

Ar ôl penderfynu ynghylch y cynigion rhoddir gwybod i'r holl bartïon sydd â diddordeb bod y penderfyniad ar gael a fydd yn cael ei gyhoeddi'n electronig ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

Bydd yr holl randdeiliaid yn cael eu hysbysu am benderfyniad y Cyngor Sir a chyhoeddi'r Adroddiad Gwrthwynebu cyn pen 7 diwrnod ar ôl y penderfyniad.

## 13 Trefniadau Derbyn

Pe bai'r cynnig yn cael ei gymeradwyo, byddai Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweinyddu'r broses dderbyn i Ysgol Griffith Jones, Ysgol Hafodwenog neu unrhyw ysgol arall a gynhelir gan Sir Gaerfyrddin yn unol â Pholisi Derbyn i Ysgolion yr Awdurdod Lleol a Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru.

Yr Uned Derbyn Disgyblion i Ysgolion,
Yr Adran Addysg a Hamdden,
Cyngor Sir Caerfyrddin,
Adeilad 3,
Heol Spilman,
Caerfyrddin,
SA31 1LE

E-bost: derbyniadau@sirgar.gov.uk

### 13.1 Trosglwyddo i'r Ysgol Uwchradd

Yn 11 oed, mae plant yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Rhaid cyflwyno cais ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffefrir, gan nad oes trosglwyddiad awtomatig o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd. Yn ystod tymor yr hydref o flwyddyn olaf yr ysgol gynradd, bydd teuluoedd yn derbyn hysbysiad sy'n cynnwys gwybodaeth am bob ysgol uwchradd yn y sir a manylion ar sut i wneud cais.

Nid oes unrhyw gysylltiad rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Gellir cyflwyno ceisiadau am unrhyw ysgol uwchradd yn y sir. Mae'r cais yn seiliedig ar gartref y plentyn ac nid yr ysgol gynradd a fynychwyd.

### 13.2 Y Dalgylch

Os caiff y cynnig ei gymeradwyo, bydd dalgylch Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

## 14 Asesiadau Effaith

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar gymuned Meidrim. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad B. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol sy'n dod i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wedi'i gynnal i asesu effeithiau'r cynigion ar y Gymraeg. Mae'r asesiad hwn i'w weld yn Atodiad C. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu unrhyw adborth perthnasol sy'n dod i law yn ystod y broses ymgynghori.

Mae Asesiad Effaith Integredig cychwynnol wedi'i gynnal i'n helpu i sicrhau ein bod wedi ystyried sut y gallai ein cynigion effeithio ar wahanol grwpiau a gwasanaethau, gan ein galluogi i gryfhau agweddau cadarnhaol a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol posibl. Os bydd y cynnig yn mynd rhagddo, bydd yr asesiad hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ar adegau allweddol yn ôl yr angen.

## Atodiad A - Ffurflen Ymateb

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn ymgynghori ar y cynnig:

- i gau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.

Mae'r ffurflen ymateb ganlynol yn caniatáu i chi wneud sylwadau ar y cynnig a'r opsiynau eraill, ac awgrymu opsiynau eraill. Mae croeso i ymgyngoreion wneud sylwadau ynghylch y dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol sydd wedi'u nodi gan y cynigydd yn ogystal â'r prif gynnig ac awgrymu dewisiadau eraill yn lle cau'r ysgol a fyddai'n mynd i'r afael â'r rhesymau dros ei chau (h.y. yr heriau allweddol y mae'r ysgol yn eu hwynebu y mae'r cynigydd yn ceisio mynd i'r afael â nhw).

Gall ymgyngoreion gyflwyno'u sylwadau o blaid neu yn erbyn cynnig.

Ni fydd yr ymatebion a geir yn ystod y cyfnod ymgynghori yn cael eu hystyried yn wrthwynebiadau statudol. Os dymuna ymgyngoreion wrthwynebu, bydd angen iddynt wneud hynny'n ysgrifenedig yn ystod y cyfnod gwrthwynebu statudol.

---

1. Ydych chi'n ymateb fel:

☐ Rhiant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Darpar riant, gofalwr neu warcheidwad

☐ Llywodraethwr

☐ Staff

☐ Aelod o'r gymuned

☐ Cyngor Cymuned

☐ Arall: Nodwch ______________________________

2. Ydych chi'n cefnogi'r cynnig?

☐ Ydw ☐ Nac ydw ☐ Yn rhannol

3. Oes gennych chi unrhyw sylwadau ynghylch y cynnig hwn yr hoffech i ni eu hystyried?

4. Oes unrhyw opsiynau eraill y dylai'r Awdurdod Lleol fod yn eu hystyried ar gyfer Ysgol Gynradd Meidrim?

☐ Oes ☐ Nac oes

Os oes, esboniwch yr opsiwn arall/opsiynau eraill:

5. Mae Safonau'r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ni ystyried effeithiau unrhyw benderfyniadau polisi ar y Gymraeg.

a. Yn eich barn chi, pa effeithiau cadarnhaol neu niweidiol fyddai'r cynnig hwn yn eu cael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| |

b. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel y byddai'n cael effaith gadarnhaol neu fwy cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| |

c. Yn eich barn chi, sut allai'r cynnig gael ei lunio neu ei newid fel na fyddai'n cael effaith niweidiol neu'n cael effaith lai niweidiol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

| |
|---|
| |

6. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd Adroddiad Ymgynghori yn cael ei gyhoeddi a fydd yn crynhoi'r materion a nodwyd gan yr ymgyngoreion ac ymateb yr Awdurdod Lleol i'r materion hynny.

Hoffech chi gael gwybod am gyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori?

☐ Hoffwn ☐ Na hoffwn

Os hoffech chi gael gwybod, rhowch gyfeiriad e-bost neu gyfeiriad post a dewis iaith (Cymraeg/Saesneg):

| |
|---|
| |

Diolch am lenwi'r ffurflen ymateb.

Dylid anfon ffurflenni ymateb wedi'u llenwi i'r cyfeiriad canlynol:

Mr Owain Lloyd,
Cyfarwyddwr Addysg a Hamdden,
Neuadd y Sir,
Rhiw'r Castell
Caerfyrddin
SA31 1JP

neu drwy anfon copi wedi'i sganio drwy e-bost i RhMYYmgynghoriadau@sirgar.gov.uk

Neu gallwch lenwi'r ffurflen hon ar-lein **AROLWG SNAP**

**Dychwelwch eich ymateb erbyn 2 Mawrth 2026. Ni fydd ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.**

## Atodiad B – Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned

**Y Pwnc: Y cynnig i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog.**

***1. Gwybodaeth am gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol;***

Mae'r tabl isod yn tynnu sylw at gyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r tu allan i'r dalgylch sy'n mynychu'r ysgol, cyfran y disgyblion o'r dalgylch sy'n mynychu ysgolion eraill a pha ysgolion y maent yn eu mynychu.

| Blwyddyn | Nifer y disgyblion | Yn y dalgylch | Y tu allan i'r dalgylch | Yn y dalgylch mewn ysgolion eraill* |
|---|---|---|---|---|
| CYBLD 2025 | 31 | 25 | 6 | 20* |
| **Ysgolion Eraill**<br>*Bancyfelin, Brynsaron, Griffith Jones, Hafodwenog, Tre Ioan, Model | | | | |

***2. Clybiau ar ôl ysgol a gweithgareddau allgyrsiol a ddarperir gan yr ysgol:***

Mae'r ysgol yn cynnig Clwb Celf a Chrefft bob dydd Mawrth, gan roi cyfle i ddisgyblion feithrin eu creadigrwydd a mwynhau cydweithio ar amrywiaeth o brosiectau. Nid yw'r ysgol yn darparu clwb brecwast ar hyn o bryd.

***3. Unrhyw gyfleusterau neu wasanaethau eraill a ddarperir yn yr ysgol neu wasanaethau y mae'r ysgol yn eu darparu:***

Mae'r ysgol yn croesawu'r grŵp Cylch Ti a Fi i'r ysgol bob bore Iau sy'n cynnig lle croesawgar a chynhwysol i fabanod, plant bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd.

***4. Defnydd arall gan y gymuned o adeilad yr ysgol***

Nid yw Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned ehangach, gan fod y Neuadd Ieuenctid yn y pentref yn darparu lleoliad pwrpasol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau lleol.

***5. Cysylltiadau eraill rhwng yr ysgol a'r gymuned***

Mae'r ysgol yn falch o'u cysylltiadau lleol cryf â'r gymuned sydd wedi'u hymgorffori ar draws ei hymarfer dyddiol a dyluniad cwricwlwm.

Mae'r ysgol yn perfformio ddwywaith y flwyddyn i'r preswylwyr oedrannus lleol, a hynny mewn cartrefi gofal ac mewn digwyddiadau cymunedol. Maent yn croesawu ymweliadau misol gan y ficer lleol i arwain addoli ar y cyd ac ymweliadau ystafell ddosbarth. Mae'r ysgol yn ymweld ag eglwys y pentref, gan ganiatáu i'r plant archwilio treftadaeth ddiwylliannol. Maent yn gwneud gweithgareddau codi arian ar gyfer parc y pentref sy'n cael eu cynllunio a'u harwain gan y disgyblion. Maent yn cynnal y Ffair Nadolig a Ffair yr Haf yn y Neuadd Ieuenctid yn ogystal â pherfformio

sioeau Nadolig blynyddol yn Neuadd yr Eglwys. Mae'r ysgol yn cynnal teithiau cerdded 'Glanhau' o amgylch y pentref i hyrwyddo gofal am yr amgylchedd a chodi arian ar gyfer llawer o elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae pobl leol yn dod i'r ysgol i siarad am eu diddordebau, busnesau ac ati.

***6. Os darperir adeiladau, ystafelloedd, cyfleusterau neu wasanaethau gan ysgol, ble y byddent yn cael eu darparu os caiff ysgol ei chau?***

Mae'r ysgol yn croesawu'r grŵp Cylch Ti a Fi i'r ysgol bob bore Iau sy'n cynnig lle croesawgar a chynhwysol i fabanod, plant bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt a chael eu gweithredu, gallai'r grŵp Cylch Ti a Fi symud i'r Neuadd Ieuenctid yn y pentref.

**7.** ***P'un a gaiff neu p'un a ellid gwella'r cyfleusterau eraill sydd ar gael yn y gymuned leol neu'r gymuned ehangach pe cai'r ysgol ei chau (e.e. gwella neuaddau pentref, meysydd chwarae, y cynlluniau chwarae a ddarperir yn ystod y gwyliau);***

Nid oes unrhyw gynlluniau i wella cyfleusterau eraill yn y gymuned leol neu'n ehangach fel rhan o'r cynnig presennol.

***8. Gwybodaeth am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a ddarperir mewn unrhyw ysgol arall;***

Mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol gynradd ar gyfer disgyblion 3-11 oed. Mae gan yr ysgol gyfleusterau ac adnoddau modern. Mae'r dosbarth meithrin yn darparu addysg y blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel i blant dan bump oed.

Mae neuadd yr ysgol, ynghyd â llwyfan sefydlog a symudol, yn cefnogi mynegiant creadigol trwy ddrama ac yn ddelfrydol ar gyfer cynnal digwyddiadau cymdeithasol. Mae caeau chwarae eang yn caniatáu i blant fwynhau ystod eang o weithgareddau chwaraeon. Mae'r gampfa fawr, wedi'i chyfarparu'n dda yn cynnig lle ar gyfer gymnasteg, symud, pêl-rwyd, pêl-fasged, dawns, athletau a badminton. Ym mis Medi 2022, agorwyd llyfrgell newydd i gefnogi a gwella datblygiad darllen disgyblion.

Mae gan Ysgol Griffith Jones Glwb Brecwast, sy'n gweithredu bob bore o 8:05am tan 8:40am yn neuadd yr ysgol.

Mae Clwb yr Enfys yn rhedeg y clwb ar ôl ysgol o 3:00pm i 5:55pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener. Am ffi o £10 y sesiwn, cynigir byrbryd iach i blant a chyfle i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau dan do ac yn yr awyr agored, yn dibynnu ar y tywydd.

Yn ogystal â Chlwb yr Enfys, mae'r ysgol yn cynnig amrywiaeth o Glybiau Gweithgareddau ar ôl Ysgol yn ystod Tymor yr Hydref. Mae'r rhain yn cynnwys clwb chwaraeon; clwb celf; dawnsio gwerin; Clwb TGCh; clwb Ffrangeg; clwb coginio; clwb gwyddoniaeth a chlwb drama. Mae Clwb Chwaraeon y Ddraig hefyd yn cynnig amrywiaeth o chwaraeon yn ystod y tymor, gan gynnwys pêl-rwyd; pêl-droed; rygbi; criced ac athletau.

Mae Ysgol Hafodwenog yn ymfalchïo mewn cymryd rhan yn Eisteddfod yr Urdd, ac mae'n cystadlu'n flynyddol mewn cystadlaethau grŵp ac unigol. Eleni, cafodd disgyblion lwyddiant nodedig yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam, gan ennill tair gwobr am glocsio, y parti unsain i ysgolion â hyd at 50 o ddisgyblion, a'r parti dawnsio gwerin i ysgolion â hyd at 100 o ddisgyblion. Hefyd, enillodd y grŵp clocsio y drydedd wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd. Mae'r ysgol hefyd yn cystadlu'n rheolaidd yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd, gan ddangos brwdfrydedd a doniau'r disgyblion y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

Mae cyflawniadau academaidd a diwylliannol yr ysgol yn cynnwys ennill un o'r prif wobrau yng nghystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig ar gyfer prosiect Hanes Fictoraidd yn seiliedig ar ardal Tre-lech a bod ymhlith yr ysgolion cyntaf yn y sir i dderbyn gwobr Aur y Siarter Iaith yn haf 2023. Mae'r disgyblion yn cael budd o addysg gerddorol gyfoethog; cynigir gwersi ffidil i Flynyddoedd 3–6 drwy Wasanaeth Cerdd y Sir ac mae gwersi telyn ar gael i bob disgybl drwy diwtor allanol. Mae ymwybyddiaeth amgylcheddol hefyd yn cael ei dathlu, ac mae'r ysgol yn falch o ennill ei seithfed Wobr Platinwm Eco-Sgolion - tipyn o gyflawniad i ysgol fach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo llais ac arweinyddiaeth disgyblion drwy ei chyngor ysgol gweithredol, *'Hafod Hwylus'*. Mae'r grŵp hwn yn trefnu gweithgareddau elusennol, yn dylanwadu ar bolisïau'r ysgol, ac yn cyflwyno ei syniadau a'i gynnydd i'r Llywodraethwyr yn rheolaidd. Mae amrywiaeth eang o glybiau yn cyfoethogi bywyd yr ysgol, gan gynnwys Clwb Brecwast dyddiol, *'Clwb Clocsio'* yn ystod tymor y gwanwyn, a *'Clwb Hwyl*' - sef clwb gofal ar ôl ysgol sydd ar gael ar ddydd Mercher a dydd Iau rhwng 3:45pm a 5:30pm.

Mae cynnwys y gymuned wrth wraidd ethos yr ysgol. Mae ciniawau cymunedol tymhorol yn dod â disgyblion a phobl leol at ei gilydd, ac yn aml bydd perfformiadau neu weithgareddau ar y cyd fel gemau ar ôl y ciniawau hyn. Mae gwirfoddolwyr o'r gymuned yn chwarae rôl amhrisiadwy trwy ddarllen gyda disgyblion, cefnogi grwpiau cerddorol a dawns, a hyd yn oed helpu i ddatblygu ardaloedd dysgu yn yr awyr agored—fel gardd synhwyrau a grëwyd mewn partneriaeth ag *Adam yn yr Ardd* a gwelyau plannu newydd sy'n cael eu cynnal a'u cadw gan rieni. Mae cynnyrch sy'n cael ei dyfu yn yr ysgol yn cael ei werthu i rieni ac aelodau o'r gymuned. Mae gwirfoddolwyr a rhieni hefyd yn helpu gyda hyfforddiant chwaraeon mewn gweithgareddau gan gynnwys rownderi, pêl-rwyd, rygbi a chriced.

Mae Hafod Hwylus yn trefnu digwyddiadau cymunedol rheolaidd fel Prynhawn Coffi Macmillan, Eisteddfod yr Ysgol, gwasanaeth Diolchgarwch, a sesiynau casglu sbwriel o amgylch y pentref. Mae'r ysgol hefyd yn darparu safle ailgylchu dillad i'r gymuned. Mae cysylltiadau cryf yn cael eu cynnal â Chapel y Graig, lle mae disgyblion yn perfformio'n rheolaidd mewn cymanfaoedd canu a chyngherddau, ac mae'r ysgol yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan y capel. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n dda â Chylch Meithrin Trelech gan wneud gweithgareddau ar y cyd, gan gynnwys Diwrnod Shwmae Su'mae, sesiynau chwaraeon, a diwrnodau ffotograffiaeth. Mae'r Cylch yn defnyddio safle'r ysgol ar gyfer amrywiaeth o ddigwyddiadau codi arian ac yn cwrdd yn rheolaidd ar gyfer sesiynau Clwb Ti a Fi, a hyd yn oed yn ymuno â'r disgyblion am ginio unwaith y mis.

Mae Aelwyd Hafodwenog yn cwrdd yn wythnosol ar safle'r ysgol, ac mae'r Pwyllgor Rhieni ac Athrawon yn weithgar iawn, gan gynnal cyfarfodydd a threfnu digwyddiadau cymunedol fel noson rownderi sy'n dod â chlybiau ffermwyr ifanc lleol, capeli a grwpiau cymunedol at ei gilydd. Mae rhieni hefyd yn cynnal diwrnod cynnal a chadw blynyddol i helpu i dacluso tiroedd yr ysgol. Mae'r Canon Ann Howells yn ymweld ddwywaith y tymor i arwain gwasanaethau gyda'r disgyblion, ac mae'r ysgol yn cyfrannu'n rheolaidd at fentrau lleol fel '*Hwb Cynnes Trelech'*, lle mae disgyblion yn cysylltu â phentrefwyr drwy gemau a pherfformiadau.

Mae safle'r ysgol wedi'i ddynodi fel man cyfarfod addas a hygyrch i'r gymuned mewn argyfwng.

### *9. Pellter ac amser teithio i ysgol amgen yn yr un categori iaith;*

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones sydd tua 3.1 milltir o Feidrim neu Ysgol Hafodwenog sydd tua 6.8 milltir o Feidrim. Yr amser teithio o Ysgol Griffith Jones yw tua 7 munud a'r amser teithio o Ysgol Hafodwenog yw tua 12 munud.

### *10. Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig;*

Y cynnig yw cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog. Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol a gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn y pen draw, byddai cymorth yn cael ei ddarparu i ddisgyblion a'u rhieni fel rhan o'r broses bontio.

Pe bai rhieni'n dewis anfon eu plant i ysgol arall heblaw Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, byddai angen iddynt ddilyn y polisi a'r broses Derbyn i Ysgolion sydd i'w gweld ar wefan Cyngor Sir Caerfyrddin.

### *11. Yr effaith ar iechyd a llesiant, ee pe bai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol;*

O ganlyniad i'r cynnig arfaethedig i gau'r ysgol, byddai disgyblion yn llai abl i gerdded neu feicio i'r ysgol sy'n derbyn oherwydd mwy o bellter a phryderon ynghylch diogelwch ar y ffyrdd. Gallai hyn leihau cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol dyddiol, a allai gael effaith negyddol ar iechyd a llesiant rhai disgyblion. Fodd bynnag, mae'r ysgolion sy'n derbyn yn cynnig ystod eang o glybiau chwaraeon fel y nodir uchod, a fyddai'n helpu i liniaru rhai o'r effeithiau posibl trwy ddarparu cyfleoedd rheolaidd ar gyfer gweithgarwch corfforol yn ystod oriau ysgol a thu allan i oriau ysgol. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried lle bo'n bosibl a ellid cytuno ar bwynt casglu dynodedig ar gyfer y disgyblion hynny sy'n gymwys i gael cludiant, er mwyn galluogi disgyblion sy'n cerdded i'r ysgol ar hyn o bryd i barhau i gerdded rhan o'u taith ysgol pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo.

### *12. Unrhyw oblygiadau ehangach e.e. yr effaith ar ddarpariaeth trafnidiaeth gyhoeddus, materion diogelwch cymunedol ehangach*

Nid oes unrhyw effeithiau disgwyliedig ar wasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus. Mae'n ofynnol yn ôl y polisi cludiant ysgol i ddarparu cludiant am ddim i unrhyw blentyn sy'n byw mwy na dwy filltir o'r ysgol briodol agosaf, felly bydd cludiant yn cael ei ddarparu i'r rhai sy'n gymwys.

Gallai cau adeilad yr ysgol hefyd arwain at golli lle diogel dynodedig ar gyfer argyfyngau cymunedol, fel lloches neu fan cyfarfod. Fodd bynnag, nid yw'n glir ar hyn o bryd a yw'r ysgol yn cael ei defnyddio'n weithredol at y diben hwn.

### *13. Ystyriaethau ychwanegol ar gyfer ysgolion gwledig*

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn cynnwys nifer o ystyriaethau eraill sydd hefyd yn debygol o fod yn berthnasol o ran asesu effaith cau ysgol wledig ar y gymuned. Gan fod Ysgol Gynradd Meidrim yn cael ei nodi fel ysgol wledig, ystyrir y ffactorau hyn isod.

- ***A fyddai cau'r ysgol yn annog teuluoedd â phlant o oedran ysgol i adael y gymuned neu'n golygu bod teuluoedd ifanc yn llai tebygol o symud i'r gymuned;***

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, byddai'n gadael Meidrim heb ysgol leol ac o ganlyniad gallai'r pentref ddod yn llai deniadol i deuluoedd â phlant ifanc, gan gyflymu'r dirywiad demograffig a heneiddio'r boblogaeth. Wrth i deuluoedd o bosibl geisio mynediad haws at wasanaethau ac addysg, gall trosiant eiddo godi, ond gall y galw am dai gan deuluoedd ifanc ostwng.

- ***Pa effaith y gallai cau'r ysgol ei chael ar wasanaethau eraill a ddarperir yn lleol, er enghraifft os mai'r ysgol yw'r unig adeilad cyhoeddus yn y gymuned;***

Mae'r ysgol yn croesawu'r grŵp Cylch Ti a Fi i'r ysgol bob bore Iau sy'n cynnig lle croesawgar a chynhwysol i fabanod, plant bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt ac yn cael eu gweithredu, byddai'n ofynnol i'r grŵp Cylch Ti a Fi symud.

- ***A yw'r ysgol yn cael ei defnyddio at ddibenion eraill megis cyfarfodydd cyhoeddus, digwyddiadau lleol, ffeiriau, cymorthfeydd a digwyddiadau eraill lle daw pobl at ei gilydd – a fyddai naill ai'n dod i ben neu'n dioddef o gael eu symud i rywle arall;***

Nid yw adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd gan y gymuned ehangach, gan fod y Neuadd Ieuenctid yn y pentref yn darparu lleoliad pwrpasol ar gyfer amrywiaeth eang o weithgareddau lleol.

- ***A fydd colli'r ysgol, a theuluoedd o bosibl, yn cael effaith andwyol ar economi ehangach y gymuned;***

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo, gallai cau'r ysgol gael canlyniadau ehangach o ran sefydlogrwydd economaidd y gymuned leol. Bydd hyn yn cael ei werthuso ymhellach ar ôl i'r ysgol gyflwyno'r wybodaeth y gofynnwyd amdani am y defnydd gan y gymuned. Mae ysgolion gwledig yn aml yn gweithredu fel canolbwynt cymdeithasol ac economaidd allweddol, a gall eu cau arwain at leihad mewn poblogaeth, llai o alw am dai, a llai o draffig cwsmeriaid ar gyfer busnesau cyfagos. Gallai hyn, yn ei dro, effeithio ar gynaliadwyedd gwasanaethau ac amwynderau lleol eraill.

- ***Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw gyfleusterau y gall eu cynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion (yn enwedig y rhai sydd o dan anfantais) i gymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol);***

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod y Cyngor yn bwrw ymlaen â'r broses statudol ac yn gweithredu'r opsiwn a ffefrir yn y pen draw, bydd cymorth priodol yn cael ei gynnig i ddisgyblion a'u rhieni drwy gydol y cyfnod pontio.

- ***Effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol (gan gynnwys colli cyfleusterau yn yr ysgol a ddefnyddir gan y gymuned leol).***

Pe bai'r cynnig yn mynd rhagddo a bod yr ysgol yn cau, gallai gael effaith ar y Cylch Ti a Fi, a fyddai angen symud i safle arall o bosib. Gan nad yw adeilad yr ysgol yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd, oherwydd eu bod yn defnyddio'r Neuadd Ieuenctid yn y pentref ar hyn o bryd, bydd effaith gyffredinol cau'r ysgol ar y gymuned leol yn fach gan eu bod eisoes yn defnyddio lleoliadau eraill.

### *14. Materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori*

Bydd hyn yn cael ei ddiweddaru ar ôl derbyn ymatebion i'r ymgynghoriad.

### *15. Casgliad*

Ar sail y cynnig presennol, gall gweithredu'r cynnig gael effaith ar y gymuned am y rhesymau a ddisgrifir uchod. Bydd y casgliad hwn yn cael ei ddiweddaru ar ôl yr ymatebion i'r ymgynghoriad.

## Atodiad C – Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

**Cynnig a Chefndir**

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cynnig cau Ysgol Gynradd Meidrim o 31 Rhagfyr 2026 a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog, ac mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar y Gymraeg yn ategu cynnig y Cyngor. Ar hyn o bryd mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ysgol categori iaith 3 (Cyfrwng Cymraeg); mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol categori iaith 3,2 (Dwy Ffrwd) ac mae Ysgol Hafodwenog yn ysgol categori iaith 3 (Cyfrwng Cymraeg). Ystod oedran Ysgol Meidrim yw 4-11 oed, sef yr un peth ag Ysgol Hafodwenog, ac ystod oedran Ysgol Griffith Jones yw 3-11 oed.

Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus ledled Cymru a enwir yn y ddeddf weithio tuag at gyflawni saith nod llesiant, gan gynnwys 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.

**Cymraeg 2050** yw strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg a'i gweledigaeth yw bod y Gymraeg yn perthyn i bawb yng Nghymru. Nodir uchelgais Llywodraeth Cymru hefyd i gynyddu'r defnydd o'r Gymraeg a nifer y bobl sy'n siarad yr iaith, yn ogystal â'r ymrwymiad i weithio tuag at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 ac i barhau i annog mwy o bobl i ddefnyddio a siarad Cymraeg yn eu bywydau bob dydd.
Cymraeg 2050 yw'r prif bolisi sy'n llywio'r newidiadau i'r broses statudol o gynllunio addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ôl strategaeth Cymraeg 2050, addysg drochi cyfrwng Cymraeg yw'r prif ddull o sicrhau bod plant yn gallu meithrin eu sgiliau Cymraeg, ac o greu siaradwyr newydd. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd y sector blynyddoedd cynnar fel pwynt mynediad cynnar i addysg drochi, ac fel ffordd o gynyddu'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg.

**Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (2022-2032) a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg (2023-28)**

Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 a Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Caerfyrddin yn cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol ac maent yn sylfaen i gyfraniad y Cyngor at gyrraedd y targed a nodir yn strategaeth Llywodraeth Cymru. Bydd y cynnig hwn yn sicrhau bod Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cyflawni ei ddyletswyddau statudol mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg drwy ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg ac yn hyrwyddo cynnydd

yn nifer y bobl o bob oed sy’n medru defnyddio’r Gymraeg gyda’u teuluoedd, yn eu cymunedau ac yn y gweithle. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-32 Cyngor Sir Caerfyrddin yn glir yn ei nod a’i egwyddor o ddatblygu gallu ein disgyblion i ddefnyddio’r Gymraeg a’r Saesneg yn rhugl ac yn hyderus mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd. Bydd hyn yn eu galluogi i ddod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni, gan feithrin balchder yn ieithoedd, treftadaeth a diwylliant Sir Gaerfyrddin a Chymru.

Bydd y cynnig hwn yn cyfrannu at wireddu'r amcanion strategol yn Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg Sir Gaerfyrddin sy'n anelu at ‘*wneud y Gymraeg yn brif iaith y Sir ac adfer y Gymraeg yn iaith a siaredir ac a ddefnyddir gan fwyafrif ein trigolion yn gyson, ac ym mhob agwedd ar fywyd’.*

**Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg yn Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032**

Mae gan Addysg Sir Gâr – Cyfeiriad Gwasanaethau Addysg Sir Gaerfyrddin i'r dyfodol 2022-2032 flaenoriaethau clir sy'n canolbwyntio ar bedair thema allweddol, sy'n gysylltiedig â'n Cenhadaeth Genedlaethol, pedwar diben Cwricwlwm i Gymru. Mae Diben 8 yn nodi y bydd Cyngor Sir Caerfyrddin “*yn hyrwyddo'r Gymraeg ac yn ymfalchïo yn nhreftadaeth a diwylliant unigryw Sir Gaerfyrddin*”.

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae'r Gymraeg yn rhan annatod o Gwricwlwm i Gymru gyda'r nod o gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg hyderus sy'n rhan o'r system addysg statudol a sicrhau bod pob dysgwr, yn y dyfodol, yn gallu defnyddio'r Gymraeg ar ôl iddo adael yr ysgol. Mae'n pwysleisio'r ffaith y bydd y Gymraeg yn parhau i fod yn orfodol hyd at 16 oed.

**Ar bwy fydd y cynnig hwn yn effeithio'n uniongyrchol?**

Bydd y cynnig yn cael effaith ar ddisgyblion oed cynradd a'u teuluoedd yn ardal Meidrim sydd am gael eu haddysg mewn ysgol categori iaith cyfrwng Cymraeg. Bydd y cynnig hwn yn cael effaith ar blant, pobl ifanc, rhieni a staff drwy gau eu hysgol bresennol a'u symud i ysgol arall. Bydd hefyd yn cael effaith ar gymuned Meidrim, gan y byddai'r ddarpariaeth addysg leol yn cael ei cholli pe bai'r cynnig yn mynd yn ei flaen. Fodd bynnag, er bod y cynllun yn cynnwys trosglwyddo disgyblion i ysgol dwy ffrwd, bydd dewis rhieni yn caniatáu i'r disgyblion fynychu'r ffrwd Gymraeg yn yr ysgol amgen. Fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn, disgwylir i'r newid hwn wella ansawdd a safonau mewn addysg i'r plant.

| Cynnig: Cau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | | | | |
| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws yr effaith** | **A oes unrhyw fesurau wedi'u nodi i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd cadarnhaol?** | **Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)** |
| Categori Iaith yr ysgol (ffurfiol) | Mae'r ysgol sy'n destun cau yn ysgol Categori 3 (Cyfrwng Gymraeg) ac mae'r ysgol sy'n derbyn yng Nghategori 2,3 (Dwy Ffrwd).<br><br>Disgrifir **Categori 3** fel a ganlyn - Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.<br><br>Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.<br><br>O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd | Negyddol | • Cyfathrebu clir gyda Rhieni/Gwarcheidwaid.<br>• Rhannu a hyrwyddo deunydd dwyieithog sy'n esbonio manteision addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys manteision gwybyddol, diwylliannol a gyrfaol.<br>• Rhannu straeon llwyddiant.<br>• Egluro'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog er mwyn osgoi dryswch.<br>• Datblygu gweithgareddau cyfoethogi pellach (e.e. drama, chwaraeon, codio) drwy gyfrwng y Gymraeg i atgyfnerthu'r | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael.<br><br>Disgrifir **Categori 2** fel a ganlyn - Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg ar gyfer cyfathrebu mewnol yn ogystal â chyfathrebu â rhieni a gofalwyr. Mae dealltwriaeth glir y bydd cynnal ethos Cymraeg o fewn yr ysgol yn cefnogi agweddau cadarnhaol tuag at ddefnydd o'r Gymraeg. Bydd dysgwr mewn ysgol o'r categori hwn yn gallu siarad, darllen, ysgrifennu a gwrando yn Saesneg ac yn Gymraeg yn unol â'i oedran a'i allu. Bydd sgiliau iaith Gymraeg yn cael eu cryfhau'n bellach drwy gynyddu cyfleoedd dysgu (cwricwlaidd ac allgyrsiol) drwy gyfrwng y Gymraeg. Lle defnyddir y Gymraeg fel cyfrwng dysgu, defnyddir y Saesneg yn achlysurol i atgyfnerthu dealltwriaeth dysgwyr. Gyda'r cymorth cywir, gallai dysgwyr symud ymlaen i ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg Categori 3. Bydd o leiaf 50% o weithgareddau ysgol y dysgwyr (yn gwricwlaidd ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Gellid cyflawni hyn mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar gyd-destun yr ysgol. Gallai fod drwy ddefnyddio trochi cyfrwng Cymraeg llawn hyd at 7 oed gyda dewis yn cael ei gynnig yn y grwpiau blwyddyn | | defnydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.<br>• Darparu rhaglenni trochi Cymraeg wedi'u targedu i ddisgyblion a allai fod angen cymorth ychwanegol. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | eraill, neu, fod 50% o weithgareddau'r ysgol yn Gymraeg drwyddi draw.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. Fodd bynnag, byddai opsiwn i ddisgyblion sy'n trosglwyddo o Ysgol Gynradd Meidrim (Categori 3, Cyfrwng Cymraeg) fynd i mewn i ffrwd Categori 2 yn Ysgol Griffith Jones. Gallai hyn gael effaith negyddol ar gaffael Cymraeg disgyblion a chynnydd Deilliant 3 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall).<br><br>O ystyried profiad blaenorol y disgybl mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac ymrwymiad y Cyngor i ddilyniant ieithyddol, rhagwelir y bydd y disgybl yn parhau yn y ffrwd cyfrwng Cymraeg i sicrhau parhad a datblygiad parhaus eu sgiliau Cymraeg. | | | |
| Categori Iaith yr ysgol (anffurfiol) | Mae'r Siarter Iaith yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau a'i nod yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac mae'n rhan o Ddeilliant 5 y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn | | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Addysg. Mae Ysgol Gynradd Meidrim wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith ac mae Ysgol Griffith Jones wedi ennill y Wobr Aur.<br><br>Felly byddai'r cynnig hwn yn cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol gydag ystod ehangach o gyfoedion. | Cadarnhaol | | |
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol | **Ysgol Gynradd Meidrim**<br><br>Ym mis Ebrill 2024, nododd adroddiad arolygiad Estyn ar gyfer Ysgol Gynradd Meidrim fod “llawer o’r disgyblion ieuengaf yn caffael y Gymraeg yn fuddiol ac yn ymdrechu i’w siarad a mwynhau eu dysgu. Mae arweinwyr wedi dyrannu cyllid yn briodol i gyflogi staff ychwanegol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu hyder a’u rhugldier yn y Gymraeg yn addas. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar fedrau llafar disgyblion. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu’n briodol wrth iddynt symud drwy’r ysgol. Mae’r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac i ganfod ystyr testun. Erbyn Blwyddyn 6, mae’r mwyafrif yn datblygu eu medrau darllen yn addas. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ysgrifennu | Cadarnhaol | Gallai'r cynnig i drosglwyddo disgyblion i ffrwd Categori 3 (Cyfrwng Cymraeg) yn Ysgol Griffith Jones gael effaith gadarnhaol ar ddilyniant disgyblion yn y Gymraeg oherwydd bod disgyblion yn cael eu haddysgu gyda charfan o ddisgyblion o oedran tebyg.<br><br>Dywed Estyn fod llawer o ddisgyblion yn Ysgol Griffith Jones “*yn datblygu i fod yn ddysgwyr dwyieithog medrus”.*<br><br>Byddai'r opsiwn hwn hefyd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion sgwrsio a chydweithio drwy'r Gymraeg, mewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, gydag ystod ehangach o gyfoedion. | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | cyfres o frawddegau syml gan gynnwys prif lythrennau ac atalnodi clir yn briodol. Maent yn cael cyfleoedd i ysgrifennu amrywiaeth berthnasol o destunau ar y cyd â'u cyfoedion. Er hyn, o ganlyniad i ddiffyg cynllunio pwrpasol, nid yw medrau ysgrifennu cynnar y disgyblion yn cael eu datblygu'n gydlynus. Ar frig yr ysgol, pan gaiff y disgyblion gyfle i ysgrifennu'n annibynnol, maent yn ysgrifennu mewn modd diddorol gan ddefnyddio atalnodi pwrpasol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu'n ymestynnol mewn amrywiaeth o ffurfiau."<br><br>Mae bron pob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymfalchïo yn ei waith. Mae bron pob disgybl yn datblygu ei fedrau llythrennedd yn briodol yn ôl ei oedran a'i allu. Mae bron pob disgybl yn siarad am ac yn darllen ei waith ysgrifenedig yn effeithiol. Mae rhai yn tueddu i newid i'r Saesneg wrth drafod eu gwaith. Mae craffu ar waith llythrennedd yn dangos bod prosesau ysgrifennu penodol ar waith ym Mlynyddoedd 3 i 6, a bod camau addysgu yn dilyn dilyniant rhesymegol i godi safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg—er enghraifft, testunau enghreifftiol, nodweddion pwrpas, bocsio, ac MPLL. Mae cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | estynedig ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.<br><br>**Ysgol Griffith Jones**<br><br>Mae adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Griffith Jones yn nodi bod “darpariaeth yr ysgol i ddatblygu iaith Gymraeg y disgyblion a’u gwybodaeth am eu hetifeddiaeth yn effeithiol. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwybod beth mae’n ei olygu i fod yn Gymry ac maent yn siarad Cymraeg yn hollol naturiol gyda balchder. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddiwylliant Cymru.<br><br>Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu eu medrau llafar yn effeithiol mewn ystod dda o weithgareddau. Yn y cyfnod sylfaen, maent yn trafod eu gwaith yn hyderus ac yn dangos parch at gyfraniadau ei gilydd. Mae llawer ohonynt yn awyddus i ddatblygu eu syniadau’n llwyddiannus o oed meithrin. Enghraifft dda o hyn yw’r ffordd maent yn dewis sain i gynrychioli cymeriadau yn stori Alun yr Arth. Wrth i’r disgyblion symud trwy’r ysgol, mae gan lawer ohonynt y medrau i drafod pynciau amrywiol yn aeddfed wrth iddynt ddadlau o blaid neu yn erbyn cael bwyty bwyd cyflym enwog yn y pentref. Maent yn datblygu i fod yn ddysgwyr | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | dwyieithog medrus. Ar ddechrau'r cyfnod sylfaen, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu dealltwriaeth ddefnyddiol o lythrennau a seiniau. Erbyn diwedd y cyfnod, mae gan bron bob un o'r disgyblion agweddau cadarnhaol tuag at ddarllen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae rhan fwyaf y disgyblion yn darllen yn rhugl a gyda chywirdeb yn y Gymraeg a Saesneg. Maent yn trafod cynnwys llyfrau yn fwriadus, ac yn dangos hoffter tuag at wahanol fathau o lyfrau. Erbyn Blwyddyn 6, mae llawer yn ysgrifennu'n hyderus mewn amrediad o gyd-destunau ac yn cynhyrchu gwaith pwrpasol. Yn y ffrwd Categori 2, "Mae ychydig iawn o ddisgyblion o'r ffrwd Saesneg yn darllen nofelau Cymraeg yn fedrus iawn ac yn eu trafod yn y Gymraeg yn hyderus. Er hynny, mae medrau darllen Cymraeg llawer o ddisgyblion yn y ffrwd Saesneg yn llai datblygedig. Maent yn esbonio'r testun yn syml ac yn ynganu geiriau'n gywir wrth ddarllen ar goedd." | | | |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr | **Ysgol Gynradd Meidrim**<br><br>Mae'r ysgol yn cynnig Clwb Celf a Chrefft bob dydd Mawrth, gan roi cyfle i ddisgyblion feithrin eu creadigrwydd a mwynhau gweithio ar y cyd ar amrywiaeth o brosiectau. | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ysgol e.e clybiau'r Urdd | **Ysgol Griffith Jones**<br><br>Mae Ysgol Griffith Jones yn darparu rhaglen o weithgareddau ar ôl ysgol a gyflwynir drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r rhain yn cynnwys Clwb Canu Cŵl, Clwb Eco, Clwb Iechyd a Chlwb Digidol - nod pob un yw cyfoethogi profiadau disgyblion a hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg mewn lleoliadau anffurfiol.<br><br>Mae côr yr ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd i ymarfer caneuon Cymraeg i baratoi ar gyfer cystadlaethau a chyngherddau, gan feithrin talent gerddorol a balchder diwylliannol.<br>Mae'r disgyblion hefyd yn derbyn hyfforddiant mewn dawns a llefaru fel rhan o'u paratoi ar gyfer Eisteddfod yr Urdd, gan gefnogi eu datblygiad creadigol ac ymgysylltu â thraddodiadau diwylliannol Cymru. | | | |
| Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i aelodau'r gymuned ddysgu | **Ysgol Gynradd Meidrim**<br><br>Mae'r ysgol yn cefnogi rhieni a'r gymuned ehangach i ddysgu Cymraeg. Mae hyn yn cynnwys adnoddau a gweithgareddau ar-lein, ochr yn ochr â chyfleoedd i gymryd rhan mewn digwyddiadau yn yr ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg. Hefyd, | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg | mae llywodraethwr ysgol yn cynnal 'Clwb Clonc', sy'n cynnig lle anffurfiol, cyfeillgar i aelodau'r gymuned gymdeithasu ac ymarfer eu Cymraeg.<br><br>**Ysgol Griffith Jones**<br><br>Mae safle'r ysgol yn cael ei ddefnyddio gan Urdd Gobaith Cymru, sy'n llogi'r gampfa i redeg clwb gymnasteg cyfrwng Cymraeg, gan hyrwyddo gweithgarwch corfforol drwy'r Gymraeg.<br><br>Mae'r Urdd hefyd yn cyflwyno clybiau chwaraeon yn ystod gwyliau'r ysgol, gan ddarparu mynediad parhaus i ddisgyblion at brofiadau Cymraeg egnïol y tu hwnt i'r tymor.<br>Yn ogystal, mae'r Clwb Ffermwyr Ifanc lleol (Aelwyd) yn defnyddio neuadd yr ysgol i gynnal cyngherddau a nosweithiau gemau, gan gryfhau'r cysylltiadau rhwng yr ysgol a'r gymuned wledig ehangach. | | | |
| Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw welliannau penodol o ran yr | Byddai Ysgol Griffith Jones yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn cael gwybod am y ddarpariaeth ar ôl ysgol ac allgyrsiol sydd ar gael yn yr ysgol a byddent yn cael eu hannog i gymryd rhan. | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| iaith sy'n cael eu cynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion i gymryd rhan mewn gweithgareddau a ddarperir gan yr Urdd, Mentrau Iaith); | | | | |
| P'un a allai fod yn briodol darparu cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol mewn unrhyw ysgol arall i ddiogelu ymhellach safonau yn y Gymraeg; | Mae'n annhebygol y bydd angen cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol yn Ysgol Griffith Jones. | | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Yr effeithiau y gallai penderfyniad polisi eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin | Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg. | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. | | | |
| Gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun. | **Y weledigaeth: Y flwyddyn 2050**: *Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn a system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb.* Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer | Negyddol | Mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol 3-11 oed ac mae'n cynnig addysg y Blynyddoedd Cynnar a fydd yn galluogi disgyblion dalgylch Ysgol Gynradd Meidrim i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o oedran cynharach gan sicrhau eu bod yn trochi yn y Gymraeg o oedran cynharach nag oedran ysgol statudol.<br><br>Gallai'r cynnig hwn gefnogi Deilliant 1 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Mwy o blant meithrin/tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg) Efallai y bydd y cynnig yn cefnogi Deilliant 5 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr | Niwtral |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | datblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod.<br><br>Nid yw'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â'r targedau yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.<br><br>Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael.<br><br>Mae Ysgol Gynradd Meidrim yn ysgol Gategori 3 (cyfrwng Cymraeg) ac mae Ysgol Griffith Jones yn ysgol Categori 3,2 (Dwy Ffrwd). Os caiff ei weithredu, gallai'r cynnig gael effaith negyddol ar gynnydd Deilliant 3 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall) gan y byddai disgyblion sy'n trosglwyddo i Griffith Jones yn cael yr opsiwn o fynd i mewn i ffrwd Categori 2. | | ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol).<br><br>Mae Ysgol Griffith Jones yn darparu cyfleoedd allgyrsiol arbennig lle gall disgyblion ddefnyddio eu Cymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn yr ysgol yn nodi bod yr ysgol yn darparu nifer o weithgareddau allgyrsiol. Efallai y bydd y cynnig hwn yn cefnogi Deilliant 6 Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol). Byddai gan Ysgol Griffith Jones fynediad at dîm mwy o staff ac adnoddau i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol drwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>**Categori Lliniaru 2/3:**<br>• Cyfathrebu clir gyda Rhieni/Gwarcheidwaid.<br>• Rhannu a hyrwyddo deunydd dwyieithog sy'n esbonio manteision | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | addysg cyfrwng Cymraeg, gan gynnwys manteision gwybyddol, diwylliannol a gyrfaol.<br>• Rhannu straeon llwyddiant.<br>• Egluro'r gwahaniaeth rhwng darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog er mwyn osgoi dryswch.<br>• Datblygu gweithgareddau cyfoethogi pellach (e.e. drama, chwaraeon, codio) drwy gyfrwng y Gymraeg i atgyfnerthu'r defnydd y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.<br>• Darparu rhaglenni trochi Cymraeg wedi'u targedu i ddisgyblion a allai fod angen cymorth ychwanegol. | |

| Cynnig: Cau Ysgol Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Hafodwenog. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | | | | |
| **Meini Prawf Effaith** | **Disgrifiad** | **Statws yr effaith** | **A oes unrhyw fesurau wedi'u nodi i liniaru unrhyw effaith negyddol neu i greu mwy o gyfleoedd cadarnhaol?** | **Effaith derfynol (yn dilyn dulliau lliniaru)** |
| Categori Iaith yr ysgol (ffurfiol) | Mae'r ysgol sy'n destun cau yn ysgol Categori 3 (Cyfrwng Cymraeg) ac mae'r ysgol sy'n derbyn hefyd yn ysgol Categori 3 (Cyfrwng Cymraeg).<br><br>Disgrifir **Categori 3** fel a ganlyn - Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol. Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen. Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.<br><br>Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.<br><br>O 7 oed ymlaen bydd o leiaf 80% o weithgareddau ysgol y dysgwr (yn gwricwlaidd | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ac yn allgyrsiol) yn Gymraeg. Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael. | | | |
| Categori Iaith yr ysgol (anffurfiol) | Mae'r Siarter Iaith yn cefnogi plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar eu bywydau a'i nod yw cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg ac mae'n rhan o Ddeilliant 5 y Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg. Mae Ysgol Meidrim wedi ennill Gwobr Efydd y Siarter Iaith ac mae Ysgol Hafodwenog wedi ennill y Wobr Aur.<br><br>Felly byddai'r cynnig hwn yn cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg yn ffurfiol ac yn anffurfiol gydag ystod ehangach o gyfoedion. | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Gwybodaeth am safonau'r Gymraeg yn yr ysgol | **Ysgol Meidrim**<br><br>Mae adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Meidrim yn nodi bod "llawer o'r disgyblion ieuengaf yn caffael y Gymraeg yn fuddiol ac yn ymdrechu i'w siarad a mwynhau eu dysgu. Mae arweinwyr wedi dyrannu cyllid yn briodol i gyflogi staff ychwanegol i gefnogi disgyblion i ddatblygu eu hyder a'u rhuglder yn y Gymraeg yn addas. Mae hyn yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | fedrau llafar disgyblion. Mae medrau darllen llawer o ddisgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae'r disgyblion ieuengaf yn dechrau defnyddio ystod o strategaethau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd, ac i ganfod ystyr testun. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn datblygu eu medrau darllen yn addas. Mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn ysgrifennu cyfres o frawddegau syml gan gynnwys prif lythrennau ac atalnodi clir yn briodol. Maent yn cael cyfleoedd i ysgrifennu amrywiaeth berthnasol o destunau ar y cyd â'u cyfoedion. Er hyn, o ganlyniad i ddiffyg cynllunio pwrpasol, nid yw medrau ysgrifennu cynnar y disgyblion yn cael eu datblygu'n gydlynus. Ar frig yr ysgol, pan gaiff y disgyblion gyfle i ysgrifennu'n annibynnol, maent yn ysgrifennu mewn modd diddorol gan ddefnyddio atalnodi pwrpasol. Fodd bynnag, nid ydynt yn cael cyfleoedd cyson i ysgrifennu'n ymestynnol mewn amrywiaeth o ffurfiau."<br><br>Mae bron pob disgybl yn datblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu ac yn ymfalchïo yn ei waith. Mae bron pob disgybl yn datblygu ei fedrau llythrennedd yn briodol yn ôl ei oedran a'i allu. Mae bron pob disgybl yn siarad am ac yn darllen ei waith ysgrifenedig yn effeithiol. Mae rhai | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | yn tueddu i newid i'r Saesneg wrth drafod eu gwaith. Mae craffu ar waith llythrennedd yn dangos bod prosesau ysgrifennu penodol ar waith ym Mlynyddoedd 3 i 6, a bod camau addysgu yn dilyn dilyniant rhesymegol i godi safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg—er enghraifft, testunau enghreifftiol, nodweddion pwrpas, bocsio, ac MPLL. Mae cyfleoedd ar gyfer ysgrifennu estynedig ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig.<br>**Ysgol Hafodwenog**<br><br>Mae adroddiad arolygiad diweddaraf Estyn ar gyfer Ysgol Hafodwenog yn nodi bod y disgyblion "yn mynegi eu hunain yn gynyddol gywir a hyderus yn y Gymraeg a Saesneg. Fodd bynnag, lleiafrif sy'n defnyddio geirfa sy'n berthnasol i bwnc penodol ac mae yna dueddiad i lawer o'r disgyblion ddefnyddio geiriau Saesneg wrth gyfathrebu yn y Gymraeg. Mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n addas i'w hoed a'u gallu. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a synau ac maent yn dechrau creu geiriau'n hyderus. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn datblygu i fod yn ddarllenwyr pwrpasol ac yn darllen gyda chywirdeb a rhuglder. Trwy gydol cyfnod allweddol 2, mae'r rhan | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | fwyaf yn datblygu'n ddarllenwyr cymedrol yn y Gymraeg a Saesneg. Mae llawer ohonynt yn defnyddio eu medrau darllen yn hyderus i drefnu gwybodaeth o ffynonellau amrywiol.<br><br>Mae medrau ysgrifennu cynnar rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n bwrpasol. Erbyn diwedd y cyfnod sylfaen, mae llawer yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n briodol mewn ystod gyfyng o wahanol ffurfiau. Maent yn ymestyn eu brawddegau gan ddefnyddio geiriau cysylltu sylfaenol ac yn defnyddio priflythrennau ac atalnodau llawn yn gywir. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn rhwystro gallu mwyafrif y disgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac i gyflawni cystal ag y gallent. Mae llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg. Erbyn Blwyddyn 6, mae'r mwyafrif yn ysgrifennu'n llwyddiannus mewn ychydig o ffurfiau wrth iddynt sgriptio stori Priodas Nantgwrtheyrn, er enghraifft. Maent yn atalnodi'n addas ac mae eu sillafu yn y ddwy iaith yn datblygu'n bwrpasol. Fodd bynnag, nid yw'r disgyblion yn defnyddio eu medrau ysgrifennu estynedig annibynnol yn ddigon aml ym meysydd eraill y cwricwlwm. Mae safon cyflwyniad gwaith y | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | disgyblion yn amrywio gormod ar draws yr ysgol. | | | |
| Gwybodaeth am weithgareddau ar ôl ysgol sy'n rhoi cyfleoedd ychwanegol i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol e.e clybiau'r Urdd | **Ysgol Meidrim**<br>• Mae'r ysgol yn cynnig Clwb Celf a Chrefft bob dydd Mawrth, gan roi cyfle i ddisgyblion feithrin eu creadigrwydd a mwynhau gweithio ar y cyd ar amrywiaeth o brosiectau.<br>• Nid oes gan yr ysgol glwb brecwast ar hyn o bryd.<br><br>**Ysgol Hafodwenog**<br>• Clwb Brecwast: bob dydd rhwng 8:10am–8:45am<br>• Nos Fawrth: Clwb clocsio (Tymor y Gwanwyn)<br>• Nos Fercher a Nos Iau: Clwb Hwyl rhwng 3:45pm–5:30pm (clwb gofal ar ôl ysgol)<br>• Mae'r ysgol yn cystadlu yn Eisteddfod yr Urdd bob blwyddyn mewn cystadlaethau grŵp ac unigol. Yn 2025, enillodd dair gwobr yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mharc Margam am y grŵp glocsio, y parti unsain i ysgolion â hyd at 2025 o ddisgyblion, a'r parti dawnsio gwerin i ysgolion â hyd at 100 o ddisgyblion. Dyfarnwyd trydedd | Cadarnhaol | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | wobr yn Eisteddfod Genedlaethol Pontypridd i'r grŵp clocsio.<br>• Mae'r ysgol yn cystadlu'n rheolaidd yng nghystadlaethau chwaraeon yr Urdd.<br>• Enillodd yr ysgol un o'r prif wobrau yng nghystadleuaeth Menter Ysgolion y Dreftadaeth Gymreig am brosiect hanes Oes Fictoria yn ardal Tre-lech.<br>• Enillodd yr ysgol Wobr Aur y Siarter Iaith yn ystod Tymor yr Haf 2023, un o'r ysgolion cyntaf yn y sir i wneud hynny.<br>• Mae Ysgol Hafodwenog yn cynnig gwersi ffidil i ddisgyblion Blynyddoedd 3 i 6 drwy Wasanaeth Cerdd y Sir. Mae gwersi telyn yn cael eu cynnig i bob disgybl yn yr ysgol trwy ddarparwr allanol.<br>• Mae gan yr ysgol gyngor ysgol gweithgar ac effeithiol (Hafod Hwylus) sy'n trefnu gweithgareddau elusennol yn yr ysgol. | | | |
| Gwybodaeth ynghylch a yw'r ysgol yn darparu cyfleusterau i | **Ysgol Meidrim**<br>• Mae'r ysgol yn croesawu Cylch Ti a Fi (Grŵp Rhieni a Phlant Bach) bob bore Iau, gan ddarparu lle cynnes a chynhwysol i fabanod, | Cadarnhaol | Os bydd y cynnig hwn yn mynd yn ei flaen, bydd Ysgol Hafodwenog yn ystyried anghenion cymuned Meidrim, cysylltiadau ag eglwysi lleol a'r | Cadarnhaol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| aelodau'r gymuned ddysgu Cymraeg, neu gyfleusterau iddynt ymgymryd â gweithgareddau trwy gyfrwng y Gymraeg | plant bach a'u teuluoedd ddod at ei gilydd a chysylltu.<br>• Er nad yw'r ysgol ei hun yn cael ei defnyddio'n rheolaidd gan y gymuned ehangach, mae'r Neuadd Ieuenctid yn y pentref yn darparu lleoliad pwrpasol sy'n cefnogi amrywiaeth eang o weithgareddau lleol.<br>• Mae'r ysgol yn ymfalchïo yn ei chysylltiadau lleol cryf, sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ei harferion dyddiol a dyluniad y cwricwlwm.<br>• Mae'r disgyblion yn perfformio ddwywaith y flwyddyn ar gyfer preswylwyr oedrannus yn y gymuned, a hynny mewn cartrefi gofal lleol ac mewn digwyddiadau cymunedol.<br>• Mae'r ysgol yn croesawu ymweliadau misol gan y ficer lleol, sy'n arwain addoli ar y cyd ac yn cysylltu â disgyblion trwy ymweliadau ystafell ddosbarth. Mae'r plant hefyd yn ymweld ag eglwys y pentref i archwilio a gwerthfawrogi eu treftadaeth ddiwylliannol.<br>• Mae'r disgyblion yn cymryd yr awenau wrth gynllunio a chynnal gweithgareddau codi arian ar gyfer parc y pentref, gan feithrin eu | | Neuadd Ieuenctid wrth drefnu digwyddiadau a gweithgareddau blynyddol.<br><br>Ar hyn o bryd mae Ysgol Meidrim yn croesawu'r grŵp Cylch Ti a Fi i'r ysgol bob bore Iau. Pe bai'r cynigion yn mynd rhagddynt ac yn cael eu gweithredu, gallai'r grŵp symud i Neuadd Ieuenctid y pentref. | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | hymdeimlad o gyfrifoldeb ac ysbryd cymunedol.<br>• Mae'r ysgol yn cynnal y Ffair Nadolig a Ffair yr Haf yn y Neuadd Ieuenctid ac yn perfformio ei sioeau Nadolig blynyddol yn Neuadd yr Eglwys, gan gryfhau cysylltiadau â'r gymuned ehangach.<br>• Mae teithiau cerdded 'Glanhau' rheolaidd o amgylch y pentref yn helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth amgylcheddol, ochr yn ochr ag ymdrechion codi arian ar gyfer amrywiaeth o elusennau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.<br>• Gwahoddir trigolion lleol i'r ysgol i rannu eu diddordebau, eu profiadau a'u busnesau, gan gyfoethogi dealltwriaeth disgyblion o'r gymuned o'u cwmpas.<br><br>**Ysgol Hafodwenog**<br><br>Mae'r ysgol yn cynnal cysylltiadau cryf a gweithredol â'r gymuned leol trwy amrywiaeth eang o fentrau:<br>• Cynhelir Cinio Cymunedol Tymhorol lle gwahoddir aelodau o'r gymuned i fwyta gyda disgyblion. Mae'r digwyddiadau hyn yn cael eu dilyn yn aml gan berfformiadau o | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | eitemau Eisteddfod, gemau bwrdd, a gweithgareddau eraill.<br>• Mae gwirfoddolwyr wythnosol o'r gymuned, rhai Cymraeg a di-Gymraeg, yn helpu disgyblion i ddarllen. Mae eraill yn helpu'r ysgol i baratoi cerddoriaeth a dawns ar gyfer cystadlaethau ysgol ac Eisteddfod yr Urdd, gan gynnwys Cerdd Dant a chyfeiliant. Datblygodd un gwirfoddolwr ardd synhwyrau yn ystod haf 2025 gydag "Adam yn yr Ardd" ac mae rhieni wedi creu gwelyau plannu newydd. Mae'r ysgol yn gwerthu llysiau i rieni a'r gymuned ehangach.<br>• Darperir cymorth chwaraeon gan wirfoddolwyr a rhieni sy'n helpu i ddysgu chwaraeon fel rownderi, pêl-rwyd, rygbi a chriced.<br>• Mae'r Cyngor Ysgol, sef Hafod Hwylus, yn trefnu digwyddiadau cymunedol rheolaidd gan gynnwys Prynhawn Coffi Macmillan, Eisteddfod yr Ysgol, gwasanaeth Diolchgarwch, a sesiynau casglu sbwriel yn y pentref. Mae man ailgylchu dillad hefyd ar gael wrth fynedfa'r ysgol i'r gymuned ei ddefnyddio.<br>• Mae'r ysgol yn gweithio'n agos gyda Chapel y Graig, sef capel y | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | pentref, gan ddefnyddio'r safle ar gyfer gwasanaethau a chymanfaoedd canu, a chymryd rhan mewn digwyddiadau a drefnir gan y capel.<br>• Mae partneriaeth gref gyda Chylch Meithrin Trelech, ac mae disgyblion meithrin yn cymryd rhan mewn gweithgareddau fel 'Diwrnod Shwmae Su'mae' a sesiynau chwaraeon dan arweiniad Llysgenhadon Chwaraeon. Maent hefyd yn cael eu gwahodd i sesiynau ffotograffau proffesiynol a mabolgampau'r ysgol. Mae'r Cylch yn defnyddio safle'r ysgol ar gyfer digwyddiadau codi arian fel y Ffair Nadolig, "Cawl a Chân", teithiau tractorau, a chyfarfodydd pwyllgorau. Maent hefyd yn rhedeg clwb "Ti a Fi" wythnosol ac yn ymuno â'r ysgol am ginio bob mis.<br>• Mae Aelwyd Hafodwenog, grŵp ieuenctid, yn cwrdd yn wythnosol yn yr ysgol bob nos Iau.<br>• Mae Pwyllgor Rhieni ac Athrawon gweithgar a llwyddiannus yn defnyddio'r ysgol ar gyfer cyfarfodydd a digwyddiadau. Mae'r gweithgareddau yn cynnwys nosweithiau rownderi gyda Chlybiau Ffermwyr Ifanc o Ben-y- | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | bont a Chapel Iwan, capeli lleol, a phwyllgorau neuadd bentref. Mae rhieni hefyd yn trefnu diwrnod cynnal a chadw blynyddol i dacluso tiroedd yr ysgol.<br>• Mae'r Canon lleol yn arwain gwasanaethau gyda disgyblion ddwywaith bob tymor.<br>• Mae disgyblion wedi cymryd rhan yng ngweithgareddau cymunedol Hwb Cynnes Trelech, gan ennyn diddordeb trigolion trwy berfformiadau a gemau addysgol.<br>• Man Cyfarfod mewn Argyfwng. Mae safle'r ysgol wedi'i ddynodi ac ar gael fel man cyfarfod cymunedol mewn argyfwng. | | | |
| Sut y gellid cefnogi'r rhieni a'r disgyblion i fanteisio ar yr ysgol amgen ac unrhyw welliannau penodol o ran yr iaith sy'n cael eu cynnig (e.e. sut y cynorthwyir disgyblion i gymryd rhan | Byddai Ysgol Hafodwenog yn sicrhau bod rhieni a disgyblion yn cael gwybod am y ddarpariaeth ar ôl ysgol ac allgyrsiol sydd ar gael yn yr ysgol a byddent yn cael eu hannog i gymryd rhan. | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| mewn gweithgareddau a ddarperir gan yr Urdd, Mentrau Iaith); | | | | |
| P'un a allai fod yn briodol darparu cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol mewn unrhyw ysgol arall i ddiogelu ymhellach safonau yn y Gymraeg; | Mae'n annhebygol y bydd angen cyfleusterau ar ôl ysgol ychwanegol yn Ysgol Hafodwenog. | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |
| Yr effeithiau y gallai penderfyniad polisi eu cael ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, neu ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg | Nid yw'r cynnig hwn yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.<br><br>Pe bai'r cynnig yn cael ei weithredu, byddai disgyblion yn parhau i gael mynediad at ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae Cyngor Sir Caerfyrddin hefyd yn cydnabod pwysigrwydd defnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Drwy Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg y cyngor a thrwy weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn parhau i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i holl ddisgyblion Sir Gaerfyrddin | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | a'n cymunedau ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd bob dydd. | | | |
| Gwybodaeth ynghylch sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod ac unrhyw gamau y bydd angen eu cymryd yn y dyfodol o ganlyniad i'r newid i barhau i gydymffurfio â'r cynllun neu gyrraedd targedau'r cynllun. | **Y weledigaeth: Y flwyddyn 2050**: *Mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu, mae nifer y siaradwyr wedi cynyddu i filiwn a chaiff ei defnyddio ym mhob agwedd ar fywyd. Ymhlith y rheini nad ydynt yn ei siarad mae yna ewyllys da tuag ati ac ymdeimlad o berchnogaeth ohoni. Mae yna werthfawrogiad hefyd o'i chyfraniad i ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru. Ein gweledigaeth ym mhob rhan o'r wlad yw creu amodau ffafriol sy'n cefnogi'r broses o gaffael yr iaith a'r arfer o ddefnyddio sgiliau Cymraeg. Rydym am weld cynnydd yn yr arfer o drosglwyddo'r iaith o fewn y teulu, yr arfer o gyflwyno'r Gymraeg yn gynnar i bob plentyn a system addysg sy'n rhoi sgiliau Cymraeg i bawb.*<br>Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2022-2032 Cyngor Sir Caerfyrddin. Mae'n nodi gweledigaeth, nod ac amcanion yr awdurdod ar gyfer datblygu addysg cyfrwng Cymraeg dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae'r cynnig yn cyd-fynd yn llawn â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr awdurdod.<br><br>Nid yw'r cynnig yn uniongyrchol gysylltiedig â'r targedau yng Nghynllun | Niwtral | Ddim yn berthnasol | Ddim yn berthnasol |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Strategol y Gymraeg mewn Addysg yr Awdurdod Lleol.<br><br>Byddai'r cynnig yn sicrhau bod darpariaeth Gymraeg ar gael. | | | |

**Casgliad a Chrynodeb**
Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn rhagweld effaith niwtral ar y Gymraeg gyda rhai agweddau cadarnhaol o ganlyniad i'r cynnig hwn i gau Ysgol Gynradd Meidrim a throsglwyddo'r disgyblion i Ysgol Griffith Jones neu Ysgol Hafodwenog o 31 Rhagfyr 2026.

Bydd yr asesiad effaith hwn yn cael ei ddiweddaru drwy gydol y broses i adlewyrchu unrhyw adborth sy'n dod i law.